

Canu Gwerin

(Folk Song)



CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU

Elusen gofrestredig rhif 259772

SWYDDOGION

Llywydd: D. Roy Saer

Is-Lywyddion:

Dr Osian Ellis
Dr Meredydd Evans
Phyllis Kinney
Buddug Lloyd Roberts

Cadeirydd:

Dr E. Wyn James

Is-Gadeirydd:

Dafydd Idris Edwards

Ysgrifennydd Cyffredinol:


Dr Rhiannon Ifans
Rhandir, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3EQ
Ffôn: 01970 828719

Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth:

Rhidian Griffiths
Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2HX
Ffôn: 01970 610160
e-bost: griffiths.berllan@btinternet.com

Trysoryddion cynorthwyol:

Ann Saer
Dafydd Idris Edwards



Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru

Journal of the Welsh Folk-Song Society

Caneuon Huw Puw (Darlith Goffa Amy Parry-Williams, 2007)	3
Delyth G. Morgans	
Pedair cân o gasgliad (1911) Jennie Williams	17
D. Roy Saer	
Yr Eisteddfod a'r Faled	26
Tegwyn Jones	
Caneuon llafar gwlad o gasgliad Tal Griffith	41
Buddug Lloyd Roberts	
'Hai haw Brithi i'r buarth': Golwg ar ganeuon gwaith Iolo Morganwg	55
Leila Salisbury	
Ambell i gân: 'Trên bach Port', 'Y cyntaf dydd o'r Gwyliau' a 'Cân Galennig'	83
Meredydd Evans	
Canlyn y Fari	88
Arfon Hughes	
Y Caniedydd Cymreig – rhagor am Ieuan Ddu a'i ganeuon	95
Nigel Ruddock	
Rhigymau Dolgellau a'r cylch	121
Olwen Clough	
'Marchnad Llangollen'	123
Charles Parry	
'Cysurwch, cysurwch fy mhobl'	126
Maurice Loader a Caradog Williams	
Dr Eirwen Gwynn (1916-2007)	130
Meredydd Evans	
Gwilym Morus	133
Dafydd Idris	
Adolygiad: Barbara Boock, <i>Kinderliederbücher 1770-2000: Eine annotierte, illustrierte Bibliografie der deutschsprachigen Kinderliederbücher im Deutschen Volksliedarchiv</i> (Münster, 2007)	136
Seiriol Dafydd	
Adolygiad: Trevor Jones, <i>Caneuon Mam – Mam's Songs</i>	138

Y cyfranwyr biau hawlfraint eu cyfraniadau. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y Cylchgrawn o reidrwydd yn adlewyrchu barn y Golygydd na'r Gymdeithas.

Contributions are the copyright of the contributors. Opinions expressed in the Journal do not necessarily reflect the viewpoints of the Editor or the Society.

Golygydd: Dr Rhiannon Ifans

Argraffu: Gwasg Morgannwg, Castell-nedd

Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru

Aelodaeth unigol: £10.00
(Individual membership)

Aelodaeth deuluol: £12.00
(Family membership)

Aelodaeth myfyrwyr: £3.00
(Student membership)

Ysgrifennydd Aelodaeth / Membership Secretary:

Dr Rhidian Griffiths, Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-Môr,
Aberystwyth, Ceredigion SY23 2HX

 (01970) 610160

Llun y clawr: Llun Rhiannon Ifans o Noson y Fari Lwyd, Dinas Mawddwy,
12 Ionawr 2008

Y mae'n fwrriad i *Canu Gwerin* gael ei gynnwys dan brosiect digido'r Llyfrgell Genedlaethol. Gofynnir i gyfranwyr y gorffennol, y presennol, a'r dyfodol roi gwybod i'r Golygydd os ydynt yn dymuno i'w herthyglau beidio â chael eu cynnwys.

It is intended that *Canu Gwerin* be included under the National Library's digitisation project. Future, present and past contributors are invited to notify the Editor if they wish to be exempted from this scheme.

Darlith Goffa Amy Parry-Williams
Eisteddfod Genedlaethol Sir y Fflint a'r Cyffiniau, Awst 2007

CANEUON HUW PUW

Delyth G. Morgans

Mae'n ddigon rhwydd bod yn ystrydebol a dweud bod hwn-a-hwn neu hon-a-hon yn gymeriad arloesol, yn gymeriad lliwgar, yn gymeriad amlochrog. Ond dyna'n wir oedd John Glyn Davies. Amhosib fyddai bwrw golwg fanwl ar y cymeriad hwn o fewn ffiniau un ddarlith, ond at ddiben y gymdeithas hon, Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, fe edrychir yn fras ac yn gyffredinol ar ei fywyd ac ar ei ymwneud â meysydd canu gwerin a cherddoriaeth draddodiadol yng Nghymru.



Delyth G. Morgans

Lerpwl

Un o Gymry Lerpwl oedd John Glyn Davies. Fe'i ganed ar 22 Hydref 1870 yn 55 Peel Street, a chafodd ei fagu yn 38 Devonshire Road, yn yr un ddinas. Wedi cyfnod yn y Liverpool Institute yn cael ei addysg, trodd yn brentis mewn swyddfa cwmni llongau hwyliau – Rathbone Brothers a Chwmni Cambrian, cyn symud wedyn i gwmni Henry Tate & Sons. Dyma ddechrau'i gysylltiad annatod â'r môr. Yn y cyfnod hwnnw, gweithio mewn swyddfa oedd yr alwedigaeth fwyaf parchus at fod yn weinidog, fel y dymunai ei fam iddo fod, yn dilyn ôl traed ei dad-cu, John Jones, Tal-y-sarn. Mae'n debyg i J. Glyn Davies fod eisiau mynd yn beiriannydd, ond ni chafodd wireddu'i ddymuniad oherwydd rhagfarn snobyddlyd ei fam a gwragedd y ddinas yn erbyn gweithwyr ag ôl gwaith arnynt; ofnai ei fam y byddai'n edrych 'just like a working man'.¹

Yn 1896 ac yntau yng nghanol ei ugeiniau, aeth J. Glyn Davies i Seland Newydd i weithio gyda chwmni cloddio aur y Mines Corporation of New Zealand Ltd. am gyfnod o ddwy flynedd. Rhaid fod teithio a mentro yn ail natur iddo, oherwydd wedi dychwelyd o Auckland bu rhwng dau feddwl p'un ai mynd i weithio i Beriw neu i Aberystwyth. Wrth sgwrsio gyda Tom Ellis yn Nhŷ'r Cyffredin yn 1898 cafwyd y syniad uchelgeisiol o sefydlu Llyfrgell Gymraeg yn Aberystwyth, ac i J. Glyn Davies geisio am radd BA yn Rhydychen. Roedd



J. Glyn Davies

y ddau Aelod Seneddol, Tom Ellis a William Jones, o blaid iddo fynd i Aberystwyth i sefydlu Llyfrgell Gymraeg yno, ond ni chafwyd fawr o gefnogaeth i'r syniad gan Syr John Rhŷs a'i wraig. Ar 9 Mai 1899, fodd bynnag, cyrhaeddodd Aberystwyth (ie, Aberystwyth, ac nid aur a chyfoeth Periw!) a chychwynnodd ar y paratoadau a ddaeth yn y man yn sail i Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Does dim amheuaeth na fu ei gyfnod yn Aberystwyth – 'y lle mwyaf ofnadwy y bum yn byw ynddo erioed' yng ngeiriau J. Glyn Davies ei hun² – yn gyfnod cythryblus. Mewn llythyr oddi wrth un o'i ferched, Gwen Koblenz, at Cledwyn Jones dywed, 'my father seems to have gone down in history for burning the card-index, I am sorry about that.'³ Yr ydym ni fel pobl yn diuno pan glywn ni ryw sgandal; rydym fel petaem ni'n cael blas ar glywed am fethiannau eraill. Ond y mae Cledwyn Jones yn ei gyfrol *Mi Wisga'i Gap Pig Gloyw* yn dangos cydymdeimlad â J. Glyn Davies, a hynny'n ddigon priodol a theg.

Wedi wyth mlynedd yn Aberystwyth dychwelodd i'w gynefin yn ninas Lerpwl, a hynny ar 7 Mehefin 1907. Drwy wahoddiad Kuno Meyer, cymeriad allweddol ym mywyd J. Glyn Davies, dechreuodd ddarlithio yn Adran Geltaidd, Prifysgol Lerpwl.

Tyfodd J. Glyn Davies yn ysgolhaig gwybodus, enwog a dylanwadol. Ef fu'n gyfrifol am sefydlu Adran Gymraeg ym Mhrifysgolion Lerpwl a Dulyn, a theithiodd i nifer helaeth o wledydd yn darlithio ar y Gymraeg ac ar Astudiaethau Celtaidd. Dringodd yn gyflym ac yn llwyddiannus o fewn y

byd academiaidd a chyrraedd penllanw ei yrfa yn 1920 pan ddyrchafwyd ef yn Athro Adran Geltaidd Prifysgol Lerpwl. Roedd yn arloeswr yn hynny o beth am mai ef oedd y cyntaf ym Mhrydain yn ôl tystiolaeth ei briod i ddod yn Athro mewn sefydliad addysg uwch a hynny heb radd:

Glyn Davies oedd yr ysgolhaig cyntaf ym Mhrydain i gael ei urddo yn Athro heb raddio mewn athrofa, nac eistedd am un arholiad ... [Roedd]

Glyn Davies wedi casglu ei wybodaeth eang ei hun – gwybodaeth uwchlaw arholiadau.⁴

Cafodd Lerpwl ddylanwad ar J. Glyn Davies y tu hwnt i faes addysg a galwedigaeth, wrth gwrs. Yn 1884 ac yntau'n fachgen pedair ar ddeg mlwydd oed, cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Lerpwl. Y pryd hwnnw y gwelodd ogoniant a bwrlwm y Brifwyl am y tro cyntaf ac fe'i hudwyd gan yr archdderwydd Clwydfardd a beirdd y mesurau caeth. Yn ystod ei ugeiniau cynnar, daeth J. Glyn Davies o dan ddylanwad Isaac Foulkes, gŵr diwylliedig ac enwog am ei ddiddordeb byw mewn llenyddiaeth Gymraeg. Dangosodd J. Glyn ddiddordeb mewn llenyddiaeth Gymraeg ac mewn cerddoriaeth yn gynnar yn ei oes ac mae'n debyg taw llyfr Idris Fychan, *Hanes ac Henafiaeth Canu Gyda'r Tannau* a daniodd ei frwdfrydedd yn y mesurau caeth, ynghyd â'r hen alawon Cymreig.

Canai'r delyn, y piano, a'r ffidil pan oedd yn ifanc. 'Yr oedd cerddoriaeth yng ngwaed Glyn Davies, ac yn ei ddwylo,' meddai ei wraig⁵ a cheir tystiolaeth i Mary Davies, y gantores enwog, ddarganfod fod ganddo allu cerddorol uwchlaw'r cyffredin. Prynwyd y delyn am £15 mewn arwerthiant yn Lerpwl ar droad yr ugeinfed ganrif gan John Davies, tad Glyn. Cafodd Glyn Davies oriau o fwynhad yn chwarae ceinciau traddodiadol ar y delyn, yn arbennig wrth rannu'i ddiddordeb gydag Edward Wood a thelynorion a datgeiniaid cerdd dant adnabyddus y dydd.

Enynnwyd diddordeb J. Glyn Davies yn nhraddodiadau cerddorol Cymru o dri chyfeiriad penodol, sef o lyfr Idris Fychan, *Hanes ac Henafiaeth Canu Gyda'r Tannau*, o gydoesi a dilyn Edward Wood, ac o gyffro cerddorol Cymru a Lerpwl yn ystod ei oes. Gellir tybio mai yn y cyfnod 1885–1890 y daeth J. Glyn i'r maes; dywedodd mewn llythyr ym mis Awst 1922:

National characteristics in music depends on a thousand flukes. I started as a violinist, reading great music. I had to drop it. Then under stress of nationalistic fervor I took up the harp, and went in for Welsh

music holus bolus, tramped round after harpists and penillion singers, and dived into low pubs on the off chance of bagging a new tune. This was 30 years ago.⁶

Cyfrannodd J. Glyn Davies i fyd cerdd dant er nad oedd yn ddatgeinydd nac yn osodwr. Yn hytrach, edrychodd ar y grefft o safbwynt un a werthfawrogi'r traddodiad yn llawn a lluniodd erthyglau ac ysgrifau ar hanes y grefft. Bu'n olrhain twf a datblygiad canu gyda'r tannau o ddeunydd llawysgrif Lewis Morris yn 1738 a mynegodd ei farn ar hanes y grefft ar hyd ei thaith. Tybir mai'r ysgrif olaf a luniodd yw darlith Gŵyl Ddewi ym Methesda, yn 1953. Serch hynny, llwyddodd J. Glyn Davies i gyfrannu'n ymarferol, a hynny drwy gyflwyno canu cerdd dant i un o'r eisteddfodau colegol: 'Myfi oedd y cyntaf i ddwyn canu gan dant i eisteddfod colegol yn Aberystwyth', meddai.⁷ Cymerir yn ganiataol mai yn ystod ei gyfnod yn gweithio yn Llyfrgell Aberystwyth (1899–1907) yr oedd hyn.

Roedd y cyfnod hwn hefyd yn gyfnod cyhoeddi llyfrau ar gerdd dant, ar ganu'r delyn ac ar alawon gwerin yng Nghymru, yn ogystal â chyfnod pryd y gwelwyd cymeriadau amlwg yn hybu cerddoriaeth y genedl. Daw enwau a chyhoeddiadau cyfarwydd i'r cof, megis John Parry (Bardd Alaw) a *The Welsh Harper*, Owain Alaw a'i *Gems of Welsh Melody*, John Thomas (Pencerdd Gwalia) a'i *Welsh Melodies*, a Nicholas Bennett *Alawon fy Ngwlad*. Gwelodd J. Glyn Davies hefyd ffurfio'r gymdeithas hon, Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, yn 1906, a Chymdeithas Cerdd Dant Cymru yn ddiweddarach yn 1936 – cymdeithasau a ddatblygodd yn dilyn y cynnwrf hwn mewn cerddoriaeth draddodiadol, ac a dyfodd o gymdeithasau'r ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg megis y Cymmrodorion, y Cymreigyddion, y Gwyneddigion a'r Canorion.

Yn ogystal â'r cynnwrf yng Nghymru, roedd Lerpwl yn nyddiau J. Glyn Davies yn ganolfan ddiwylliannol bwysig. Tafarn 'The Welsh Harp', Union Street, Lerpwl oedd cyrchfan selogion y traddodiad cerddorol Gymreig:

Yn 1893 daethum i wybod am y lle cyn rhyfeddaf yn Lerpwl am glywed cerddoriaeth wirioneddol Gymraeg, y gwesty yn Union Street, o fewn ychydig latheni [*sic*] i'r dociau ... Y tebyg yw mai Mr. W. D. Owen a gafodd hyd i'r lle, a mynd a fi yno.⁸

Y noson gyntaf honno clywodd Eos Llyfnwy yn canu i gyfeiliant telyn. Canolfannau Cymreig eraill yn y ddinas oedd tafarndai'r 'Cymro Gwyllt' a'r

'Cymro Dof'. Roedd nifer o Almaenwyr Lerpwl, o dan ddylanwad Kuno Meyer, a J. Glyn Davies yn y 'Cymro Gwyllt' yn gyson ac yn hoff o wrando ar donau John Parry ar y delyn. Ceir tystiolaeth hefyd fod yna delynor yn y 'Cymro Dof' – 'yr oedd hwnw [*sic*] yn delynor da ac yn ymddwyn yn barchus'.⁹ Un arall a gafodd ddylanwad ar J. Glyn Davies oedd Dr John Sampson, Llyfrgellydd Prifysgol Lerpwl a phrif ffynhonnell gwybodaeth am y Sipsiwn Cymreig. Fel awdurdod ar eu cerddoriaeth, teithiai Sampson o amgylch y wlad er mwyn ymgyfarwyddo â thraddodiadau'r Sipsiwn. Manteisiodd J. Glyn Davies ar y cyfle o bryd i'w gilydd a mynd gydag ef ar rai o'r teithiau hynny. Credai Sampson yn gryf mewn ymgyfaddasu'n llwyr i ddiwylliant a thraddodiadau'r Sipsiwn pan oedd yn eu cwmni, ond nid oedd J. Glyn Davies yr un mor barod i ymuno yn eu hwyl. Gresynai weld John Sampson, a Dafydd a Llywelyn Wood yn feddw yn crwydro strydoedd Pwllheli, a thebyg oedd ei ymateb wrth glywed Llywelyn Wood yn canu telyn bedal heb bedalau, 'I remember Llywelyn's atrocious strumming on a pedal harp without pedals. Sampson did not mind it, I did.'¹⁰

Plentyn ei gyfnod oedd J. Glyn Davies. Ymddiddorodd yng ngherddoriaeth draddodiadol ei flynyddoedd cynnar, sef yr hyn a glywodd gan Idris Fychan ac Edward Wood ac yn y 'Welsh Harp' yn ystod ei ardegau a'i ugeiniau. Dylid cofio nad chwilota mewn llyfrgell yn unig a wnaeth J. Glyn Davies, ond mynd allan hefyd i gywain deunydd yng Nghymru, ac efallai'n bwysicach fyth, ymhlith ei gyd-Gymry ar lannau Mersi.

Pen Llŷn

Heulwen ar hyd y glennydd – a haul hwyr

A'i liw ar y mynydd;

Felly Lleyn ar derfyn dydd, –

Lle i enaid gael llonydd.

Dyma englyn J. Glyn Davies i'r fro a'i swynodd yn fwy na'r un fro arall. Pen Llŷn oedd un o'r dylanwadau pwysicaf ar Glyn a'i waith; Pen Llŷn oedd sail ei Gymreictod a sail i nifer o'i ganeuon a'i farddoniaeth: 'When my brothers and I were sent to Morfa Nefyn for the summer holidays in 1885, it saved our Welsh.'¹¹ Roedd gan J. Glyn Davies gysylltiad teuluol â'r ardal – un o Edern oedd ei fam-gu, ac âi hefyd ar ei wyliau at Richard Roberts y Felin, Edern, bardd ac ysgolhaig, a gŵr diwylliedig a ddylanwadodd yn fawr

arno'n blentyn ifanc.

Ym marn D. Ben Rees, roedd cael dianc i Llŷn yn gyfle i ddianc oddi wrth barchusrwydd Fictorianaid ei rieni:

Roedd yna un ddihangfa gyson i J. Glyn a'i frodyr – hwylio ar y stemar 'Rebecca' o Lerpwl i Ben Llŷn am wyliau'r haf, cyn teithio'r byd wedyn yn nychymyg ei gerddi.¹²

Dihangai yno hefyd o gaethiwed a chlawstroffobia'r swyddfeydd. Dywedodd J. O. Williams amdano: 'I Glyn Davies, carchar oedd offis – nefoedd oedd cael dianc i Llyn ar ei wyliau.'¹³ Yn sicr, roedd gweithgarwch y môr yn atyniad i Llŷn. Diffinnir Llŷn i raddau helaeth gan y môr ac roedd cymaint o fechgyn a gwŷr yr ardal yn gysylltiedig â'r diwydiant hwnnw.

Yn Llŷn y clywodd J. Glyn Davies ei sianti gyntaf, ym Morfa Nefyn yn 1885. Alaw'r sianti honno, 'Oh, poor old man, his horse will die', a roddodd fod i'w gerdd 'Môr Tir' yn *Cerddi Huw Puw*. Roedd dylanwad Llŷn mor drwm arno fel y galwodd un o'i gyfrolau yn *Cerddi Portinllaen*, sef pentref bychan unigryw ar yr arfordir. Yn 1935 dywedodd J. Glyn Davies:

The name Portinllaen conveys very little now, even in North Wales. A small cluster of houses tucked in the elbow of the bay towards its point is all that remains of a port that once was very nearly adopted instead of Holyhead as the regular mail-route for Dublin.¹⁴

Hawdd yw credu mai ei harddwch, ei brysurddeb morwrol a'i Gymreictod naturiol a ddenodd J. Glyn Davies i Ben Llŷn. Cadwodd ei gysylltiad â'r ardal a'i gariad at y fro ar hyd ei oes.

Teulu

Rydym ni fel Cymry yn hoff o wybod am ein hachau a'n hynafiaid, ac mae gwreiddiau a chysylltiadau teuluol J. Glyn Davies yn eithriadol bwysig i'w hanes. Roedd ei dad, John Davies, yn fab i David Davies, marsiandwr te llwyddiannus yn ei ddydd a aeth yn alltud o Lanilar i Lerpwl. Roedd ei fam, Gwen, fel y crybwyllwyd eisoes, yn ferch i'r enwog Barchedig John Jones, Tal-y-sarn (1796–1857). Roedd dylanwad y fam yn gref ar ei mab, ond wrth iddo aeddfedu teimlir bod J. Glyn Davies yn ceisio ymryddhau o snobyddiaeth ei rieni – snobyddiaeth sy'n ymddangos yn Seisnig iawn er gwaethaf cadernid Cymreig John Jones, Tal-y-sarn. Ceisiodd Gwen Davies fagu'r plant yn yr un math o hinsawdd Gristnogol ag y magwyd hithau

ynddi, ond ni etifeddodd J. Glyn Davies weledigaeth ei fam a'i dad-cu, yn wahanol iawn i'w frawd, George Maitland Lloyd Davies. Meddai George M. Ll. Davies mewn llythyr yn 1919:

Yn fore ym [*sic*] dysgwyd megis i ddiolch i Dduw nad oeddwn fel eraill yn Eglwyswr, na Thori, na Sais nac un creadur arall ond yn Fethodist o hil gerdd yn ddiargyhoedd yn [*sic*] ngwyneb gofynion fy nghyfundeb.¹⁵

Cyn sôn am frodyr J. Glyn, y mae ei hen-hen-hen fam-gu, Angharad James o Gwm Pen Amnen, Dolwyddelan yn haeddu sylw hefyd. Teimlir bod J. Glyn Davies yn ymgorfforiad o'r Gymraes nodedig hon, a gwelir ei fod wedi etifeddu'i doniau. Dywedir ei bod yn wraig ddiwylliedig, yn ddawnus mewn barddoniaeth a cherddoriaeth, yn cyfansoddi ac yn canu'r delyn. Peth anarferol yw clywed am ferch o'r cyfnod hwnnw, sef troad y ddeunawfed ganrif, yn dod i amlygrwydd cyhoeddus. Ac ym marn Cledwyn Jones:

Teimlaf bod J. Glyn Davies wedi etifeddu nid yn unig ddeallusrwydd cynhenid ei dad ond yn sicr y deallusrwydd arbennig a dderbyniasai gan ei fam, ac a âi yn ôl genedlaethau i Angharad James.¹⁶

Olrheiniodd J. Glyn Davies ei achau ymhellach yn ôl nag Angharad James hyd nes cyrraedd Hedd Molwynog (1170–1195), ac y mae'r goeden deuluol arbennig honno (ymysg eraill) i'w gweld ymhlith llawysgrifau J. Glyn, yng nghofiant ei wraig, Hettie Glyn Davies, ac yng nghyfrwl Cledwyn Jones, *Mi Wisga'i Gap Pig Gloyw*.

J. Glyn Davies oedd yr hynaf o bedwar o feibion – Glyn, Frank y llongwr, Stanley a aeth yn fargyfreithiwr, a George yr heddychwyr cadarn. Yn ôl tystiolaeth Hettie roedd perthynas y pedwar yn glôs a hynod frawdol. Bu llythyru cyson rhyngddynt, yn arbennig rhwng George a Glyn, a mawr yw dyled Glyn fel cyfansoddwr i Frank am gyflwyno iddo sawl alaw sianti a genid ar y môr. Priodwyd Glyn a Hettie Williams, gwraig o Lanarth ger Aberaeron, ar 18 Gorffennaf 1908, yng nghapel yr Annibynwyr, yr Eignbrook, yn Henffordd. Bu'r ddau yn byw mewn sawl ardal wedi hynny – Hoylake, Mostyn, Dinbych, Caergrawnt, Llandegfan, Llanarth a Llanfairfechan. Ganed iddynt bedwar plentyn – Gwen, Mair, Elin a Gwion, ac anfarwolwyd enwau'r merched yng nghân eu tad :

Gwen a Mair ac Elin,

Yn bwyta lot o bwddin,

A Benja bach yn mynd o'i go
A chrio'n anghyffredin.

Y plant, yn anad neb, a ysgogodd J. Glyn Davies i gyfansoddi caneuon. Teimlodd fod gagendor mawr ym myd caneuon plant ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, yn enwedig yn y Gymraeg. Nid oedd Glyn am i'w blant, er eu bod wedi'u magu yn Lerpwl, gael eu hamddifadu o'r Gymraeg ac o'u gwreiddiau Cymreig, fel y dywed ei ferch Gwen:

He wrote songs for us during our early childhood and about 1918 or so, he started the 'Huw Puw sea songs' and shanties. We co-operated with him; he taught us the words, and we learned to play his accompaniments on the piano and even read his proofs for him later on.¹⁷

Dywed ei fab, Gwion Davies, fod ei fam-gu, Gwen Davies, y wraig ddiwylliedig, urddasol, a merch John Jones, Tal-y-sarn, wedi bod yn symbyliad hefyd: 'Mi roedd fy nain, Gwen Davies, wrth ei bodd yn clywed y plant yn canu. Dyna pam ddaru 'nhad ddechrau cyfansoddi'r Cerddi – er mwyn inni eu canu i nain.'¹⁸ Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif roedd prinder caneuon addas i blant. Cân Saesneg ddigon di-nod oedd y gân gyntaf i Gwion Davies gofio'i chlywed a'i chanu, sef rhywbeth yn debyg i hyn:

Oh, Flo, why do you go, why do you go in a motor car?
People will think you're peculiar, singular, so you are.

Yr oedd hyd yn oed mwy o brinder caneuon a llenyddiaeth addas i blant yn yr iaith Gymraeg. Yn gynnar yn eu hoes canwyd caneuon eu tad i'r plant fel arbrawf, ac yn ôl J. Glyn Davies dyma beth yr oeddynt yn crefu amdano:

This collection of songs began some years ago, as experiments on my own children. There was practically no literature for them in Welsh, prose or poetry ... It was easier to give them what they wanted.¹⁹

Roedd y cyfrolau hefyd yn fodd o bontio rhwng ei deulu uchel-ael yn Lerpwl a'r werin yng Nghymru. Roeddynt yn ogystal yn symbol o'i wreiddiau Cymraeg – y gwreiddiau hynny oedd yn hŷn ac yn ddyfnach na'i rieni balch. Gobeithiai ef y medrai'r werin bobl – y chwarelwr, y gwas fferm a'r llongwr – fedru uniaethu â hwy:

Yr wyf yn sylweddoli mor bell yr oedd fy nheulu, ochr fy nhad ac ochr fy mam, wedi cilio o gymdeithas y chwarelwr ar [*sic*] gwas ffarm ar llongwr. Teuluoedd arianog, au [*sic*] meirch au cerbydau ... Yr oedd

holl firi rhwng teulu a theulu – wedyn chwa o wynt, a distawrwydd ...
Ar [*sic*] unig beth sydd yn aros ou [*sic*] holl ogoniant ydyw 'Fflat Huw
Puw'.²⁰

Teimlir bod J. Glyn Davies, er ei fod yntau ar adegau yn adleisio boneddigeiddrwydd ei rieni, wedi ceisio gwrthryfela yn erbyn snobyddiaeth ei deulu ar hyd ei oes.

Y Caneuon

Wedi edrych ar ddylanwad Lerpwl, Pen Llŷn a Theulu, dyma ddod at gynnyrch J. Glyn Davies, ac yn benodol at y tair cyfrol o ganeuon, *Cerddi Huw Puw* (1923), *Cerddi Robin Goch* (1934), a *Cerddi Portinllaen* (1936). Ailgyhoeddwyd y tri chasgliad gan Wasg Gomer yn 1992 mewn un gyfrol, *Fflat Huw Puw a Cherddi Eraill*.

O edrych ar y geiriau, ar wahân i chwech o ganeuon, J. Glyn Davies yw awdur geiriau pob un o'r 65 cân a geir yn ei dair cyfrol. Ymdrinnir â dwy brif thema yn y caneuon hynny sef y môr a byd natur. Ond tynnodd J. Glyn Davies ar sawl ffynhonnell ar gyfer alawon ei gerddi. Mae ei gân enwocaf, 'Fflat Huw Puw', yn addasiad o un o alawon John Parry 'Bardd Alaw', sef 'Dydd Cyntaf o Awst' o'r gyfrol *The Welsh Harper*. Ceir sylwadau yn rhagarweiniad *Cerddi Huw Puw* am y benthyciad hwn: 'I have altered Parry's score slightly regretfully sacrificing some lively top notes, which do better for a fiddle than for a sing-sing with sea words.'²¹ Dyma, mewn gwirionedd yw sail nifer o'i ganeuon, sef newid alaw barod er mwyn ateb gofynion ei gynulleidfa ifanc. Defnyddiodd ddwy alaw arall o *The Welsh Harper*, sef 'Dyfyrrch Ieuan Delynor Dall' ac 'Wyres Megan', a'u haddasu ar gyfer ei ganeuon, 'Tywydd Mawr' a 'Llanast'. Benthycwyd alaw draddodiadol arall, 'Pant Corlan yr Ŵyn', ar gyfer 'Y Meddyg Gwych', ond y tro hwn ceir fersiwn y telynor Matthew Wood, trefniant a glywyd gan J. Glyn Davies.

Nid alawon Cymreig yn unig a ddyfynnodd, ond pwysodd yn drwm hefyd ar gasgliadau Saesneg eu hiaith, yn arbennig cyfrolau o ganeuon sianti a chaneuon môr. Llyfr a fu'n ffynhonnell bwysig iddo oedd *Popular Music of the Olden Time: a collection of ancient songs, ballads and dances* o waith William Chappell. Daw alawon saith o ganeuon J. Glyn Davies o'r gyfrol hon, ond eto i gyd ni chadwodd yr alawon hynny yn union yr un peth. Yn

hytrach, fe'u haddasodd er mwyn i'w eiriau ddisgyn yn fwy naturiol ar yr alawon, ac yn aml, fe'u symleiddiodd er mwyn lleisiau plant.

Casglodd nifer o alawon o'r traddodiad llafar, yn enwedig caneuon môr a sianti. O dro i dro cymharodd J. Glyn Davies ei fersiwn ef neu'r hyn a gafodd gan ei frawd, Frank, gyda'r rhai cyhoeddedig a'r rheini mewn cyfrol fel *Sea Songs and Shanties* gan Captain Whall. Deillia rhai o alawon y cerddi o'i brofiadau yn teithio'n helaeth. Mae alawon traddodiadol o Ddenmarc yn niferus a cheir enghraifft o alawon o Norwy, Sweden, yr Almaen, Samoa, a San Francisco. Roedd gan J. Glyn Davies gryn allu i addasu'r alawon estron hyn ar gyfer ei eiriau a'i ddibenion ei hun.

Yr oedd ymwneud J. Glyn Davies â phlant yn hysbys iawn a bu sawl cais am gyngor a chydweithrediad er budd y to ifanc yng Nghymru. Chwaraeodd ran allweddol yn y gwaith o gyhoeddi *Llyfr Mawr y Plant*, campwaith J. O. Williams a Jennie Thomas, y ddau o Fethesda. Sut, felly, y cyfrannodd J. Glyn Davies at *Llyfr Mawr y Plant*? Awgryma John Llywelyn Williams, mab J. O. Williams, mai trwy brofiad J. Glyn Davies o deithio mewn gwledydd tramor y deilliodd y llyfr a hynny am fod dylanwad cyfrol i blant o Sweden ar y cynnyrch. Dywedodd drachefn:

yr oedd hen law yn llywio ac yn cynghori yn y cefndir. Dewin ydoedd yntau hefyd, neb llai na J. Glyn Davies. Iddo ef y telir y deyrnged uchaf yn y Rhagymadrodd a chyflwynwyd *Llyfr Mawr y Plant* Rhif 3 iddo yn 1948.²²

Un gerdd yn unig a osodwyd i gerddoriaeth ym mhedair cyfrol *Llyfr Mawr y Plant* sef 'Gwlad y Cnau', a hynny o waith J. Glyn Davies. Y mae'n syndod efallai cyn lleied o gerddoriaeth a gynhwyswyd yn y cyfrolau, yn enwedig o ystyried dawn a llwyddiant J. Glyn Davies fel cyfansoddwr i blant a'i ddidordeb yn y cyfrolau.

O ystyried holl weithgarwch J. Glyn Davies ei orchest fawr ef oedd diwallu anghenion plant Cymru ei gyfnod. Ymostyngodd i'w lefel hwy a hynny er mwyn denu eu sylw a chynnal eu diddordeb: 'They know better than either songwriter or teacher what is not good for them.'²³ Mae ysgol gynradd Bethesda, Ysgol Cefnfaes, yn chwarae rhan bwysig yng nghyfansoddiadau J. Glyn Davies. Roedd Jennie Thomas, un o'i gyn-fyfyrwyr ym Mhrifysgol Lerpwl, yn athrawes yn yr ysgol o fis Hydref 1921 hyd Fehefin 1924. Ar yr un pryd, J. J. Williams oedd y Prifathro, myfyriwr arall a fu o dan ofal J.

Glyn Davies, a datblygodd traddodiad cerddorol cryf yn yr ysgol yn ystod eu cyfnod hwy. Rhaid fod y llwyddiant yn Ysgol Cefnfaes wedi cyflymu'r broses o ddwyn y caneuon i sylw cenedlaethol ac efallai fod y sicrwydd o gylchrediad eang ar gyfer y cyfrolau yn ffactor a'i denodd i fyd cyhoeddi cerddoriaeth yng ngoleuni prinder affwysol y dydd. Yn ddiamau, ni ellir gwadu nad oedd gan J. Glyn Davies gydwbybod dyner tuag at anghenion plant a phobl ifanc Cymru'r cyfnod a hyn, yn anad dim arall, fu'n sail ac yn ysbrydoliaeth iddo drwy gydol ei oes.

Lledodd poblogrwydd ei waith ymhlith plant yn gyflym iawn, a hynny'n enwedig yn yr ysgolion cynradd. Yn 1935, blwyddyn yn unig wedi cyhoeddi *Cerddi Robin Goch*, anfonodd athrawes yn Ysgol Ciliau Parc yn nyffryn Aeron lythyr at J. Glyn yn diolch am y gyfrol ac am ei lafur. Yn y man clywyd ei ganeuon ar lwyfan eisteddfod a chyngerdd a pharhaodd y traddodiad hwnnw trwy gydol yr ugeinfed ganrif. Erbyn heddiw, clywir ei ganeuon yn gyson ar lwyfan eisteddfodau plwyfol a chenedlaethol a hynny fel darnau prawf i unawdwyr a phartïon.

Daeth caneuon J. Glyn Davies hefyd yn gyfarwydd ar aelwydydd Cymreig. Nid oedd y cyfeiliannau yn rhy anodd ac roedd y caneuon sianti yn hwylus i'w cynganeddu'n lleisiol. Gwelwyd elfen werinol yn y caneuon hyn a lledodd y cynnyrch yn eu tro i'r dafarn. Tua chanol chwedegau'r ugeinfed ganrif roedd ymgyrch ar droed gan Gruffudd Miles o'r grŵp poblogaidd Y Dyniadon Ynfyd Hirfelyn Tesog i geisio disodli emynau mewn tafarndai a dwyn caneuon gwerin i'w lle. Ac yn ôl pob tebyg roedd rhai o ganeuon J. Glyn Davies yn amlwg ymhlith y rhain.

A dyma ddod at gwestiwn tyngedfennol y ddarlith hon: ai caneuon gwerin felly yw caneuon J. Glyn Davies? Yn ei hanfod, cân gan gyfansoddwr anhysbys a drosglwyddwyd ar lafar o'r naill genhedlaeth i'r llall yw cân werin. Yng ngoleuni hynny, nid yw caneuon J. Glyn yn rhan o'r traddodiad hwnnw. Serch hynny, fe'u hystyrir yn aml fel caneuon gwerin a hynny oherwydd yr alawon cofiadwy a'r geiriau syml a berthyn iddynt – geiriau sy'n cyfeirio at y môr ac at fyd natur a blas y pridd arnynt. Dywed Dafydd Iwan, un sydd wedi canu sawl cân o'i waith:

Caneuon gwerin yw caneuon J. Glyn Davies heb os, gyda'r traddodiad o ganu morwyr yn rhedeg yn gryf drwy'r cyfan. Mae'n llwyddo i ail-greu yn ei ganeuon oes aur y llongau, a'r traddodiad oedd mor gryf ar arfordir gorllewinol Cymru.²⁴

Yr un yw neges Geraint Gruffydd:

Dros y blynyddoedd daeth caneuon J. Glyn Davies mor boblogaidd a chyfarwydd nes i'r rhelyw ohonom gredu'n bendant mai alawon gwerin traddodiadol oedden nhw. Gellir ystyried hynny yn fesur reit bendant o'i lwyddiant.²⁵

Yn hyn o beth, fe brofir fod ei ganeuon bellach wedi'u mabwysiadu i'r traddodiad canu gwerin Cymreig. Ymhen amser, mae'n dra thebygol na fydd enw J. Glyn Davies yn cael ei gysylltu â'i gynnyrch a'r pryd hwnnw rhagwelir mai caneuon y traddodiad llafar fydd y rhain. Mi fyddant wedyn yn syrthio i drefn y traddodiad hwnnw ac yn goddef newidiadau fel pob cân werin arall.

Nid apelio at blant yn unig a wnaeth J. Glyn Davies trwy gyfrwng ei ganeuon. Mae ei gynnyrch yn cyrraedd cynulleidfa ehangach ac yn cael sylw gan gantorion a cherddorion poblogaidd yng Nghymru erbyn hyn. 'Llongau Caernarfon' yw un o'r caneuon a recordiwyd amlaf gan gwmni recordio Sain, a gwelir bod trawstoriad eang o berfformwyr wedi'i recordio – yn eu plith fe welir Y Gasgen, Sobin a'r Smaeliad, Hogia'r Wyddfa, Leah Owen, Ar Log, Hogia'r Ddwyllan, yn ogystal ag Annette Bryn Parri ar y piano a Neil Browning ar yr acordion.

Yn nyddiau J. Glyn Davies roedd y caneuon hyn yn torri tir newydd. Yn 1953, mynegodd Cassie Davies ar ran Pwyllgor Alawon Gwerin y Rhondda: 'mewn ardaloedd Seisnig fel y rhain gallant fod yn gyfrwng i estyn einioes yr iaith. Mawr yw dyled Cymru i chwi am ganeuon mor hyfryd a chanadwy.'²⁶ Ers cyhoeddi'r cyfrolau hyn o'i waith, ni cheir nemor ddim tystiolaeth i brofi bod ei alawon wedi dylanwadu ar unrhyw gân arall. Ond y maent yn ddi-os wedi profi i feirdd a cherddorion pa fath o themâu sy'n apelio at blant, yr iaith y gellid ei defnyddio a'r math o alawon a chyfeiliant sy'n dderbyniol. Ni ellir anwybyddu'r ffaith mai ei themâu ef a geir yn ymron pob casgliad o gerddi a barddoniaeth i blant, hyd yn oed ar droad yr unfed ganrif ar hugain.

Beth sydd mor arbennig ynglŷn â'i gerddi? Mae diffuantrwydd a gwirionedd yn cael eu mynegi yn y caneuon hyn, ac yn aml mae'r profiadau personol sydd ynddynt yn ennyn dealltwriaeth dyn. Teimlai George, un o'i frodyr, fodd bynnag yn amheus y byddai'r rhai na phrofodd yr hyn a wnaethon nhw yn gallu gwerthfawrogi'r cynnyrch:

I've just been through the *Cerddi Portinllaen*. They have got that magical touch like that of the 'hogla eithin' in 'Cerdd y Genweiriwr' and they give one a pain in the tummy all right. But can others who don't know the background that we remember get the smell of them?²⁷

Gwyddai J. Glyn Davies serch hynny pa mor boblogaidd oedd ei ganeuon ac nid ymatalai rhag dangos ei lwyddiant i rai fel Svende Aakjaer, mab y bardd Jeppe Aakjaer o Ddenmarc:

And I am like no one in Wales. I wrote children songs and songs of ships and they swept the country. I told a radio producer – you consult popular taste. I don't. I make popular taste.²⁸

Er gwaethaf ei fri ym maes ysgolheictod, ei weithiau creadigol – ei ganeuon a'i farddoniaeth – sy'n cadw enw J. Glyn Davies ar lafar gwlad. Gadawodd waddol gyfoethog i blant o bob oed yng Nghymru. Y mae ei ganeuon wedi ennyn sylw a chwilyfrydedd dros gyfnod o bedwar ugain o flynyddoedd. Ac mae'n gwbl addas cloi gyda geiriau Cledwyn Jones yn ei gyfrol *Mi Wisga'i Gap Pig Gloyw*, brawddeg fer sy'n cymhwyso camp a chyfraniad mawr J. Glyn Davies: 'Yn anad dim, bardd ydoedd, gyda dawn gerddorol, ond yn bennaf un, cyfaill plant.'²⁹

NODIADAU

- 1 Hettie Glyn Davies, *Hanes Bywyd John Glyn Davies* (Lerpwl, 1965), t. 11.
- 2 *Mae 'Nghartre i yng Nghymru Bell*, recordiad fideo o'r rhaglen deledu a ddarlledwyd ar S4C, 9 Chwefror 1986.
- 3 Llythyr oddi wrth Gwen Koblenz at Cledwyn Jones, dyddiedig 17 Medi 1999; dyfynnir yng nghyrol Cledwyn Jones, *Mi Wisga' i Gap Pig Gloyw* (Caernarfon, 2003), t. 204.
- 4 Hettie Glyn Davies, op.cit. t. 51.
- 5 Ibid. t. 53.
- 6 Llsg. LIGC, Casgliad J. Glyn Davies, 14978: Llythyr oddi wrth J. Glyn Davies at Charles McLean, dyddiedig Awst 1922.
- 7 Llsg. LIGC, Casgliad J. Glyn Davies, Ffeil 6: Darlith Dygwyl Dewi Bethesda, Mawrth 1953.
- 8 J. Glyn Davies, 'Edward Wood a'r Dadgeiniaid', *Lleufer*, VIII Rhif 2, Haf (Dinbych, 1952), t. 60.
- 9 Ibid. tt. 61–2.
- 10 Llsg. LIGC, Casgliad J. Glyn Davies, Ffeil 6: Darlith Dygwyl Dewi Bethesda, Mawrth 1953.

- 11 Llsg. LIGC, Casgliad J. Glyn Davies, Ffeil 2: Nationalism as a Social Phenomenon (Three lectures delivered at the International School Helsingar, 16–18 July 1930).
- 12 *Mae 'Nghartre i yng Nghymru Bell*, recordiad fideo o'r rhaglen deledu a ddarlledwyd ar S4C, 9 Chwefror 1986.
- 13 J. Glyn Davies, *Cerddi Eder*n (Lerpwl, 1955), clawr.
- 14 J. Glyn Davies, *Fflat Huw Puw a Cherddi Eraill* (Llandysul, 1992), t. 119.
- 15 Llsg. LIGC, Casgliad J. Glyn Davies, 3205: Llythyr oddi wrth George M. Ll. Davies at Lywydd y Methodistiaid Calfinaidd, dyddiedig 12 Mawrth 1919.
- 16 Cledwyn Jones, 'John Glyn Davies a gofiodd y plant', *Y Casglwr* (1992), t. 10.
- 17 Llythyr oddi wrth Gwen Koblenz at Wyn Thomas, Adran Gerdd, Prifysgol Cymru Bangor, dyddiedig 28 Gorffennaf 1999.
- 18 Llythyr oddi wrth Gwion Davies at Delyth Morgans, dyddiedig 7 Tachwedd 1999.
- 19 John Glyn Davies, *Fflat Huw Puw a Cherddi Eraill* (Llandysul, 1992), t. 13.
- 20 Llsg. LIGC, Casgliad J. Glyn Davies, 15834: Llythyr oddi wrth J. Glyn Davies at J. O. Williams, dyddiedig 28 Rhagfyr 1945.
- 21 J. Glyn Davies, *Fflat Huw Puw a Cherddi Eraill* (Llandysul, 1992), t. 25.
- 22 John Llywelyn Williams, 'Daear Sion Blewyn Coch', *Taliesin*, 72, Gaeaf 1990–1, tt. 33–4.
- 23 J. Glyn Davies, *Fflat Huw Puw a Cherddi Eraill* (Llandysul, 1992), t. 13.
- 24 Llythyr oddi wrth Dafydd Iwan at Delyth Morgans, dyddiedig 20 Medi 1999.
- 25 *Mae 'Nghartre i yng Nghymru Bell*, recordiad fideo o'r rhaglen deledu a ddarlledwyd ar S4C, 9 Chwefror 1986.
- 26 Llsg. LIGC, Casgliad J. Glyn Davies, 16476: Llythyr oddi wrth Cassie Davies, Rhondda at J. Glyn Davies, dyddiedig 1 Mai 1953.
- 27 Llsg. LIGC, Casgliad J. Glyn Davies, 3051: Llythyr oddi wrth George Maitland Lloyd Davies at J. Glyn Davies, dyddiedig 1936.
- 28 Llsg. LIGC, Casgliad J. Glyn Davies, 16076: Llythyr oddi wrth J. Glyn Davies at Svende Aakjaer, dyddiedig 8 Ebrill 1952.
- 29 Cledwyn Jones, *Mi Wisga' i Gap Pig Gloyw* (Caernarfon, 2003), t. 211.

PEDAIR CÂN O GASGLIAD (1911)

JENNIE WILLIAMS

D. Roy Saer

Bu casgliad Miss Jennie Williams o ganeuon gwerin siroedd Ceredigion, Penfro a Chaerfyrddin, a enillodd yr ail wobwr mewn cystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin, 1911, yn ffynhonnell dra ffrwythlon i Gylchgrawn y Gymdeithas hon, ac i sawl cyfrol o ganeuon gwerin Cymraeg yn sgil hynny. Diolch i ymchwiler manwl Wyn Thomas, Prifysgol Cymru, Bangor, y mae hanes Jennie Williams (Mrs Jennie Ruggles-Gates yn ddiweddarach) ynghyd â'i gwaith casglu yn awr wedi ei gyhoeddi.¹

Dr J. Lloyd Williams, Golygydd Cylchgrawn y Gymdeithas hon, oedd un o feirniaid y gystadleuaeth, a gwelodd ef yn dda gynnwys yng nghyfrlâu cynnar ein Cylchgrawn gynifer â deuddeg cân² o blith y deugain a ffurfiai'r casgliad. A beth am y gweddill? Wel, gwaetha'r modd, diflannu a wnaeth y casgliad gwreiddiol ryw bryd neu'i gilydd. Trwy lwc a bendith, serch hynny, fe luniodd Dr Lloyd Williams ei gofnod personol ohono, ac – er nad yw'n gofnod hollol gyflawn – y mae ei dystiolaeth werthfawr, mewn '*exercise-book*' tenau, yn ddiogel yn Amgueddfa Werin Cymru (fel Llawysgrif AWC 1316) er 1965, pryd y cyflwynwyd ef i ofal y sefydliad gan Mrs Ruggles-Gates ei hunan.

O'r llyfryn bach hwn y cafwyd y caneuon sy'n dilyn. Am y gyntaf ohonynt ('Y Cadnaw') y mae'n wir i Dr Lloyd Williams yntau ei gosod yn ein Cylchgrawn,³ eithr gan atgynhyrchu geiriau dim ond dau bennill allan o'r pump a gasglasai JW. At hyn y mae hefyd le, mi gredaf, i roi sylw pellach i nodweddion y gân, ynghyd â chyswllt posibl iddi, yn gerddorol. Ac am y tair cân arall a nodir isod – nas cyhoeddwyd gan Dr Lloyd Williams, a hynny am resymau y gellir eu dirnad – y mae eto bwyntiau sy'n werth eu codi.

* * * *

1. Y Cadnaw (Rhif 10)

1. Mae cad - naw yn Rhiw'r - erei - ny, Fel gwy - ddo pawb ei
fod, A phawb yn per - chen de - faid, Rhowch ar eu cefn - au
nod. Tra la la la la. Tra la la la la la.

1. Mae cadnaw yn Rhiw'rcreiny,
Fel gwyddo pawb ei fod,
A phawb yn perchen defaid,
Rhowch ar eu cefnau nod.
Tra la la ...
2. Fe ddygwyd gwyddau Cronllwyn,
Sy'n uchel ar y bryn,
A phadell bres Cilglynyn,
Mae'n eitha' gwir am hyn.
Tra la la ...
3. Fe ddygwyd gordd o'r chwarel,
A'i chynyg hi i'r gof,
Ond pallodd y gof ei chymryd,
Aeth y cadnaw maes o'i go.
Tra la la ...
4. Fe guddiodd honno wedyn
Mewn lle dirgel mawr dros ben,
Yn allt Cilshave Uchaf,
Gyferbyn a Dolwen.
Tra la la ...

5. Fe ddwgodd bar o sane
 O Rwssia ger Parkgwyn,
 A wyau o Ty'r Defaid,
 Do, lawer gwaith cyn hyn.
 Tra la la ...

(Atgynhyrchir yma union ddarlenniadau'r llawysgrif, heb unrhyw ddiwygio arnynt.)

Er mai yn Llundain y cafodd JW hon, deilliai'r gân oddi wrth J. D. Phillips, Treletert, sir Benfro. Yr wybodaeth a nododd JW gogyfer â'r gân oedd 'Cenid rhyw 50 ml. yn ol. Cyfeiria y gân at gyflwr truenus Sir Benfro – y bobl yn nodedig fel lladron'. Ardal Llanychâr, Cwm Gwaun, oedd lleoliad y troseddau, a gellir amcangyfrif mai tuag 1860 oedd y cyfnod o dan sylw. Ac y mae'r gân, wrth gwrs, yn enghraifft bellach o gynnyrch rhigymwr lleol (dienw!) yn gweithredu fel llais cydwybod – er hwyrach, gyda llaw, fod iddi yn wreiddiol ragor o benillion, gan gynnig diweddsglo mwy ceryddol a moesol.

Ac anwybyddu'r gynffon o fyrdwn disynnwyr, y mae'r alaw, i'm tyb i, yn gyfnither i eiddo cân arall – o ganol sir Aberteifi – a welir hefyd yng nghasgliad JW, sef 'Fe Drawodd yn Fy Meddwl'. Pellennig, rhaid cyfaddef, yw'r berthynas rhwng y ddwy – sydd, efallai, yn egluro pahan na chyfeiriodd Dr Lloyd Williams at unrhyw gyswllt yma (er iddo nodi 'Form and phrases in other tunes' wrth 'Fe Drawodd yn Fy Meddwl' yn ei lyfryn ysgrifennu). Perthnasol hefyd iddo ddyfynnu – yn ein Cylchgrawn – ddatganiad gan JW ei hunan, a nododd am alaw 'Y Cadnaw', 'The tune reminds me somewhat of a song current at one time in Cardiganshire, "Pan ês i garu gynta" '.

Tynnodd Dr Lloyd Williams sylw at donyddiaeth gymysg yr alaw hon, a gorfu iddo ei chyhoeddi yn y modd la, tra'r oedd 'Fe Drawodd yn Fy Meddwl' yn ateb y modd re. Ac o graffu'n fanylach ar alaw 'Y Cadnaw', unwaith yr anwybyddir ei byrdwn fe geir mai yn y modd re y mae hithau. Poenus, a dweud y lleiaf, yw rhediad y byrdwn hwn, sydd fel pe bai wedi palfalu – a hynny'n aflwyddiannus – am ddiweddsglo boddhaol. Y tebygolrwydd yw fod byrdwn 'Fe Drawodd yn Fy Meddwl', sy'n disgyn at y Tonydd islaw, yn cyfleu'r math o rediad a oedd yn gysail i'r naill a'r llall – ac, yn wir, gellid dadlau, ar dir hanesyddol ac esthetig fel ei gilydd, dros fabwysiadu patrwm 'Fe Drawodd yn Fy Meddwl' ar gyfer cloi cân 'Y Cadnaw'.

Fe Drawodd yn Fy Meddwl ⁴

Fe dra - wodd yn fy me - ddwl, A he - fyd yn fy serch, I
 fy - ned ar ryw nos - waith I lawr i ga - ru'r ferch.
 Ffal - di - ral lal - lal - la, Ffal - di - rei - ti rei - ta - la.

(Ceir hanner dwsin o benillion i hon yn llyfr ysgrifennu Dr Lloyd Williams, megis yn ein Cylchgrawn a chyfrolau *Caneuon Traddodiadol y Cymry* yn ddiweddarach, ond y mae lle i gredu bod cryn barchuso wedi digwydd – ai drwy law Jennie Williams? – ar gynnwys y rhain, o’u cymharu â’r rhai a welir yn *Caneuon Llafar Gwlad*, 2, Amgueddfa Werin Cymru, 1994 – sef penillion a ddaeth hefyd o ganol sir Aberteifi, a hyd yn oed oddi wrth ŵr a oedd o’r un teulu â chanwr JW.)

2. Cyfri’r Geifr (Rhif 3) ⁵

Oes ga - fr e - to? Oes, heb ei god - ro. Gafr ddu, ddu, ddu;
 Din - ddu, fon - ddu, fe - len gyn - ffon - ddu; Blaen ei chu - dyn a’i chyn - ffon ddu, ddu, ddu!_

Yr hyn a nododd JW am hon oedd ‘Canwyd gan R. H. Williams Aberystwyth Awst 1910 fel y’i cenir ym Mhonterwyd. Dysgwyd hi 40 ml. yn ol’. Disgrifir RHW gan Wyn Thomas fel ‘adeiladwr uchel ei barch o Aberystwyth ac aelod arall yng Nghapel y Tabernacl’.⁶

Gwelir yma fwy nag un peth sy’n teilyngu sylw. Yn ei ddarlith arloesol ‘The Pastoral Heritage of Welsh Folk Song’, a draddodwyd yn Ysgol Basg y Gymdeithas hon yn Abertawe ddiwedd Mawrth 1968, dadansoddodd yr

Athro Peter Crossley-Holland nodweddion ein fersiynau niferus ar y gân y daethpwyd i gyfeirio ati – yn gymwys neu’n gam – fel ‘Cyfri’r Geifr’. Ymysg y nodweddion a ddynodwyd ganddo yr oedd dwy a amlygir uchod, sef cwmrawd cyfyng yr alaw, a phresenoldeb, i ryw raddau, batrwm pendiliol ar ddau nodyn. Cyfeiriodd yn ogystal at yr elfen o ryddid rhythmig sy’n perthyn i ‘Cyfri’r Geifr’ mewn amryw o’i fersiynau, ac ychwanegodd fod y nodweddion a restrwyd ganddo i’w canfod yn helaeth mewn cerddoriaeth leisiol gyntefig o gefndir bugeiliol ac o wahanol rannau o’r byd.

3. Oes Gafr Eto? (Rhif 31)

Oes ga - fr e - to? Oes, heb ei chneif - io. Gaf - fr ddu fein - ddu,
Bi - li - gos fon - ddu, ga - fr ddu a chyn - ffon ddu!

Nodyn Jennie Williams: ‘T. Mathews Llandebie fel y’i cened yn yr ardal honno. Ar ol mynd trwy yr oll o’r penillion, gwaeddir gan yr oll o’r cantorion “Nagos”’.


Perthnasol yma eto yw dadansoddiad yr Athro Peter Crossley-Holland (gw. Cân 2 uchod), ond ceir trawsnewid dramatig ar ôl bar cyntaf rhan B pan fo’r alaw yn lledu ei hadenydd. (Anarferol, gyda llaw, yw’r disgyniad diweddol.)

Dau sylw ynglŷn â’r geiriau. (a) Cael ei ‘chneifio’ yw tynged yr afr y tro hwn, ac y mae amrywio rhwng ‘godro’ a ‘chneifio’ a ‘gafr’ a ‘dafad’ mewn gwahanol fersiynau ar y gân. Y mae’n werth, efallai, ychwanegu yma i’r Athro Crossley-Holland gyfeirio at hon fel ‘sheep-shearing song’, ac i Wyn Thomas yntau restru Caneuon 2 a 3 uchod fel dwy ‘Gân Waith’.⁷ (b) ‘Biligos fonddu’: llygriad, y mae’n debyg, ar ‘felen gynffonddu’ (trwy rywbeth fel ‘fele-gyffonddu’, a geir mewn fersiwn arall?), er o bosibl mai ‘foel gynffonddu’ oedd cysail yr holl amrywiadau hyn. (Cofier, wrth gwrs, fod y rhan hon o’r gân yn debyg o gael ei dirwyn yn chwimwth dros ben, a hyn yn gwahodd camganu a chamglywed ar brydiau.)

Cadarnheir gan ail frawddeg JW uchod fod i fersiwn Llandybïe nifer o

benillion, a hefyd fod amryw gantorion yn ei chydganu mewn rhyw fodd. Ac y mae'r waedd ar y cyd i derfynu cân 'Cyfri'r Geifr' yn nodwedd unigryw, hyd y sylwais i.

4. Mari Lwyd Lawen (Rhif 9)



Nodyn Jennie Williams: 'T. Mathews Llandebie. Cenedl hi gan yr hen bobl trwy eu trwynau'.

Am gadarnhad fod y Fari Lwyd (er o dan enw 'Y Warsel') ar grwydr gynt yng nghyfeir y gŵr a gyfrannodd y gân uchod ni raid ond troi at gyfrol Gomer M. Roberts, *Hanes Plwyf Llandybïe*.⁸ Yno gwelir tair enghraifft o eiriau a thonau gwahanol a ddefnyddid yn lleol yn rhan o ddefodaeth dymhorol y pen ceffyl, ac y mae un o'r tair – 'Cân y Pyncio' ar d. 275 – ar yr un mesur geiriol â'r uchod (ond gyda rhagor o ailganu yn digwydd) a hefyd ar fersiwn (mwy estynedig) o'r un alaw.

Nid yw'r adysgrifiad uchod heb ei anawsterau:

- Y mae'r geiriad 'I ofyn cennad' yn chwalu'r mesur ac yn colli'r gyseidd. 'I ofyn am gennad' a ddisgwyldid, gan adlewyrchu'r dystiolaeth a gynigir gan amryw enghreifftiau/fersiynau eraill, o Sir Gâr ei hunan ac o'r tu allan iddi.
- Sylwer bod y geiriau, yma, hefyd yn anghyflawn. Y mae'n dra thebygol i Jennie Williams, fel cystadleuydd, gynnwys y pennill cyntaf yn ei gyfarwydd. Gellir tybio, felly, mai Dr Lloyd Williams, i bwrpas ei gopi personol, a hepgorodd yr ailadrodd geiriau ar gyfer y barrau olaf. O ganlyniad, braidd yn anodd yw gweld sut yn gywir y priodid y geiriau a'r gerddoriaeth ynddynt. Yn ffodus, fodd bynnag, y mae'r un fersiwn

i'w ganfod – nodyn am nodyn, bron, a hefyd air am air – yn llyfryn *Llen Gwerin Blaenau Rhymni*,⁹ sy'n cyfleu mai'r geiriau coll oedd 'i ganu, I ofyn cennad i ganu'. (Diddorol, gyda llaw, fyddai gwybod sut y cariodd y fersiwn mewn ffurf mor ddigyfnawid rhwng deule cyn belled oddi wrth ei gilydd â Llandybïe a Chwm Rhymni.)

- c) Mater llai: o ran y nodiant cerddorol uchod ymddengys – ar dir cysondeb – fod llithren yn eisiau yn nechrau'r bar olaf ond un (lle'r ychwanegwyd * olygyddol). Ac, yn wir, fe geir bod adysgrif y gân o Gwm Rhymni yn ei chynnwys.

Dadlennol unwaith yn rhagor yw ystyried rhediad yr alaw yng ngoleuni trafodaeth yr Athro Crossley-Holland (gw. yn dilyn Cân 2 uchod). Ymhlith y nodweddion a restrwyd ganddo fel rhai amlwg mewn cerddoriaeth ac iddi gyswllt cryf â chefnidir bugeiliol a hynafol y mae: ailadrodd cymalau, y duedd at ddisgyn ond gan neidio wedyn yn ôl i fyny, elfen o gord cyffredin ar batrwm arpeggio, ffurf yr alaw yn gylchynol, a graddfa o lai na saith nodyn – nodweddion a amlygir uchod, bob un.

Cwta – ond arwyddocaol, mi gredaf – yw'r sylw a gynigiwyd gan Jennie Williams ynglŷn â dull canu'r gân ddefodol hon ymysg yr hen bobl yn Llandybïe, sef 'Cenid hi ... trwy eu trwynau'.

Nid dyma'r unig dro i leisio gwaseilwyr y Fari Lwyd ennyn sylw – a sylw anffafriol fel arfer, yn ôl pob golwg. Weithiau caiff ei wawdio'n ddilornus yn ystod gornest y 'pwnco' ar gân – fel, er enghraifft, yn y pennill canlynol, a ddefnyddiwyd mewn mwy nag un ymryson oddeutu'r drws:

Ma'r cŵn a ma'r catha
Yn cilo ta'r tylla
Wrth glywad shwd lisha
Nos eno!¹⁰

Ac eto (mewn pennill llai cyfarwydd sydd, efallai, yn ffrwyth prydyddu ychydig yn fwy ymwybodol):

Pwy fwstwr, pwy fraban,
Sy o gwmpas fy nghaban
'Run llais â dylluan
Di-'fennydd?¹¹

Wrth gwrs, ac ystyried amgylchiadau ymarferol y perfformio nosawll hwn (y cyfnod estynedig, y tywydd gaeafol, yr oriau meithion a hwyr, y crwydro sylweddol, a'r holl ganu, heb sôn am y diota) pa ryfedd fod y cyflwyno cerddorol yn dioddef – a chofier nad oedd y criw wedi bod trwy Goleg Cerdd a Drama i ddechrau! Y mae'n wir y gellid cymryd mai un wedd arall ar batrwm heriol y 'pwnco' oedd ymosod ar y lleisio fel y cyfryw, ond, fel y mae'n digwydd, yn ategu'r dystiolaeth 'fewnol' hon fe geir ambell ddyfarniad gan sylwebydd o'r tu allan. Perthnasol, y mae'n debyg, yw'r cyfeiriad gan y teithiwr John Evans yn 1803 at griw yn 'neighing or bellowing in a hideous manner' wrth fynd o gwmpas yn ystod tymor y Gwyliau yng nghwmni dyn a oedd wedi ei wisgo fel ceffyl neu darw.¹² Ac mewn llythyr dyddiedig 1818, wrth wneud 'ymosodiad mileinig' ar wŷr y Fari Lwyd, taranodd Iolo Morganwg am 'Welsh songs in doggerel rhyme that are sung, bawled, or rather brayed by the gang'.¹³

Yma y mae'n werth gofyn a yw'r gwatwar am hwtio fel dylluan, nadu fel asyn, gweryru fel ceffyl neu fugunad fel tarw yn ein cyfeirio tuag at un nodwedd seiniol sydd ambell dro yn weddol amlwg yng nghân agoriadol y ddefod, sef y slyrio. Fe'i cyfleir (drwy lithrenni) yn achos yr eitem uchod o Landybie, ac fe'i ceir eto – er i raddau llai – mewn adysgrif o ddatganiad gan William Morgan Rees o Frynmenyn, ger Pen-y-bont ar Ogwr.¹⁴ Ar bapur, wrth gwrs, y cofnodwyd y rhain, ond gellir hefyd *wrandu* ar ganu WMR gan fod y recordiad gwreiddiol ohono ar gael¹⁵ – ac y mae'r nodwedd i'w chlywed yn fwy trawiadol mewn recordiad a erys o ganu gwŷr y Fari Lwyd gynt ym mhentref Llangynwyd.¹⁶

Gwir, ar ddiwedd y dydd, mai dyrnaid yn unig o enghreifftiau a grybwyllwyd yn awr, ond tybed, ar y llaw arall, a ddiflannodd nodwedd y slyrio mewn llawer achos wrth drosglwyddo'r gân oddi ar lafar i bapur. Am y tro, fodd bynnag, rhaid bodloni ar ddyfalu – a hynny'n ddigon petrus – a oedd y nodwedd yn cynrychioli unrhyw ymgais o gwbl i ddyngwared sain anifail fel rhan naturiol o'r ddefodaeth.

NODIADAU

- 1 ‘“Ffarwel i Aberystwyth ...”: Jennie Williams (1885–1971) a Byd yr Alaw Werin yng Nghymru’, yn *Cynheiliaid y Gân/Bearers of Song* (Ysgrifau i Anrhydeddu Phyllis Kinney a Meredydd Evans, gol. Sally Harper a Wyn Thomas, Caerdydd, 2007), 251–79. Ceir yr un erthygl yn Saesneg ar tt. 280–96.
- 2 Am restr o'r deuddeg gw. troednodiadau Wyn Thomas, op. cit., 272–7.
- 3 *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru (CCAGC)*, II, 86–7.
- 4 CCAGC, III, 190–1. Gw. hefyd *Caneuon Traddodiadol y Cymry*, gol. Arfon Gwilym (Pen-y-groes, 2006), 39.
- 5 Cyhoeddwyd hefyd gan Wyn Thomas, op. cit., 269.
- 6 Op. cit., 260.
- 7 Op. cit., 277.
- 8 (Caerdydd, 1939), 272–6.
- 9 Casgliad Bechgyn Ysgol Lewis Pengam (Rhymni, 1912), 75.
- 10 John Williams, Bryngwenith, Pen-coed, Morgannwg, yn canu ar Dâp Amgueddfa Werin Cymru (AWC) 3119, a recordiwyd yn 1971.
- 11 Allan James, *Diwylliant Gwerin Morgannwg* (Llandysul, 2002), 198.
- 12 *Letters written during a Tour through South Wales, in the year 1803, and at other times* (Llundain, 1804), 441.
- 13 G. J. Williams, *Iolo Morganwg* (Caerdydd, 1956), troednodyn t. 47.
- 14 *Caneuon Llafar Gwlad*, I, gol. D. Roy Saer (Amgueddfa Werin Cymru, 1974).
- 15 Tâp Amgueddfa Werin Cymru (AWC) 7, a recordiwyd yn wreiddiol yn 1953.
- 16 Disg LP 23514 yng nghasgliad Llyfrgell y BBC. Recordiwyd yn wreiddiol ar 28 Rhagfyr 1956.

YR EISTEDDFOD A'R FALED

Tegwyn Jones

Hynt a helynt y faled yn yr Eisteddfod Genedlaethol yw'r hyn y ceisir ei amlinellu yn yr ysgrif hon, ond cyn syrthio ar y testun, bydd angen troedio ychydig bach o dir cyfarwydd, a nodi rhai pethau a fydd yn gwbl wybyddus i'r darlennydd.

Pan fyddwn ni'r Cymry Cymraeg yn sôn am 'faled' neu 'faledi', gallwn fod yn cyfeirio at un o ddau ddosbarth ohonynt. Yn y lle cyntaf, a'r dosbarth hwn o faledi mae'n siŵr sy'n dod gyntaf i'r meddwl, mae'r cannoedd lawer o faledi a gyhoeddwyd yng Nghymru o flynyddoedd cynnar y ddeunawfed ganrif hyd ddechrau'r ugeinfed ganrif – o faledi

sy'n bwrw sen ar yr arfer o ddefnyddio tobacco, am Ryfel Annibyniaeth America, Glaniad y Ffrancwyr yn Abergwaun, hyd at faledi am ddirwest, am ddyfodiad y rheilffyrdd, am grogi Dr Crippen ym 1910 a Gwrthryfel y Pasg yn Nulyn ym 1916. Cyffyrddant, fel y gŵyr pawb, ar bob agwedd ar amgylchiadau a phrofiadau bywyd, a byddai eu gwerthiant – mewn ffair, marchnad, ar y stryd, ac yn wir pa le bynnag y byddai tyrfa'n ymgynnull – yn gynhaliaeth i ugeiniau lawer o faledwyr, rhai'n canu'u cerddi eu hunain, eraill gerddi o waith rhywun arall, drwy ganiatâd neu hebddo.

Mae'n bosib mynd yn ôl yn bellach na dechrau'r ddeunawfed ganrif i ddod o hyd i faledi Cymraeg. Mae baledi ar gael sy'n gresynu at y cynllwynion pabyddol i gael gwared ar y Frenhines Elisabeth y Gyntaf, ac am gynllwyn enwog y Powdwr Gwn yn oes ei holynydd, Iago'r Cyntaf. Cyn dyddiau'r wasg argraffu, mae'n debyg mai taflu ychydig ddimeiau wrth draed y canwr fyddai'r arfer, ac yntau (neu hithau weithiau) yn gorfod dibynnu i raddau helaeth iawn ar y cof yn unig wrth ganu. Ychydig o ran nifer yw'r baledi cynnar yma, ond fe all fod llawer wedi mynd ar ddifancoll. Mae Dr E. Wyn



Tegwyn Jones

James, mewn papur a roddodd mewn cynhadledd ryngwladol ar y faled yn Bucharest yn y flwyddyn 2000, yn codi cwestiwn yr hen benillion, y penillion telyn, ac yn dadlau'n ddiddorol ac argyhoeddiadol iawn, y gall rhai o'r rhain, fel 'Marwnad yr Ehedydd' er enghraifft, fod yn olion baledi a fu unwaith yn gyffredin ac yn boblogaidd. Y baledi hynny wedi mynd yn angof, ond bod pennill yma ac acw – am wahanol resymau – wedi aros ar gof y werin.

Ond i ddychwelyd at y baledi, cannoedd lawer ohonynt, a gynhyrchwyd ar ôl i Thomas Jones, ac eraill yn ei sgil, ddod â'i wasg argraffu i Amwythig o Lundain ar drothwy'r ddeunawfed ganrif. Dysgwyd ni gan lawer beirniad mai cwbl amddifad o unrhyw werth llenyddol yw'r baledi hyn. 'Myrdd o'r Mân –glyttwyr Dyriau', meddai Goronwy Owen yn un o'i lythyrau:

naw ugain yn y Cant sydd hyd Gymru yn gwybeta, ac yn gwneuthur neu'n gwerthu ymbell resynus Garol, neu ddyri fol clawdd.

'It would be absurd,' meddai J. H. Davies yn ei ragymadrodd i'w Lyfryddiaeth i faledi'r ddeunawfed ganrif, 'to claim any value for them as pure literature'. Ac meddai Thomas Parry yntau:

Yr unig rinwedd a berthyn i'w gwaith ydyw ei fod yn ddrych rhagorol i arferion y cyfnod, ac mai o ddarllen y cerddi y ceir y syniad clirïaf am fywyd gwerin cefn gwlad yn y ddeunawfed ganrif. Am y cerddi fel llenyddiaeth, naw wfft iddynt!

Am faledi'r ddeunawfed ganrif y sonia yma – baledi'n dwyn cryn dipyn o ôl yr hen ganu carolaidd cynganeddol, wedi eu canu'n aml ar fesurau digon cymhleth a oedd yn galw am eirfa helaeth ac am gryn feistrolaeth ar honno. Petai Thomas Parry wedi mynd ymlaen i roi ei ffon fesur ar faledi'r ganrif ddilynol, pan gefnwyd bron yn gyfan gwbl ar yr hen fesurau, a phan geir bellach ond ambell gyffyrddiad cynganeddol, y gynghanedd sain gan amlaf, mae'n debyg y byddai wedi rhoi deg wfft iddynt. A threwir yr un nodyn ym meirniadaethau sawl beirniad a wahoddwyd i gloriannu'r faled yn yr Eisteddfod Genedlaethol dros y blynyddoedd. Am un cystadleuydd a oedd wedi canu baled ar fesur 'Y Blotyn Du' yn Eisteddfod Genedlaethol Caergybi, 1927, meddai'r beirniad W. J. Gruffydd, 'Y mae wedi cael gafael ar ddull yr hen faledau yn llwyddiannus iawn, ond yr wyf yn ameu a ydyw hwn yn dric gwerth ei atgyfodi.' '[Nid] y baledi hyn,' meddai I. D. Hooson yn Eisteddfod Abergwaun, 1936:

a ddylai beirdd yr oes hon eu mabwysiadu fel patrymau i'w baledi hwy, eto y mae mwy nag un gerdd a anfonwyd i'r gystadleuaeth hon wedi eu llunio ar ddelw'r baledi hyn, yn sathredig eu hiaith, yn aflêr eu diwyg ac yn hollol amddifad o unrhyw werth llenyddol.

'Cenid baled gynt,' meddai R. Bryn Williams yntau wrth feirniadu'r faled yn Eisteddfod Rhosllannerchrugog, 1945:

mewn iaith sathredig ac arddull gyffredin, ond erbyn hyn aeth ei chanu yn waith â chrefft iddo, yn gofyn am saernïaeth ac awyrgylch arbennig, yn goeth ei heithwedd ac yn ddyfeisgar ei ffurf.

Ac fe ellid ychwanegu sawl enghraifft arall o'r un peth o feirniadaethau'r Eisteddfod Genedlaethol.

Tybed (rhwng cromfachau megis) a fu inni efallai fod yn rhy barod i dderbyn beirniadaeth fel hon ar ein hen faledi gwerinol, heb binsied o halen, ac i'w hailadrodd yn ddfieddwl braidd? Mae'n dda clywed ambell un sy'n barod i leisio amheuaeth. 'Dyma agweddau,' meddai Siwan Rosser wrth drafod rhai o faledi Jonathan Hughes, Llangollen, yng nghylchgrawn y Gyndeithas hon yn y flwyddyn 2000:

a gynhaliai'r syniad fod y fath beth â gwerth llenyddol oesol yn bod, a chanon Cymraeg yn asgwrn cefn i'r cyfan, canon a roddai bwyslais ar agweddau megis crefft y gynghanedd ... [W]rth i ni, ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif, gymhwyso syniadau'r hanner canrif ddiwethaf am feirniadaeth i fyd y faled, gallwn ddangos bod gwerth llenyddol a hanesyddol i'r *genre* hwn o farddoniaeth gan ddangos mai artiffisial yw unrhyw ganon llenyddol ... [C]hwalwn y syniad o safon lenyddol fel peth sefydlog.

Nid dilyn y llwybr hwnnw yw'r bwriad yma, er bod gwir angen ei droedio, ond y mae'r cwestiwn ynglŷn â gwerth lenyddol y corff mawr o faledi'r ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn dod â ni at yr ail ddosbarth o faledi y soniwyd amdanynt ar y dechrau, sef y baledi hynny sy'n cael eu derbyn fel creadigaethau llenyddol, ac yn cael eu galw'n 'faledi llenyddol'.

I ddyfynnu Thomas Parry unwaith eto, meddai ef yn ei gyfrol *Baledi'r Ddeunawfed Ganrif*:

Yn y blynyddoedd diwethaf [ysgrifennai ym 1935] yng nghystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol, daethpwyd i edrych ar faled fel cerdd hir yn adrodd stori, a'i theilyngdod llenyddol yn aml yn

isel iawn. Ond o faledi diweddar Saesneg y caed y syniad hwn, ac nid oes i'r faled heddiw ddim perthynas â baledi'r ddeunawfed ganrif.

Thomas Parry felly'n olrhain dechreuadau'r faled *lenyddol* Gymraeg i gystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol, ac i faledi diweddar Saesneg. Nid yw'n enwi na baled nac awdur, nac yn esbonio'n hollol beth a olyga 'diweddar' iddo yma, ond mae'n debyg ei fod yn meddwl am feirdd fel John Masefield a Rudyard Kipling – y ddau'n fyw ym 1935 pan ysgrifennai ef – a mwy na thebyg y beirdd o genhedlaeth neu ddwy cyn hynny a fu'n ddylanwad arnynt, megis Tennyson, Scott, Coleridge, Wordsworth a Keats. Hynny'n mynd â ni'n ôl i'r cyfnod Rhamantaidd ym marddoniaeth Saesneg pan syrthiodd y cynharaf o'r rhain, Keats, Wordsworth a Coleridge yn arbennig, yn drwm o dan ddylanwad yr hen faledi gwerin Saesneg, anhysbys eu hawduron, a fyddai'n adrodd stori gyffrous ar un neu ragor o'r tair thema fawr, serch, rhyfel ac angau. Baledi megis 'Chevy Chase', 'Barbara Allen', 'Syr Patrick Spens' ac yn y blaen, a drosglwyddwyd ar lafar o genhedlaeth i genhedlaeth, ac nad oes gennym ni yng Nghymru ddim tebyg iddynt, ar wahân i ryw friwsion. Felly, wrth gysylltu'r faled lenyddol, eisteddfodol Gymraeg â 'baleidi diweddar Saesneg' chwedl yntau, mae Thomas Parry'n olrhain ei tharddiad hithau hefyd, er yn anuniongyrchol wrth gwrs, i'r hen faledi gwerin Saesneg.

Ond tybed nad oes modd gwthio ffin cyfansoddi baledi llenyddol Cymraeg yn ôl ymhellach na chystadleuaeth yr Eisteddfod Genedlaethol, fel y mae Thomas Parry yn ei awgrymu? (Ac ym 1909, yn Eisteddfod Genedlaethol Llundain, gyda llaw, yr ymddangosodd y gystadleuaeth honno am y tro cyntaf mewn Rhestr Testunau. Down yn ôl at hynny yn y man). Cyfeiriwyd eisoes at Coleridge, awdur un o'r baledi llenyddol Saesneg enwocaf, sef 'The Rime of the Ancient Mariner', ac un Cymro a oedd yn ei adnabod yn dda, ac yn troi yn yr un cylchoedd ag ef pan oedd yn byw yn Llundain, oedd Iolo Morganwg. Yn y gyfrol *Cerddi Rhydd Iolo Morganwg*, 1980, mae'r golygydd, Pat Donovan, yn cynnwys cerdd ysgafn, ddireidus yn dwyn y teitl 'Y Ferch a Gollwys ei Phais', cerdd y mae Iolo, fel y byddai'n chwannog o wneud, yn ei phriodoli i rywun arall – Dafydd o'r Nant yn yr achos hwn – ond sydd bron yn sicr yn un o'i greadigaethau ef ei hun. Wyth bennill pedair llinell yr un sydd yma, wedi eu saernïo'n grefftus, yn adrodd stori syml, a llinell olaf pob pennill yn gorffen, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, â'r gair 'pais' – 'collws ei phais', 'ei gweld heb ei phais', 'beth wnaethost â'th bais',

ac yn y blaen. Hynny yw, mae yma ailadrodd bwriadol, un o'r amrywiol ddyfeisiadau sy'n nodwedd ar faled lenyddol yn aml. Ac yn union fel y ceir mewn canu gwerin yn gyffredinol, y math o ganu yr aeth Coleridge a'r lleill o'r Rhamantwyr atynt am ysbrydoliaeth, mae'r awdur yn disgyn yn syth ar ei bwnc heb ragymadroddi dim:

Rhyw lances o forwyn, ni wae'th i chi p'un,
Hi aeth tua'r farchnad y boreu dydd Llun.

Ac yna'r stori'n dilyn, a naws y faled draddodiadol eto yn y pennill olaf:

'Nawr dyma 'chwi rybudd, holl ferched y byd,
Nad eloch i dafarn 'rhyd nos wedi pryd.

Baled felly sy'n dwyn, yn ymwybodol, nodweddion canu hŷn, ond un sy'n waith bardd disgybledig. Petai pwyllgor llên rhyw Eisteddfod Genedlaethol yn ein dyddiau ni wedi gosod testun, dyweder, 'Baled ysgafn am Dro Trwstan', a bod hon wedi ei hanfon i mewn, beth fyddai'r rhesymau dros ei diarddel o'r gystadleuaeth? Gofyn y cwestiwn a wnawn.

Mae gan Walter Scott gerdd fer, a fydd yn gyfarwydd i nifer o ddarllenwyr yr ysgrif hon – pedwar pennill pedair llinell – yn dwyn y teitl 'Proud Maisie':

Proud Maisie is in the wood,
Walking so early;
Sweet Robin sits on the bush,
Singing so rarely.

Aiff yn ymgom rhwng Maisie a'r aderyn lle mae hi'n gofyn iddo pa bryd y caiff hi briodi, ac yntau'n ateb – pan ddaw chwe gŵr cydnerth i'w chario tua'r eglwys. Pwy sy'n paratoi'r gwely priodasol? Yr hen glochudd briglwyd, yw'r ateb, a bydd y glöyn yn goleuo dy lwybr, a'r dylluan o'r tŵr yn dy groesawu.

Merch ifanc ar fin marw sydd yma, fel yr eneth honno a ga'dd ei gwrthod yn y faled Gymraeg. Torcalon oherwydd cael eu twyllo a'u gwrthod yw helbul y ddwy, er bod hynny'n amlycach ac yn fwy uniongyrchol yn y gân Gymraeg. Yn y ddwy gân ceir y ferch yn ymgomio ag un o greaduriaid byd natur, Maisie â'r robin a'r eneth â'r 'brithyll bach'. Am gân Scott, meddai un beirniad diweddar (ond anhysbys) ar y We, 'Formwise, while a little short, the poem fits well into the ballad pattern. To be precise 'Proud Maisie' is a literary ballad, a narrative poem written in deliberate imitation of the ballad

form'. Onid yw hynny'n wir hefyd am 'Yr Eneth ga'dd ei Gwrthod'? Mae yma adrodd stori gan fardd y gwyddom ei enw – John Jones (Llew o'r Wern), o Wyddelwern. Mae'n stori wir, ond nid yw hynny'n rheswm dros ei gwrthod. Stori wir yw'r un mae Wordsworth yn ei hadrodd yn un o'i faledi llenyddol enwocaf, 'Lucy Gray'. Mae stori'r eneth yn cael ei hadrodd yn syml, yn ddiwastraff, ac, a fyddid yn mynd yn rhy bell tybed pe awgrymid bod dewis bwriadol o ansoddair yn y llinell 'Yn nyfroedd glân yr afon'? Dyma'r dyfroedd sydd ar fin dwyn ymaith ei bywyd, ac y maent yn lân o'u cyferbynnu â'i chyflwr truenus, fel y gwelai hi bethau – yn ddyfroedd a fydd yn ei phuro a'i glanhau. Unwaith eto, petai'r faled hon yn cael ei hun yng nghystadleuaeth y faled yn yr Eisteddfod Genedlaethol, sut byddai'r beirniad yn cyfiawnhau ei thorri allan?

Ac yntau'n ddibrisiol braidd o'r faled eisteddfodol yn y gyfrol *Baledi'r Ddeunawfed Ganrif*, 'a'i theilyngdod yn aml yn isel iawn', fel y dywed yno, mae'n rhyfedd na fanteisiodd Thomas Parry ar y cyfle i ddangos nad oedd pethau cynddrwg â hynny ym myd y faled lenyddol Gymraeg. Gallai fod wedi cyfeirio at rai baledi, o'r tu allan i'r Eisteddfod, mae'n wir, ond rhai y byddai'n barod iawn i gydnabod eu safon uchel a'u teilyngdod, sef 'Ynys yr Hud', W. J. Gruffydd, a 'Drudwy Branwen' R. Williams Parry, a hwyrach gerdd arall gan Gruffydd, sef 'Baled Gwenno Llwyd' sydd i'w gweld yn y casgliad cyntaf o'i waith, *Caneuon a Cherddi* (1906), ac sy'n drwm o dan ddylanwad Keats a'i gyd-Ramantwyr. Roedd y tair wedi eu hen gyhoeddi pan gyhoeddodd Thomas Parry ei gyfrol ym 1935 – 'Baled Gwenno Llwyd' ym 1906, 'Ynys yr Hud' ym 1913 a 'Drudwy Branwen' ym 1928 – a thro ar ôl tro yn eu beirniadaethau ar y faled yn yr Eisteddfod Genedlaethol mae mwy nag un beirniad wedi cyfeirio atynt a'u cymeradwyo'n uchel. I. D. Hooson, er enghraifft, wrth feirniadu cystadleuaeth y faled yn Abergwaun, 1936:

Er mwyn iddynt ddeall cyfrinach y faled anogwn rhai o'r ymgeiswyr i astudio'n baledi goreu ac yn eu plith 'Ynys yr Hud' ... a 'Drudwy Branwen' ... a gydnabyddir ymysg camp-gerddi o'r math hwn yn ein hiaith. Baledi o'r teip hwn a ddylid eu dewis fel patrymau gan ein beirdd ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol ac nid baledi'r Ddeunawfed Ganrif. Nid annog i ddynwarediad ydym, ond ceisio cyfeirio sylw'r ymgeiswyr at safonau teilwng.

A phan fyddai unrhyw un ar wahân i Hooson yn beirniadu roedd modd tynnu

sylw at ei faledi yntau – ‘Harri Morgan’, ‘Barti Ddu’, ‘Guto Nyth Brân’ a’r lleill i gyd, a’u cymeradwyo i faledwyr gobeithiol ac uchelgeisiol yr Eisteddfod fel pethau y dylid eu hastudio o ran eu cynnwys a’u crefft. Wrth sôn am faledi’r ddeunawfed ganrif a’r ganrif ddilynol, yr un oedd neges Cynan wrth feirniadu yn y Bala, 1967: ‘Er printio a dysgu rhai cannoedd o’r baledi didactig, poblogaidd hyn, nid ynddynt hwy a’u moeswersi y ceir tarddiad na phatrwm y faled Gymraeg heddiw.’ Hynny yw, nid cystadleuaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol oedd man geni’r faled lenyddol Gymraeg.

Ond i fanylu ychydig bach ar gystadleuaeth y faled yn yr Eisteddfod Genedlaethol dros y blynyddoedd. Y tro cyntaf, fel y soniwyd, i’r Eisteddfod ofyn am faled wrth yr enw hwnnw oedd yn Llundain ym 1909. Bu gofyn o’r blaen mewn eisteddfodau blaenorol am ‘Rieingerdd’, ‘Bugeilgerdd’ neu ‘Gân Ddesgrifiadol’ – i gyd yn perthyn yn fras i’r un byd â’r faled, yn yr ystyr mai adrodd stori, gan amlaf i’w chanu, a wna’r awdur – ond o 1909 ymlaen, pan fyddai cystadleuaeth o’r fath yn y Rhestr Testunau, am *faled* y gofynnid, gyda dwy eithriad, sef yn Eisteddfod Aberdâr 1956 pan ofynnwyd am ‘Stori ar Gân’, ac yn Eryri a’r Cyffiniau 2005 pan ofynnwyd am ‘Stori mewn Mydr ac Odl’. Yn Llundain, ‘Owain Lawgoch’ oedd y testun gosodedig, Silyn Roberts a Ben Davies, Pant-teg, oedd yn beirniadu, ac F. Wynne Roberts o Fanceinion a enillodd – baled yn cynnwys 57 o benillion, 228 o linellau.

Yn y cant namyn dwy o Eisteddfodau Cenedlaethol a gynhaliwyd er 1909 bu cystadleuaeth baled yn wyth a deugain ohonynt, cyfartaledd o gystadleuaeth felly bob dwy flynedd, ac o blith y rheini fe ataliwyd y wobwr bymtheg o weithiau, dair gwaith yn olynol ar ddau achlysur. Mae’n ganran uchel braidd, o’i gymharu â’r atal a fu ar wobrwyo’r cystadleuthau llên eraill, ac yn adlewyrchu o bosib rhyw ansicrwydd ym meddwl y beirniaid ynglŷn â natur baled, a beth yn union oedd i’w ddisgwyl.

Un duedd gyffredinol, a naturiol ddigon, yw i’r pwyllgor llên lleol osod testun ac iddo rhyw gysylltiadau â bro’r Eisteddfod lle bynnag y cynhelid honno, a thestun, o gofio nod amgen y faled, sydd â digwyddiad neu ddigwyddiadau cyffrous, serch, neu rhyw gymeriad lliwgar, ynglŷn ag ef. Felly ‘Llofruddiaeth yr Ustus Coch’ yn Ninbych, 1939, ‘Dai’r Cantwr’ yn Aberpennar, 1940, ‘Thomas Bartley’ yn y Rhos, 1945, ‘Merched Beca’ yn Llanelli, 1962, ‘Jemima Nicholas’ yn Abergwaun, 1986, ac yn y blaen. Mae

dosbarth wedyn o destunau mwy penagored fel ‘Helynt hen Forwr’, Caergybi, 1927, a’r hen forwr ac awdur ‘Ynys yr Hud’, W. J. Gruffydd, yn beirniadu. Meddai ef am y gân fuddugol gan George Lloyd Williams:

Disgrifiad o hanes llongwr ar sgwner ydyw, a buaswn yn tybio mai llongwr sgwner a’i canodd, onibai ei fod weithiau yn dywedyd pethau fel

A throi y llong i dacio, i geisio *dal* y gwynt.

Ar bob sgwner a welais i erioed, rhoi’r hwyliau uchaf y byddis i ‘ddal’ y gwynt, os ‘catch’ a feddylir, a thynhau’r cyrt os ‘hold’ a feddylir.

Gyda beirniad fel yna yr oedd gofyn bod yn ofalus! Mae diweddsglo’r faled yn hynod o debyg i ddiwedd ‘Ynys yr Hud’. Daw’r hen forwr yn ôl i’r ardal glan môr lle maged ef, a chael fod popeth wedi newid yn ddirfawr, sef union brofiad Twm Huws o Benyceunant yn ‘Ynys yr Hud’. Mae’n rhaid bod Gruffydd wedi sylwi ar hynny, ond nid yw’n sôn gair am y peth. Os gobaith y baledwr oedd hiwmro’r beirniad a’i seboni ychydig bach trwy ddynwared ei waith, yna nid yn ofer y gobeithiodd. Beirniad arall (gan ein bod yn sôn am y peth) a ddangosodd gonsyrn am ffeithiau oedd Islwyn Jones wrth feirniadu’r faled yng Nghastell Nedd, 1994, ar y testun ‘Y Gêm’. Roedd un ymgeisydd o dan y ffugenw ‘Wil Dafis’ wedi disgrifio gêm rygbi ryngwladol lle sgoriodd Ieuan Evans gais go arbennig, ac meddai Islwyn Jones, ar ddiwedd ei feirniadaeth, ac ar ôl atal y wobwr, ‘A chyda llaw “Wil Dafis”, nid Neil Jenkins roes y gic ar draws y maes pan sgoriodd Ieuan Evans’. Parch at ffeithiau’n bwysig mewn baled fel mewn unrhyw greadigaeth lenyddol, ond wrth lunio baled lenyddol dylid cofio bob amser serch hynny, mai’r rhamantydd ddylai fod â’r gair olaf, yn hytrach na’r hanesydd manwl a chywir. ‘Nid yw ymlyniad wrth lythyren yr hanes yn ddigon,’ meddai I. D. Hooson eto wrth feirniadu’r gystadleuaeth yn Abergwaun, 1936, ar y testun ‘Twm Siôn Cati’:

Disgwyliem ryw arwedd arbennig ar yr hanes gan y baledwr; yr hen stori yn cael ei hadrodd o’r newydd; yr un stori wrth gwrs ond bod delw’r baledwr arni’r tro hwn a hithau ar ei mantais o hyn.

Ond sôn yr oeddem am destunau mwy cyffredinol na’r lleol. ‘Y Porthmyn’ ym Maldwyn, 1965, er enghraifft, ac ‘Alabama’ yn y Bala, 1967. Digwyddodd anfadwaith dychrynlyd yn Birmingham, Alabama, yn ystod y flwyddyn cyn yr Eisteddfod, pan daflwyd bom i ganol Ysgol Sul mewn

Eglwys yn perthyn i'r Bedyddwyr, a lladd nifer o blant croenddu. Agorwyd cronfa gan y *Western Mail* ar y pryd, ac fe godwyd digon o arian drwyddi i dalu am osod ffenest goffa, yn enw pobl Cymru, o waith yr artist John Petts, yn yr eglwys wedi iddi gael ei hailadeiladu. Testun rhagorol i faled, ond y beirniad, Cynan, yn barnu nad oedd neb yn deilwng. Enghreifftiau eraill o destunau llai lleol eu nawws yw 'Y Streic' (Dyffryn Lliw, 1980) ac 'Y Gêm' (Castell Nedd, 1994) – a'r wobwr yn y ddwy gystadleuaeth hyn hefyd yn cael ei hatal. Ar y cyfan ymddengys – er bod eithriadau – fod yn well gan y baledwyr eisteddfodol gael testun ag iddo ffiniau go bendant. Awgrymodd Dafydd Owen wrth feirniadu'r faled yn y Barri, 1968, y dylid rhoi rhyddid i'r cystadleuwyr ddewis eu testunau eu hunain bob blwyddyn gan mai teimlad yn fwy na myfyrdod, yn ei farn ef, yw hanfod y faled. Ai geiriau Dafydd Owen oedd i gyfrif, mae'n anodd dweud, ond cafwyd rhyw osio i'r cyfeiriad hwnnw fwy nag unwaith ar ôl hynny. Ym Mangor, 1971, gofynnwyd am faled ar 'Unrhyw ddigwyddiad Cyfoes', yng Nghaerfyrddin, 1974, am 'Unrhyw ddigwyddiad cyffrous yn y 70au' (er bod chwe blynedd o'r saithdegau eto ar ôl). 'Unrhyw ddigwyddiad cyffrous yng Nghymru' oedd y testun yng Nghaerdydd, 1978, ac y mae rhyw sŵn blinedig braidd ar y testun a osodwyd yng Nghaernarfon, 1979, sef yr un un â Bangor 1971, 'Unrhyw Ddigwyddiad Cyfoes'.

Efallai mai un o'r tasgau mwyaf anarferol a roddwyd yng nghystadleuaeth y faled yn y Genedlaethol oedd gosod dwy linell gyntaf y faled, a gwahodd y baledwyr i fynd â hi o'r fan honno. Yn Nolgellau, 1949, y digwyddodd hynny am yr unig dro, ac nid gormod yw dweud iddi esgor ar un o'r baledi gorau a gynhyrchodd yr Eisteddfod. Crwys oedd y beirniad, a Dafydd Owen a fu'n fuddugol. Y ddwy linell a osodwyd gan y pwyllgor llên oedd:

Mewn mynwent ddu yn Rhuthun Town

Mae Hart a Brown yn braenu.

Hyd yma ni lwyddwyd i daro ar ffynhonnell y llinellau. Ai eu cyfansoddi gan fardd lleol ar gyfer y gystadleuaeth hon fu'r hanes, neu a ydynt yn digwydd mewn rhyw gerdd arall, cerdd ferrach efallai na baled? Ni wyddys chwaith pwy oedd Hart a Brown, a chydnebydd Crwys yn ei feirniadaeth na wyddai yntau, ond rhaid, meddai, eu bod wedi eu crogi ar gam. Nid yw hynny'n dilyn mewn gwirionedd – ni honnir yn y llinellau agoriadol mai mynwent carchar yw'r fynwent ddu yn Rhuthun Town, er bod rhywun yn meddwl yn naturiol am garchar Rhuthun. Nid oes dim ynddynt chwaith i

awgrymu mai crogi fu rhan y ddau, ond efallai fod rhyw draddodiad llafar ym Meirionnydd i'r perwyl hwnnw. Beth bynnag dyma'r 'hanes' y dewisodd y buddugwr ei nyddu, ac o wneud hynny cynhyrchu un o'n baledi llenyddol gorau. Mae'n gelfydd, yn soniarus, yn llawn o naws ac awyrgylch, ac yn ganadwy iawn petai gofyn am ei chanu. Goddefer ddyfynnu ychydig ohoni:

Mewn mynwent ddu yn Rhuthun Town
Mae Hart a Brown yn braenu,
Ac ôl y rhaff ar wddf y ddau
Yn araf gau a gwasgu,
Dau lanc diniwed yn ddi-barch
Heb hyd'n oed arch yn wely.

Ac yna fe adroddir y stori am y ddau lanc yn dod o hyd i god o arian yn y rhedyn, wedi ei chuddio yno, yn ddjarwybod iddynt hwy, gan leidr a llofrudd. Mynd ati i wario'r cyfoeth annisgwyl hwn yn ffri iawn, a'r sôn yn mynd ar led. Ac yna eu dal gan yr awdurdodau a'u carcharu. Ceir yma adlais weithiau o gerdd fawr Oscar Wilde, 'The Ballad of Reading Gaol':

Silently we went round and round
The slippery asphalt yard;
Silently we went round and round,
And no man spoke a word.

Bob bore, cerddent gyda'r haid
Prif bechaduriaid daear,
Heb weld y muriau, trwy y gwyll,
Nac erchyll iard y carchar;
Cerddent heb ofn, fel pe dan hud,
Y ddau yn fud a byddar.

Y ddau'n tyngu na fydd na glaswelltyn na blodyn byth yn tyfu ar eu beddau oherwydd eu crogi ar gam, ac yna'r diwedd glo sy'n ein hatgoffa o'r modd y byddai'r hen faledwyr pen-ffair gynt yn cloi eu baledi hwythau ar destunau tebyg:

Chwi lanciau dewr a merched glân
Sy'n gwrando'r gân 'rwyn ganu,
O ffordd aflendid mynnwch ffoi
Rhag iddo droi a'ch drygu,

A'ch cael ar gam, yn Rhuthun Town,
Fel Hart a Brown yn braenu.

Cerdd sy'n pontio'r hen a'r newydd ym myd y faled Gymraeg cystal â'r un.

Prin y gallwn honni bod cystadleuaeth y faled wedi denu cystadleuwyr wrth y degau fel y bydd y bryddest yn gwneud ar dro, neu'r englyn, dyweder, neu'r delyneg. Y cynhaef baledol gorau a gafwyd erioed oedd yn Llanelli ym 1930 pan gystadleuodd 14 ar y testun 'Yng Ngefail y Wlad', a'r ddau feirniad, Cenech a Meuryn, yn cytuno i atal y wobr. Y nifer mwyaf wedi hynny oedd 12 ym Mangor ym 1971. Y nifer lleiaf a fentrodd i'r maes oedd un, a digwyddodd hynny deirgwaith i gyd – yng Nghastell Nedd, 1918, a Bryfdir, Blaenau Ffestiniog, yn ennill o dan feirniadaeth Gwili ar y testun 'Priodas a Thaith', baled hynod o ddarllenadwy am arferion priodasol gynt pan oedd y gwahoddwr yn ffigwr pwysig yn y gweithgareddau. Y ddau dro arall y daeth un yn unig i'r maes oedd yng Nghaerffili, 1950, lle gofynnwyd am faled ar y testun 'John Frost', a'r Bala, 1967, ar y testun 'Alabama' fel y soniwyd eisoes. Cynan oedd y beirniad ar y ddau achlysur, ac ni chanfu deilyngdod yn y naill faled na'r llall.

Profiad diddorol yw pori yn y gwahanol feirniadaethau ar y faled yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a sylwi sut y mae'r farn am *werth* y dull yma o gyfansoddi cerdd yn amrywio cryn dipyn o dro i dro. Wrth feirniadu'r faled ym Mhwlheli ym 1925, pan ddaeth 10 i'r maes ar y testun 'Yr Hen Simdde Fawr', a T. Eirug Davies yn ennill am faled hynod o swynol, mynnodd Gwili nad oedd rhai o'r cystadleuwyr ond namyn 'pastynfeirdd'. 'Rhyfyg oedd iddynt anfon eu gwaith musgrell i gystadleuaeth bwysig fel hon,' meddai.

Ond erbyn Eisteddfod Ystradgynlais, 1954, yr oedd beirniad y faled y flwyddyn honno, T. J. Morgan, yn y pegwn arall. 'Y mae'n amheus iawn,' meddai, 'a ellir mwyach gyfiawnhau cystadleuaeth y faled. Peth amgueddfaol erbyn hyn yw'r faled, ac nid yw'n synhwylol rywffod fod yr Eisteddfod drwy osod y gystadleuaeth yn gofyn i gywion beirdd fod yn ystrydebol ac yn fwriadol ddibris-ddiofal eu harddull.'

Prin fod yr Eisteddfod yn gofyn y fath beth gan gywion beirdd, ac fel y gellid disgwyl bu rhyw ychydig o adwaith i'w sylwadau yn nes ymlaen. Yn Eisteddfod Llanelli, 1962, achubodd beirniad y faled y flwyddyn honno, Dafydd Owen, ar y cyfle i ymateb. 'Hawliodd beirniad diweddar ... ,' meddai am y faled, 'mai'r amgueddfa yw ei lle! Hawlia baledi Hooson a

Chynan, W. J. Gruffydd ac R. Williams Parry ... fod i'r faled lenyddol ei lle teilwng yn llenyddiaeth gyfoes Cymru, fel gwledydd eraill.'

Yn Aberystwyth, 1992, ar ôl derbyn dwy faled yn unig ar y testun 'Glyndŵr' fe ofynnodd y beirniad, Gareth Alban Davies:

Pam [dim ond dwy] tybed? Ai'r teimlad yw fod cyfnod y faled trosodd? ... Efallai mai felly y mae hi, er na welaf reswm yn y byd paham na ellid arbrofi â'r ffurf, fel y gwnaeth Vernon Watkins neu Dylan Thomas neu Lorca i greu rhywbeth newydd, ffantastig efallai, neu swrealidd, rhyw Steven Spielberg o faled.

Mae dau bwnc yn codi'n gyson yn y beirniadaethau hyn. Fe soniwyd am y cyntaf yn barod, sef pwysleisio'r gwahaniaeth rhwng baledi'r ddeunawfed ganrif a'r ganrif ddilynol, a'r peryg y bydd baledwyr heddiw yn mynd i'r ddwy ganrif hynny i chwilio am arddull a phatrwm i'w baledi llenyddol. Dyma bwnc sy'n codi'n gyson yn y beirniadaethau. A'r ail bwnc yw mater y canu. A ddylid bob amser ystyried baled yn rhywbeth y gellir ei chanu? Felly y gwneid yn sicr gynt. Gan droedio llwybr pur gyfarwydd unwaith eto, gellir cyfeirio at Lewis Glyn Cothi yn y bymthegfed ganrif a'i linell, 'Caned faled i ferch', at gwpled gan Siôn Mawddwy tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, wrth ddisgrifio ffair, 'Baled a ddôi, heb oludd, / O ben crogyn, rheffyn rhydd', neu at ddisgrifiad Ellis Wynne o Stryd y Dywysoges Pleser lle gwelodd 'chwaraeon Interlud ... canu baledau, a phob digrifwch'. A chyffredin iawn yw i faledwyr y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg osod tôn uwchben eu baledi fel y gellir eu canu.

Yn yr Eisteddfod Genedlaethol arfer yr ymgeiswyr, neu'r rhai buddugol o leiaf, yn y blynyddoedd cynnar oedd peidio â nodi alaw uwchben eu baledi, ond ar yr un pryd eu cyfyngu eu hunain i un mesur, fel y byddai *modd* eu canu petai raid. Hynny yw, hyd at Eisteddfod Hen Golwyn, 1941, pan roddwyd fel testun y faled 'Dihangfa John Evans rhag Indiaid Patagonia'. (Nid John Evans y Waunfawr a aeth i America i chwilio am yr Indiaid Cymraeg eu hiaith oedd hwn, er iddo yntau fod yn destun baled yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, 1960, ond John Evans a oedd yn byw ym Mhatagonia.) Nid yn annisgwyl efallai, o blith y pedwar ymgeisydd, mai i R. Bryn Williams yr aeth y wobr, yntau wedi cael manylion y cyfryw ddigwyddiad gan John Evans ei hun a oedd yn dal ar dir y byw ar y pryd. Mae'n faled hir, wedi ei rhannu'n chwe adran, a'r mesur yn amrywio o ran i ran. Ond fe'i gwobrwywyd gan y beirniad, Dyfnallt, heb gyfeirio o gwbl at

y nodwedd newydd hon ar faledi'r Eisteddfod. Efallai nad oedd raid iddo dynnu sylw at y peth – wedi'r cyfan onid oedd 'Ynys yr Hud', cerdd yr oedd beirniaid, fel y soniwyd eisoes, yn chwannog i'w dal o dan drwyn ymgeiswyr fel patrwm, onid oedd honno ar fwy nag un mesur? Pan ddaeth R. Bryn Williams ei hun i feirniadu'r gystadleuaeth yn y Rhos, 1945, gwnaeth ei safbwynt yn hollol glir. 'Bydd stori fel rheol,' meddai, 'yn glŷn â thestunau baled ... Y mae gan y baledwr un fantais ar y storiwr mewn rhyddiaith, sef medr i newid ei fesurau i helpu'r mynegiant, a hawl i amrywio ei fydrau rhag blino'i ddarllenlydd.' Dwy flynedd yn ddiweddarach, ym Mae Colwyn, 1947, mae I. D. Hooson ei hun yn ategu hynny. 'Purion dyfais mewn baled', meddai, 'yw amrywio'r mesurau pan fo galw am hynny ond dylai'r newid lifo'n esmwyth a naturiol ac ni ddylai ar unrhyw gyfrif dorri ar rediad y stori.' Daw ategiad arall gan Gareth Alban Davies ym Mangor 1971. Mae yntau o blaid cael amrywiaeth mesurau mewn baled, ond fe ddaeth un i law ar fesur (yn ei eiriau fe) 'penrhydd hollol', ond annerbyniol oedd hynny ganddo am fod hyn 'yn dwyn oddi ar [y faled] un o'i nodweddion amlycaf, sef pennill sicr a chyson ei guriad'.

Dyma dderbyn felly i'r Eisteddfod fersiwn ar y faled lenyddol fel y syniai Keats a Wordsworth, Coleridge ac eraill amdani yn eu cyfnod hwy, sef creadigaeth sy'n benthyca nodweddion baledol ond nad yw o angenrheidrwydd ar gyfer ei chanu ar alaw. Rhywbeth i'w hadrodd ydyw. Nid oedd derbyn hynny'n hawdd i bob beirniad. 'Yn llwyddo i ganu'n faledol' yw sylw byr T. J. Morgan ar waith un ymgeisydd yn Ystradgynlais, 1954, 'ond ai doeth yw newid y mesur mewn baled boblogaidd werinol?' Yr un peth a boenai Llwyd Williams yng Nghaernarfon, 1959. Daeth un ymgeisydd yn dwyn y ffugenw 'Pentre Galar' i'r gystadleuaeth a ofynnai am faled ar y testun 'Priodas Nant Gwrtheyrn', ac meddai'r beirniad am ei ymgaïs:

Triniwyd y stori'n ofalus gan ddefnyddio'r mesur di-odl a thorri ambell linell hwnt ac yma yn ddigon effeithiol. Cerdd dda ydyw hon, ond rhaid i mi holi a ydyw'n faled? Y mae'r stori yma, ond a oes modd ei chanu? Dyna'r amheuaeth a geidw *Pentre Galar* ar wahân i'w gydymgeiswyr yn y gystadleuaeth hon.

Yn Eisteddfod Cwm Rhymni, 1990, cyffyrddodd y beirniad, Dafydd Iwan, â'r un pwynt. Trevor Roberts, Llanowain, hen faledwr ardderchog, a enillodd ar y testun 'Trychineb Senghennydd, 1913', ac meddai Dafydd

Iwan:

Yn draddodiadol, wrth gwrs, nid adrodd baled a wnaed ond ei chanu, ac er nad yw hynny'n amod mewn cystadleuaeth fel hon, mi dybiwn i y talai i'r baledwr bob amser gadw hynny mewn cof.

Ac ar yr amgylchiad arbennig hwnnw, canodd Dafydd y faled fuddugol drwyddi yn y Babell Lên ar ôl ei gwobrwyo. Afraid dweud na fyddem wedi cael y wledd annisgwyl honno petai'r awdur wedi amrywio'i fesurau.

Erbyn hyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol, newidiodd y faled ei phorfa. Symudodd o'r Adran Llenyddiaeth i'r Adran Alawon Gwerin. Digwyddodd hyn am y tro cyntaf yn Eisteddfod Bro Madog, 1987, pan welwyd yn y Rhestr Testunau, o dan Alawon Gwerin, gystadleuaeth newydd sbon sef:

Canu baled wreiddiol gyfoes. Cynhelir y gystadleuaeth hon ar faes yr Eisteddfod, neu os bydd y tywydd yn anffafriol, ym Mhabell y Cymdeithasau.

Oni fyddai'r hen faledwyr pen-ffair wedi cael hwyl ar ben y frawddeg honno, a hwythau'n gorfod canu ym mhob tywydd, haf a gaeaf, heb babell o unrhyw fath i ddianc iddi? Yr oedd gofyn i gystadlwyr yn y gystadleuaeth newydd hon anfon copi o'r faled i'r Trefnydd erbyn y cyntaf o Orffennaf, ac yr oedd y wobwr mewn tair rhan – y canwr buddugol i gael £20, awdur y geiriau i gael £15, a £15 yn ogystal i gyfansoddwr yr alaw.

Gydag ychydig o amrywiaeth yn y wobwr, yr un oedd y drefn yn Eisteddfod Casnewydd, 1988, ac yn achlysurol dyna sut yr aeth pethau yn eu blaen hyd at Eisteddfod Tyddewi, 2002, pan enwyd y gystadleuaeth hon yn Gystadleuaeth Goffa Elfed Lewis a fydd, mae'n debyg, yn un o gystadlaethau sefydlog yr Eisteddfod, ac a gynhelir yn flynyddol o hyn allan. Drwy hyn felly, ymddengys fod y faled wreiddiol, lenyddol, wedi sicrhau lle parhaol iddi ei hun yn Rhestr Testunau'r Eisteddfod pa le bynnag y cynhelir hi, ac nid drwg o beth yw hynny. Ond sylwer – nid yn unig y mae'n ofynnol i'r baledwr gynnig baled wreiddiol, ond y mae gofyn iddo hefyd ei chanu. Cyfyd dau beth o hynny, sef yn gyntaf y ffaith na cheir gweld y faled mewn print, na'i chlywed chwaith heb fod yn bresennol yn y gystadleuaeth ei hun, ac yn ail, trwy fynnu bod y faled yn cael ei chanu, gosodir llyffethair ar y sawl a ddymunai lunio baled gan amrywio'r mesurau o'i mewn, yn null 'Ynys yr Hud', dyweder, neu rai o faledi Hooson, Cynan, Dafydd Owen ac eraill. Nid oes dim, hyd y gwyddys, i rwystro pwyllgor llên lleol yr

Eisteddfod rhag gofyn am faled yn yr Adran Llenyddiaeth, lle gellid gwneud hynny, yn ogystal â'r faled i'w chanu yn yr Adran Alawon Gwerin, ond a fyddai Pwyllgor Llên Sefydlog yr Eisteddfod yn barod i ganiatáu hynny sydd gwestiwn arall.

I grynhoi. Cipolwg digon brysiog ac amherffaith a geir yma ar y ddau draddodiad baledol – y faled ben-ffair y byddwn yn ei chysylltu â'r ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, er bod modd i'w holrhain hi'n ôl yn bellach na hynny, a'r faled ddiweddarach – y faled lenyddol – fwy soffistigedig ei hadeiladwaith, sy'n gofyn am ddyfeisgarwch a dychymyg a choethder ymadrodd wrth adrodd ei stori, ac sy'n tarddu yn y pen draw o faledi rhai o feirdd rhamantaidd Lloegr. Ond y mae lle pwysig i'r ddwy yn ein traddodiad llenyddol a cherddorol.

CANEUON LLAFAR GWLAD O GASGLIAD TAL GRIFFITH

Buddug Lloyd Roberts



Buddug Lloyd Roberts

Cyflwynir isod gasgliad o saith o ganeuon a godwyd oddi ar lafar gan Tal Griffith, a lle ceir nodyn ganddo yn eu cylch fe'i cynhwysir fel ag y'i cofnodwyd ganddo. Golygwyd y sillafu a'r atalnodi.

Yr Aelwydyn yr Hafod

Doh: B₇

S₁ | S₁ : d | d : s₁ S₁ | S₁ : d | d : S₁ | S₁ : d | d : t₁ | t₁ : - | - : t₁

t₁ : r | r : - r | r : m | r : d | t₁ : t₁ | t₁ : t₁ | S₁ : - | - : m

m : m | d : d | S₁ : d | d : - S₁ | d : d | d : t₁ | t₁ : - | - : t₁

t₁ : t₁ | f : t₁ | S₁ : S₁ | m : d | t₁ : - | t₁ : - | d : - | - : S₁ | d : - : d



1. Roedd Mam yn gwau yr hosan ddu
 A Nhad yn canu'n fwyn,
 A phwytho roedd yr eneth gu
 A'r forwyn yn pilio brwyn;
 Roedd Huw yn gwneuthur clogs i'w frawd
 Ond fuo rioed mo'i fath,
 A'r hogyn bach yn gwneuthur gwawd
 O'r ci a'r gath.

Byrdwn

Ac ar y tân y berwa'r uwd
 A phigin i'w droi o'i le,
 Ac ambell i sglodyn o glocsan Huw
 I helpu i'w wneud yn dew.

2. Mae Wil y gwas yn wag ei fol
 Ac wedi llwgu'n llwyr
 Rôl gweithio'n galed gyda'r drol
 O fore hyd yr hwyr;
 A'r forwyn fach mewn cegin oer
 Yn rhynnu ac yn brudd,
 Yn disgwyl Wil yng ngolau'r lloer
 Ar derfyn dydd.

Clywyd gan Thomas John Roberts, Pwllheli, ddechrau 1945. Bu farw Mai 1945. Yr oedd ganddo stôr o hen ganeuon. Gresyn iddo fynd oddi yma cyn cael cyfle i'w cofnodi.

Gwersi fy Mam

Lah: D



1. Pan oeddwn yn gadael fy nghartref
 A'r byd fel anialwch o'm blaen,
 Yn fachgen difeddwyl, dibrofiad,
 A'm teimlad mor arw â'r maen:
 Ychydig feddyliais pryd hynny
 Y cawsw'n un cilwg na cham,
 Ond pan byddwn bron torri'm calon
 Mi gofiwn hen wersi fy Mam.
2. Ar lawer i noswaith ddrycinog
 Eisteddwn o amgylch y tân,
 Estynnai fy nhad yr hen Feibl
 Ac yna cawn bennod a gân.

Ond pwy ond fy mam rôi gynghorion
 A redant i'm meddwl fel fflam?
 Does neb all ddarlunio ein pleser,
 Roedd nefoedd yng ngwersi fy mam.

3. Tra dalia fy nghalon i guro,
 Tra gallaf ond troedio un cam,
 Mi gofias y gwersi a gefais
 Yn gymysg â dagrau fy mam:
 Pe'r ddaear ymrolia o tanaf
 I ddinistr y rhedwn drwy'r fflam,
 Mi ganaf ar drothwy yr eilfyd
 A'm pwys ar hen wersi fy mam.

Cofnodwyd Ionawr 1945 fel y'i canwyd gan Thomas John Roberts, Pwllheli
 – cof ganddo glywed 'Ehedydd Eifion' yn ei chanu yn y trê'n o Ben-y-groes i
 Lerpwl tua 1890 pan oedd ef (T. R.) ar ei ffordd i America i chwilio am waith.

Hen ffon fy Nain

Doh: G

| s₁ | d :- r | d . t : l . t₁ | d : r | m : d | r : t₁ | d :- | - : s₁
 | d :- r | d . t : l . t₁ | d : r | m : d | r : t₁ | d :- | - : m | f :- . m
 | r . d : t₁ . l₁ | s₁ : s₁ | d : d | r : r | m :- | - : s₁
 | d :- r | d . t : l . t₁ | d : r | m : d | r : t₁ | d :- | -

1. A welsoch chwi hen ffon fy nain?
Mae'n union fel y saeth;
Mae'n hynach heddiw nag erioed
Ond nid yw lawer gwaeth;
Roedd hon mewn bri cyn bod run trê
Yn cario Nain trwy'i hoes,
A'i chario wnaeth hyd byrth y bedd
Heb unrhyw gweryl croes.
2. Pan oeddwn gynt yn blentyn bach
Yn dechrau troedio cam,
I dŷ fy nain y rhoddwn dro
Heb wybod i fy mam;
Fe wyddai Mam yn eithaf da
Er maint fy ofn a'm braw
Na wnaethai undyn i mi gam
Tra byddai'r ffon gerllaw.
3. Ond erbyn hyn mae Nain mewn hedd,
Yn ieuanc ac yn llon,
Heb arwydd henaint ar ei gwedd
Yn rhodio heb ei ffon,
A'r ffon yn gorffwys ddydd a nos
Mewn cornel gynnes gain;
O na chawn innau fynd i'r bedd
Ar bwys hen ffon fy nain.

Alaw ar yr hen eiriau genid gynt yn Nyffryn Nantlle. Canwyd imi gan Mr
E. T. Roberts, Ysgolfeistr, Edern.

Y Bwthyn yng nghanol y wlad

Lah: G

| m₁ | m₁ : l : t | d : d : l | t : m₁ - | - : - : r | d : t : l | se : l : t | l : - : - | - : - : m
 | m₁ : l : t | d : d : l | t : m₁ - | - : - : r | d : l : t | d : r : d | t : - : - | - : - : d r
 | m : m : d | r : m : f | f : m : - | - : - : t d | r : r : t | d : t : l | se : - : - | - : - : m
 | m₁ : l : t | d : d : l | t : m₁ - | - : - : r | d : m : r | d : r : t | l : - : - | - : - :

1. Y bwthyn lle treuliais fy mebyd
 Fan hynny mi hoffwn gael byw,
 I sugno yr awel iach hyfryd
 Mewn tawel gymdeithas â Duw;
 Gan dwrf y pentrefwyr a'u cyffro
 Rwy'n methu cael unrhyw fwynhad,
 Am hynny nis gallaf anghofio
 Y bwthyn yng nghanol y wlad.
2. Mae Natur o amgylch y bwthyn
 Yn gwisgo prydferthwch di-ail,
 A cathlau hoff adar y dyffryn
 A murmur y gwynt yn y dail;
 Yn ymyl y tŷ saf celynen
 A blunwyd gan ddwylaw fy nhad;
 Yn gysgod rhag stormydd mae derwen
 I'r bwthyn yng nghanol y wlad.

3. Symudaf i'r llannerch tra hyfryd,
 Paradwys fy nghalon i yw,
 Ac yno tra pery fy mywyd
 Arhosaf tra byddaf fi fyw;
 Henafiaeth a berthyn i'r bwthyn
 Lle dwedais i gyntaf, 'Fy Nhad',
 A'r fan y ces fam i'm hamddiffyn
 Yw'r bwthyn yng nghanol y wlad.

O gasgliad Mr Bob Owen, Croesor.

Yr Afonig ar ei thaith

Lah: F

The musical score is written in 2/4 time and F major. It consists of five staves of music. Above each staff is a line of rhythmic notation using letters and symbols to indicate note values and rests. The notation is as follows:

- Staff 1: . l : l t | d . d : r . d | t :- | t . l : l . l | m :- | - :- . | . l : l . t
- Staff 2: | d . d : r . d | t :- | m :- | m :- m | l :- | . l : l . t | d . d : r . d
- Staff 3: | t . l : l . t | d . d : r . d | t . l : l . t | d . d : r . d | m :- | m :- | m . m :-
- Staff 4: | m :- | m . m f : m . r | d . d : d . , d | r . r . m : r . d | t . l : m . , m
- Staff 5: | m . m f : m . r | d . t : l . t | d . r : m | m :- | m :- m | l :-

1. Afonig fechan fywiog fad
Pa le'r ei di?
Adref, adref at fy nhad;
Môr, môr i mi!
Mae'r rhwystrau'n fawr, mae'r daith yn hir
Mae'r ffordd drwy lawer diffaith dir,
Gwell i ti oedi'r hynt yn wir;
O, aros di.
Na, na, nid all na mynydd maith,
Nac unrhyw fryn na bro ychwaith,
Fy rhwystro i gyrraedd pen fy nhaith,
Môr, môr i mi.
2. Afonig fechan, aros, paid
Â choleddd twyll,
Fe all mai troi yn ôl fydd raid,
O! cymer bwyll.
O'th flaen mae mynydd uchel serth
A'i ddringo ef nis gall dy nerth;
I'r ysfa hon beth wyt o werth?
O! aros di.
Er mynydd mawr ni lwfrhaf,
Cans ceisio dringo hwn ni wnaif
Ond heibio iddo'n ddiddig af.
Môr, môr i mi.
3. Afonig fechan, yma'n awr
Da yw dy fod;
A pham y mae am gefnfor mawr
Dy ddyfal nod?
Mae'th eisiau ar y felin draw,
Ac ar y weithfa wlân gerllaw,
Cyd-ddeisyf wnânt yn daer ddi-daw,
O! aros di.
Gweinyddaf arnynt wrth fynd trwy
Ac ar laweroedd gyda hwy,
Er hyn fy llef a fydd fwy, fwy,
Môr, môr i mi.

4. Afonig fechan, peraidd sawr
Sydd ar dy lan,
Ac mae'r planhigion gwyrdd eu gwawr
Yn harddu'r fan;
Mae'r helyg ystwyth uwch dy don
A'i blodau hoff o'th gylch yn llon
Yn dweud, gan bwyso ar dy fron,
O! aros di.
Cânt fy nifyrru ar fy nhaith,
Ond myned rhagom fydd fy ngwaith
Nes mynd adref – dyma'm hiaith,
Môr, môr i mi.
5. Afonig fechan, hardd i ni
Dy wedd yn awr,
Ond beth a ddaw ohonot ti
Mewn dyfnder mawr?
Mae'r eigion yn ddirgelwch prudd,
Dychryni rhag eu geudod cudd,
Ac na ddos iddo mor ddi-ludd,
O! aros di.
Gwir fod y dwfn yn ddieithr wlad,
Ond hyn a wn – mae'n gartre 'Nhad;
Caf fy nghroesawu yn ddi-frad.
Môr, môr i mi.

Geiriau y Parch Roger Edwards ganwyd flynyddau yn ôl yn Llŷn ac Eifionydd gan un enwog yn yr ardal – Owen Jones, Plasgwyn. Cofwyd hwynt a'r alaw gan fy hen ffrind annwyl, Gwynedd Davies gynt o Bencaenewydd yn Eifionydd a chofiais innau hwynt ar ei ôl. [*Mewn llaw wahanol ceir y nodyn*: 'Ceir y gerdd yng nghasgliad T. A. Levi o Ganeuon Cymru a gyhoeddwyd yn 1896 – *Gol.*]

Hen Forwyn bach annwyl fy Nain

Doh: Ab

| s | s : f : m | m : r : d | l : d :- | - :- : d . r | m : r : m
 | s : f : m | r :- :- | - :- : s | s : f : m | m : r : d | l : d :-
 | - :- : r | m : f : m | r : m : r | d :- :- | - :- : m | m : r : d
 | t : d : t | t : l :- | - :- : m | m : r : m | fe : m : fe | s :- :-
 | - :- : m . f | s : s : s | l : s : f | m : s :-
 | - :- : d . r | m : f : m | r : m : r | d :-

1. Rwy'n cofio pan oeddwn yn ieuanc
 Fel yr hoffwn gael crwydro o hyd
 I edrych am Nain i'r Tŷ Canol,
 Hen wreigan fach noblia'n y byd.
 Eisteddwn am oriau rai prydiau
 Ar aelwyd y bwthyn bach cain
 Ac edrych bob cyfle a gaffwn
 Ar forwyn fach annwyl fy nain.

2. Fe hoffwn gael gair gyda Neli
Cyn ymadael â'r bwthyn bach clyd
A theimlwn fy hunan trwy hynny
Fel pe baem etifedd y byd.
Fe wrandais yr adar yn canu
Ond nid oedd yr uchaf ei sain
I'w gymharu â'r llais oedd gan Neli,
Hen forwyn bach annwyl fy nain.
3. Yn amlach y byddem yn cwrddyd
Â Neli wrth gamdda yr hydd,
A mynych y byddwn yn dychwel
A'm dagrau yn llif ar fy nghrudd;
Dywedai hi wrthyf bob amser
O na chawsw'n chwaneg o'r rhain;
Toedd neb yn y byd yn gyffelyb
I forwyn fach annwyl fy nain.
4. Rhyw ddiwrnod daeth i ddeall
Fod rhywbeth cydrhyngom ein dau
A cheisio ei gorau a ddarfu
I rwystro i'r cwlwm dynhau;
Ond crwydro a wneuthum er hynny
Trwy ddyfroedd, tros gloddiau a drain
At fenyw anwylaf y ddaear,
Hen forwyn fach annwyl fy nain.
5. Roedd clychau yr eglwys rhyw ddiwrnod
Yn canu'n soniarus dros ben
A'r haul ar ei orau yn t'wynnu
A chwmwl nid oedd yn y nen;
Wrth ochor yr allor y safwn
Gan roddi y fodrwy gron gain
Yn gwlwm na thorrai hyd angau
Ar forwyn fach annwyl fy nain.

6. Mae llawer i flwyddi wedi treiglo
 Er pan yr ydym yn ŵr ac yn wraig
 A llawer i storom a gawsom
 Ond mae'r cwlwm mor gadarn â'r graig.
 Cyd-dynnu yr ydym er hynny
 Mewn bwthyn bach tawel a chain,
 Ac mae Nel fy ngwraig r'un mor siriol
 Â hen forwyn fach annwyl fy nain.

(Ioan Peris, Tŷ Mawr, Treflys, Portmadoc.)

Y Gweithiwr Tlawd

Lah: E



1. O paid gormesu'r gweithiwr tlawd
 Sy beunydd dan ei bwn!
 Os ydwyd ti yn blentyn ffawd
 O paid dirmygu hwn!
 Llafuria'n fore ac yn hwyr
 A'i chwys yn fwyd i'r llawr,
 Efallai heb damaid, nef a'i gŵyr,
 Dros lawer deuddeg awr.

2. O paid gormesu'r gweithiwr blin,
Mae ganddo deulu trwm
Heb neb i ennill ond ei hun,
Rho dro i'w fwthyn llwm;
Cei yno wraig a'i gruddiau'n llwyd
A'i gwisg yn hynod wael,
A'r bychain tlawd yn gofyn bwyd
Ond O! heb ddim i'w gael.
3. O paid gormesu'r gweithiwr tlawd,
O gwêl mor wael ei lun!
A chofia hyn – mae iti'n frawd;
Bydd dirion wrtho, ddyn!
Cei di ddanteithion y pryd hyn,
Caiff yntau grystyn sych;
Trwy lafur hwn cei siwgr gwyn,
A gwisg, a phalas gwyh.
4. O paid gormesu'r gweithiwr tlawd,
Efallai try y rhod
Pan welir di heb wenau ffawd
Na cheiniog yn dy god;
Ni charit ddioddef dan dy bwn
Mo bwys haearnaidd droed,
A than ei gwasg y teimlet, gwn,
Yn ddwysach nag erioed.
5. O paid gormesu'r gweithiwr tlawd,
Mae cyfoeth gan ei Dad;
Creawdwr bydoedd yw ei Frawd,
Cyn hir caiff yntau'i stad;
O wlad y gormes hed ei gri
I glustiau'r cyfiawn lys;
Ofnadwy fydd dy gyfrif di
Pan ddaw yr olaf wŷs.

Canwyd i mi gan Dr O. Wynne Griffith, Pwllheli. Ceir hi hefyd yn y llyfr gwerthfawr *Forty Welsh Traditional Tunes* fel y mae yma ac eithrio yr ail linell. Cof gan Dr Griffith glywed John Lloyd, Factory Penprys, Pentreuchaf, yn ei chanu iddo tua 1890 neu cyn hynny. Gweithiwr ar ochr y ffordd oedd John Lloyd a mynych y pasiai y Doctor ef ar ei daith yn ei waith fel meddyg.

‘HAI HAW BRITHI I’R BUARTH’: GOLWG AR GANEUON GWAITH IOLO MORGANWG

Leila Salisbury



Llun o Iolo Morganwg: Elijah Waring,
*Recollections and Anecdotes of Edward
Williams* (London, 1850).



Leila Salisbury

Y mae Iolo Morganwg yn enw poblogaidd iawn yn ein diwylliant Cymraeg ac yn arbennig efallai yn sgil ei gyfraniad aruthrol i'n traddodiadau pwysicaf, megis Gorsedd y Beirdd a'r eisteddfod. Yn ogystal â'i weithgarwch llenyddol ef hefyd oedd un o gasglwyr alawon gwerin cyntaf Cymru. O'r herwydd, mae ei gyfraniad yn sicr yn amhrisiadwy i ni'r Cymry.¹

Ceir ar wasgar yng nghasgliad llawysgrifol Iolo gyfanswm o 86 o alawon gwerin Bro Morgannwg,² ac mae deg ohonynt yn alawon galwedigaethol, a'r rheini yn amrywio o 'Y Pannwr',³ a 'Can y Maensaer, neu'r Maensaer Mwyn, cyffredin ym Morgannwg',⁴ i 'Cainc y Cathreiw'r',⁵ a 'Cainc yr odryddes/arferedig ym Morgannwg ynghyd ag amryw eraill o geinciau 'Hai haw Brithi i'r buarth'.⁶ Er mai deg alaw yn unig sy'n darlunio hynt a helynt y werin wrth ei gwaith, ceir hefyd ddeg alaw sy'n dwyn yr enw 'triban', er

nad yw'r un ohonynt yn cofnodi diwydiant yr oes fel y cyfryw.⁷ Nid yw'r ffaith mai triban yw mesur y gerdd yn golygu mai cân waith ydyw serch hynny, gan fod tribannau'r ddeunawfed ganrif yn fesur poblogaidd fel cyfrwng i amrywiol weithgarwch.⁸ Felly ceir alawon yng nghasgliad Iolo sy'n dwyn yr enw 'triban' er nad ydynt yn gysylltiedig â gwaith.

Cofnododd Iolo amryw o'r alawon gwerin mewn llyfryn bychan o'r enw 'Casgledydd Penn Ffordd'. Mae'r casgliad hwn yn gyfuriog o sylwadau a nodiadau eglurhaol yn llawysgrifen Iolo, yn ogystal â'r alawon eu hunain wrth gwrs, sy'n ffynhonnell werthfawr. Llyfryn bychan oedd y 'poclyfr';⁹ hwn, neu'r 'Casgledydd Penn Ffordd',¹⁰ a oedd ganddo pan âi ar ei deithiau,¹¹ a cheir tystiolaeth ynddo sy'n cynnwys 'amrafaelion o Goffadwriaethau, a sylwadau perthynol, gan mwyaif i Forganwg, sef Hynafiaethau, Prydyddiaeth sathredig, Diarhebion, Geiriau ag ymadroddion Cymreig, Ceinciau ac erddiganau, hên Ddefodau ag arferion'.¹² Profa'r rhestr hon i Iolo ymroi'n gyfan gwbl, a hynny gyda chryn afiaith, i fynd ati o'r newydd i gywain a chroniclo amryfal feysydd a ddôl o dan gochl diwylliant gwerin Bro Morgannwg. Fodd bynnag, nid chwilota drwy dudalennau'r 'Casgledydd Penn Ffordd' yw'r unig fodd o ddod i adnabod a dysgu mwy am gefndir yr alawon gwerin a gasglodd Iolo yn ei fro enedigol.¹³ Yn wir, mae'r casgliad hwn yn ffynhonnell werthfawr ar gyfer y darlennydd cyffredin sy'n awyddus i ddarganfod peth o'r dirgelwch a'r rhamant sy'n cwmpasu'r alawon.

Wedi i Iolo ddychwelyd i Fro Morgannwg aeth i'r afael â chofnodi a chasglu alawon gwerin ei fro enedigol rhwng 1795 a 1806.¹⁴ Dywed Daniel Huws mai 'fo oedd casglwr cyntaf caneuon llafar ei wlad',¹⁵ ac yng ngeiriau Dr Meredydd Evans:

Arbenigedd Iolo ydi mai fo yw'r cyntaf sydd yn mynd o gwmpas ac yn cofnodi'r pethau yma [llên gwerin ac alawon gwerin] – wedi tyfu o'r mudiad hynafiaethol.¹⁶

Ac yntau wedi'i drwytho yn nhraddodiadau'r gorffennol, wedi'i ddylanwadu gan feddylfryd a gweledigaeth Edward Lhuyd, wedi iddo ffurfio carfan o gyfeillion ymhlith alltudion Cymreig Llundain y dydd¹⁷ dechreuodd ymddiddori mewn meysydd eraill gan gynnwys barddoniaeth, rhyddiaith, hanes, llên gwerin, amaethyddiaeth ac archaeoleg.¹⁸ O ganlyniad, cofnododd ran gynhenid o etifeddiaeth a diwylliant gwerin Bro Morgannwg y ddeunawfed ganrif.

Gellir honni mai cyfnod hynod fuddiol a chynhyrchiol oedd arhosiad Iolo Morganwg yn Llundain rhwng 1773 a 1777, ac yn ddiweddarach, yn ystod ei ail ymweliad â'r ddinas rhwng 1791 a 1795.¹⁹ Fodd bynnag, fel y dywed Daniel Huws, ni chydiodd yr awydd ynddo i gasglu alawon gwerin ei fro hyd nes iddo ddychwelyd i Gymru:

Cyd-ddigwyddiad efallai, ond un trawiadol, yw i Iolo fynd ati, fel y gwnaeth Burns a Clare, toc wedi iddo gefnu ar y brifddinas.²⁰

Roedd hyn yn arwydd o gryfder dylanwad y mudiad hynafiaethol ar feddwl a dychymyg Iolo. Yn dilyn ei gyfnod yn Llundain, lle gwelid berw diwylliannol a chymdeithasol, cafodd ei ysbarduno i ymhél â'r bywyd hwnnw drwy gywain, casglu, diogelu, a chofnodi amryw agweddau ar fywyd cefn gwlad Cymru'r oes. Cadarnheir hyn gan Dr Meredydd Evans:

Edward Lhuyd yn niwedd yr ail ganrif ar bymtheg yn anfon yr holiadur, y 'Parochialia', yn gofyn beth yw arferion y plwy', beth y mae pobl yn ei wneud, sut mae nhw'n chwarae, beth yw eu hofergoelion nhw, beth yw eu chwedlau nhw ... dechrau cymryd diddordeb mewn beth y mae pobl yn ei wneud, nid yn unig beth y mae brenhinoedd a'r dosbarthiadau uchaf yn ei wneud, ond beth mae pobl gyffredin yn ei wneud.²¹

Sylweddolodd Iolo werth y traddodiad gwerin yng Nghymru, ac ef oedd y cyntaf i gydnabod pwysigrwydd cofnodi a chywain caneuon llafar gwlad ei gydgenedl er mwyn eu diogelu rhag mynd i ddifancoll.²²

Beth oedd cymhelliad Iolo i ddechrau casglu alawon gwerin yn y lle cyntaf? Cred Daniel Huws mai dylanwad Robert Burns,²³ yn anad neb arall, oedd i gyfrif am hau'r had yn nychymyg ffrwythlon Iolo yn ystod ei gyfnod yn Llundain:

Anodd credu na fyddai llwyddiant Burns, gwerinwr arall o fardd o wlad ramantus, wedi gwneud argraff ar Iolo, ac na fyddai wedi ymateb yn ei ffordd arferol, trwy gymhwyso a dynwared. Gwyddom oddi wrth restr o'r llyfrau oedd gan Iolo yn Llundain yn 1794 fod ganddo gopi o waith Burns a dwy gyfrol arall o ganeuon Albanaidd.²⁴

Cymerai Iolo sylw penodol o arferion a ffordd o fyw y bardd o'r Alban, ac mae'r ffaith iddo ddarllen bywgraffiad Burns gan ddewis dyfyniadau penodol ohono, megis 'Burns usually composed while walking in the open air',²⁵ yn tystio iddo gael cryn ysbrydoliaeth gan ei gyfoeswr Celtaidd, a

hynny flynyddoedd lawer wedi iddo ef a'i wraig, Margaret (neu Peggy fel y gelwid hi), ymgartrefu yn Nhrefflemin.²⁶

Yr hyn a nodweddai waith ysgolheigaidd Iolo yw ei ymwybyddiaeth lwyr o alawon gwerin, llên gwerin a hanes diwylliant traddodiadol ei famwlad. Yn sgil y Chwyldro Diwydiannol trawsffurfiwyd yr hinsawdd amaethyddol yn llwyr yn ystod hanner olaf y ddeunawfed ganrif a gwelwyd diboblogi yng nghefn gwlad Cymru.²⁷ O ganlyniad, yn ogystal â diddordeb Iolo mewn hynafiaethau, llwyddodd y newid cymdeithasol hwn ym mywydau'r bobl gyffredin i'w ysgogi a'i ysbrydoli i ddal gafael ar drysorau'r gorffennol. 'Enwch chi nhw, roedd ganddo ddiddordeb ynddyn nhw, y geiriau, y farddoniaeth ... does na ddim byd y tu allan i gylch ei ddiddordebau ef'²⁸ oedd sylw Dr Meredydd Evans ar ei weithgaredd.

Yn ei gyfrol *Welsh National Music and Dance*, rhennir alawon cenedlaethol Cymru i ddwy garfan gan W. S. Gwynn Williams²⁹ – y garfan gyntaf yn alawon a cheinciau'r telynorion a gyhoeddwyd yn bennaf yn ystod y ddeunawfed a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg,³⁰ a'r ail garfan yn alawon llafar gwlad y werin bobl,³¹ sy'n cynnwys baledi'r cantorion lled-broffesiynol ac alawon gwerin y bobl gyffredin.³² Dosberthir y rhain ymhellach ganddo fel a ganlyn:

1. Traditional Harp Airs
2. Folk Songs: a) Carol and Ballad Tunes
b) Folk songs proper

The Folk songs proper might be further subdivided into:

1. Love Songs
2. Songs associated with ancient customs
3. Singing-Games
4. Solo and Chorus Songs³³

Wrth ystyried casgliad cynhwysfawr Iolo o alawon gwerin Morgannwg yng ngoleuni'r wybodaeth uchod, gwelir bod y mwyafrif helaeth ohonynt yn perthyn i gategori'r alawon sy'n gysylltiedig â hen arferion brodorol Cymry'r dydd. Yn eu plith, ceir alawon galwedigaethol, megis caneuon godro a gyrru'r ychen, yn ogystal â thraddodiadau'r flwyddyn, megis canu gwasael ac arferion y Flwyddyn Newydd.



LIGC 13146A, t. 421, 'Cân Crottyn y Gwartheg, neu - Y Fwch wynebwen lwyd, cyffredin ym Morgannwg'

Yn y casgliad o alawon gwerin y llwyddodd Iolo i'w cywain,³⁴ gwelir bod elfen gymdeithasol, frodorol yn hawlio sylw yn amlach na pheidio. Nid yw'n esgeuluso cyd-destun amaethyddol na chymdeithasol y caneuon, sy'n arwydd ei fod yn parchu pob agwedd ar y traddodiad gwerin yng Nghymru. Efallai mai'r rheswm am hynny yw'r ffaith ganlynol:

Dychwelodd i Drefflemin yn 1795, ac yn 1796 cafodd waith o dan y

Bwrdd Amaethyddiaeth i ddisgrifio cyflwr y tir a'r ffermydd ym Morgannwg a sir Gaerfyrddin. Bu'n cynorthwyo 'Gwallter Mechain' mewn cyfnod diweddarach pan oedd y gŵr hwnnw'n paratoi ei adroddiad ar gyflwr amaethyddiaeth yng Nghymru.³⁵

Felly yr oedd Iolo yn gyfarwydd â'r sefyllfa amaethyddol yn ne Cymru yn ystod y cyfnod y bu'n cywain alawon gwerin Bro Morgannwg yr oes.

Ynghlwm wrth rai o'r alawon ceir nodyn eglurhaol yn esbonio'r cyd-destun cymdeithasol sy'n angenrheidiol i ddeall diben a phwrpas y gân. Er enghraifft, yn un o'i lawysgrifau disgrifir yr alaw 'Cainc y Cathreiw'r' fel a ganlyn:

This cainc y Cathreiw'r, or cainc yr ychain, a kind of a chant that is often altered so as to adapt it to all metres whatever. I know not how to time it well[. T]here are several Ploughboy chants besides [this] in Glamorgan[. T]he Milkmaids have also their chants. I wish we could procure the Rants de vaches of Italy, more particularly of Savoy and Switzerland, where, I am told they are always sung to the oxen and cows. [The] circumstance of these chants or tunes being common in Italy, induces me to suppose that our Glamorgan and West Monmouthshire derive them from the Romans, who settled numerously amongst the Silures, and Caerllion ar Wysg was one of the three Roman colonies that were planted by the Romans in this Island.³⁶

Yn yr un modd, ychwanegir y nodyn eglurhaol hwn wrth ymdrin â 'Cainc yr odryddes':

This also, and others, are often varied very much, and adapted, like Cainc y Cathreiw'r, to pennillion of various metres[. T]hese chants are often tuned with the words Huw Puw, by nurses, to lull infants asleep. The Gloucestershire [*sic*] farmers and dairy-men who are fond of the Glamorgan cattles often curse the Ploughboys and Milkmaids of Glamorgan, for oxen will, frequently, neither work, nor cows stand to be milked, without their accustomed music, and there is but little music in the Gloucestershire Varmers.³⁷

'Dyn ei dalaith',³⁸ chwedl Allan James, sy'n traethu yn y dyfyniad uchod. Prawf pellach mai pwll diwaelod oedd ei ddealltwriaeth o ddiwylliant gwerin ei famwlad, ffactorau cymdeithasol yr oes, a hyd yn oed hinsawdd amaethyddol ardaloedd y tu hwnt i Glawdd Offa. Gwyddys yn bur dda sut


yr aeth Iolo ati i ddyrchafu rhinweddau brodorol Bro Morgannwg, a hynny ar draul arferion a thraddodiadau gogledd Cymru, ond gwelir yn y dyfyniad uchod sut y dyrchafai Iolo yr arfer unigryw hwnnw o ganu gyda'r ychen, o'i gymharu â siroedd cyfagos Lloegr. Nid casglu a chofnodi'r alawon yn unig a wnaeth ond yn hytrach, drwy eu priodoli i gyfnod a chyd-destun penodol, llwyddodd i ddiogelu dull arbennig o fyw a nodweddai gyfnod unigryw yn hanes Cymru.

Pryder rhai o haneswyr ac ysgolheigion y presennol yw fod cofnodi alaw werin ar bapur yn fodd o golli'r cyd-destun ehangach. Fel y dywed Allan James:

Mae cofnodi'n sicrhau parhad, ond wrth gofnodi mae'r gân, wrth reswm, yn gyfansoddiad alltud, yn bodoli'n annibynnol ar y sefyllfa gymunedol a fu'n gefndir i'w chreu a'i datblygiad.³⁹

'Alltud' ac 'annibynnol' yw'r geiriau allweddol yn y dyfyniad hwn. Unwaith y datgysylltir yr alaw oddi wrth y cyd-destun ehangach, a pheri iddi fod yn 'annibynnol', y mae'r alaw bellach yn 'alltud' ac nid yw'n ddealladwy yn ei ffurf newydd, heb y cefndir perthnasol. 'Mae na ormod o drafod ar ganu gwerin mewn *vacuum*, mewn gwagle. Dydyn nhw ddim yn gwneud sens, dim ond o fywyd pobl ac o arferion pobl'⁴⁰ yn ôl Dr Meredydd Evans. Fodd bynnag, nid dyma'r hyn sy'n nodweddu'r alawon gwerin a gasglodd Iolo:

Cydnabu Iolo werth arbennig y penillion a'r tribannau 'galwedigaethol' hyn ac o ganlyniad cofnodwyd casgliad helaeth ohonynt yn ei lawysgrifau ... byrdrwn cyflwyniad Iolo ar fwy nag un achlysur oedd bod penillion o'r fath yn rhan o *repertoire* cerddorol y 'cathreiw'r', sef y 'ploughboy' a ofalai am yr ychen, penillion a fyddai'n difyrru'r dydd drwy esmwytháu gwaith y cantor o gathreiw'r a'r ych fel ei gilydd.⁴¹



LIGC IAW 145, f. 18, 'Y Pannwr'

Pwysleisid pwysigrwydd cynnal a chadw, nid yn unig yr alawon gwerin eu hunain, ond hefyd y sefyllfa gymdeithasol a gynhaliat'r diwylliant gwerin, megis y twmpath dawns a'r ffeiriau.⁴² Dyma'r bywyd a esgorodd yn y pen draw ar alawon gwerin megis 'Hob y dyri dando',⁴³ 'Triban Morganwg',⁴⁴ 'Triban Gwŷr Morgannwg',⁴⁵ 'Cân y Maensaer Mwyn',⁴⁶ 'Cân Crottyn y Gwartheg',⁴⁷ 'Cainc yr odryddes'⁴⁸ a 'Cainc y Cathreiw'r'⁴⁹ sy'n ymddangos yng nghasgliad Iolo.

Cainc y Cathreiw'r.

Morganwg

Fe gwyn yr haul er machlud heno

Fe gwyn y lloer yn ddisglair etto.

Cwyn blodau'r haf o'r ddŵear dirion,

Ond byth, o! byth! ni chwyn fy nghalon ho

dere dere dere dere

ho ho ho.

LIGC 13146A, t. 436, 'Cainc y Cathreiw'r' – copi union o nodiant Iolo, wedi'i osod ar Sibelius

O ystyried dyfyniad Allan James uchod, sy'n cyfeirio at ddealltwriaeth Iolo o dribannau 'galwedigaethol' ei fro, mae'n amlwg mai'r elfen gymdeithasol a ddenai sylw Iolo yn fwy na dim arall. Er y gellid honni nad oedd yn fawr o gerddor gan mai digon cyfyng oedd ei ddawn gerddorol wrth nodi'r alawon hyn, mae'r dystiolaeth a geir o'i fagwraeth a'i ddiddordebau yn ystod ei fachgendod yn profi gwir hoffter Iolo o'r gerddoriaeth.⁵⁰ Yn wir, er na fu iddo erioed dderbyn diwrnod o addysg ffurfiol, dysgodd sut i ganu'r fflwiwt gyda chymorth ei fam, ac o ganlyniad etifeddodd ei diddordeb cynhenid hi mewn cerddoriaeth.⁵¹ Yn ystod ei gyfnod yn Llundain yn y 1770au honnai Iolo, 'I had before acquire[d] a slight smattering in the principles of music ... on the art of composing music I for some time studied it and acquire[d] a slight knowledge of it'.⁵² Serch hynny, nid cerddor wrth reddf ydoedd. Fel y dywed Daniel Huws:

Yn wyneb ei ddiffyg gallu, mwyaf i gyd y clod i Iolo am sylweddoli fod alawon llafar gwlad yn bwysig ac yn haeddu eu casglu.⁵³

Mae'r sylwadau a geir gan Iolo i gyd-fynd ag amryw o'r alawon a gasglodd yn awgrymu cymysgedd o hiraeth a chariad at Fro Morgannwg. Dyma gân a gyfansoddodd ym mis Mai 1777, wrth ddychwelyd i Forgannwg 'wedi bod flynyddau lawer yn Lloegr':⁵⁴

Teg adar tew goedydd yn llawn eu llawenydd
I'r addien foreddydd, a'u gwenydd a gawn;
Cain ydyw caniadau hoyw adlais a'u hodlau,
'Rhyd wigau a dolau blodeulawn.

Pib organ pob ergyd, nad addwyn dedwyddyd,
Clymiadau llais hyfryd y gwynfyd ar gân,
Ac awen y gwiall yn toddi'n y tewddail,
Serch miwail yn arail tôn eirian.

Bûm hir o flynyddoedd, ansiriol amseroedd,
Yn aros yn nhiroedd a siroedd y Sais,
Ond eilydd yn unman i siriol Fro seirian
Gwladfor gan fwyn wylan ni welais.

Caf feddu pob hawddfyd, awr heddwch, a rhyddyd,
Caf wenferch, caf wynfyd, a bywyd heb wg,
Caf serch ac anerchion, a pharch i 'mhenillion
Gan ddynion tai gwynion Morgannwg.⁵⁵

'Glamorgan patriotism'⁵⁶ yw'r disgrifiad a rydd R. J. W. Evans ohono, ac yn wir, gellid cymhwyso'r disgrifiad hwn i'r dyfyniad uchod. Ymfalchïai Iolo yn fawr yn rhinweddau Bro Morgannwg, ac wrth loffa drwy ei gasgliad o alawon gellid honni bod themâu megis brogarwch a brawdgarwch yn tra-arglwyddiaethu, yn enwedig yn y caneuon llafar gwlad sy'n dynodi galwedigaeth o ryw fath, megis '[Triban Morgannwg]'⁵⁷ a 'Cainc y Cathreiw'r'.⁵⁸

Er i Iolo gael ei ddiwallu o safbwynt diwylliannol, ysgolheigaidd a llenyddol yn ystod ei gyfnod yn Llundain, ysai am gael dychwelyd i'w gynefin. Isod gwelir cerdd a gyfansoddodd ar 9 Medi 1773 sy'n mynegi'r gwrthgyferbyniad rhwng bywyd y ddinas a bywyd y wlad,⁵⁹ yn ogystal ag adleisio 'Cywydd Hiraeth' o waith Ieuan Fardd:

O siriol Fro gysurus
Morgannwg olwg hwylus,
Le cariadus, moddus, mad,
Y ffois fel dall rhy wallus
I ganol ffau drygionus
Milod rheipus, gwydus gad.

Gadewais gaeau Dawon
A'm dethol wiw gymdeithion,
Pryffwnt heirddion beirddion byd,
A cheisiais wlad y bradon,
Oes isel, gyda Saeson,
Hyll daeogion, gweision gwŷd.

I dawl Fro flodeuog,
Gwladforgan wiwlan, elwog,
Mwyndir serchog, heulog, hardd.⁶⁰

Gwelir bod y mwyafrif o'r alawon galwedigaethol yn mynegi'r hyn a ddisgrifir uchod, sef brawdgarwch a chymdeithas amaethyddol, wareiddiedig. 'Dyma Morgannwg y cyfnod, does na ddim llawer o dystiolaeth, os oes na dystiolaeth o gwbl, ei fod o wedi bod yn hel y tu allan i Forgannwg',⁶¹ yn ôl Dr Meredydd Evans. Yn wir, dyma fro Iolo, y fro a anfarwolwyd ganddo drwy gyfrwng ei lawysgrifau a'i alawon gwerin.

Yn eu cyfrol *Canu'r Cymry*, rhydd Dr Meredydd Evans a Phyllis Kinney

ddarlun o gefndir cymdeithasol yr alaw ‘Cainc yr Aradwr’:

‘Cainc y Cathreiwyr’ yw enw Iolo arni: ‘cathreiwyr’ yn enw ar y bachgen a arferai yrru’r ychen, yn rhannol trwy ganu iddynt ac yn rhannol trwy eu cethru â ffon hir gyda phigyn ar ei phen blaen.⁶²

‘Y gŵr â’r irai’⁶³ yw’r disgrifiad a rydd Gerallt Gymro o’r cathreiwyr. Ystyr y term ‘irai’, yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru*, yw ‘gwialen neu ffon flaenllem a ddefnyddid gynt i yrru neu i gymell ychen’.⁶⁴ Yn y ddeunawfed ganrif, yr arfer a geid wrth aredig gyda’r ychen oedd eu cyplu o dan yr iau, ac ar adegau gwelwyd cynifer â chwe phâr yn tynnu’r un aradr.⁶⁵ Esbonnir hyn ymhellach:

Pren cam oedd yr iau, oddeutu pum troedfedd a hanner o hyd a chwe modfedd o led, yn gorffwys ar ysgwyddau’r ychen, ac yna yr oedd dwy ddôl yn dyfod i fyny trwy’r iau am yr wddf, a phin pren yn eu sicrhau hwy yn yr iau, a chadwyn yn myned o’r iau rhwng yr ychen i’r aradr bren ... gofynnai hynny am ddau fachgen ac un dyn i’w harwain.⁶⁶

Mae Phyllis Kinney, Dr Meredydd Evans a Francis Payne o’r farn mai wysg ei gefn y cerddai’r cathreiwyr er mwyn cymell yr ychen, sy’n synhwyrol wrth ystyried y dyfyniad isod:

Onid y ffordd orau i wneud hynny [canu i’r ychen] oedd eu wynebu a bod mor agos ag oedd bosibl i’r rhai a arweiniai’r wedd? Golygai hynny, wrth gwrs, ei fod yn cerdded tuag yn ôl. Ac wrth gerdded fel hyn ... gallai hefyd fod o gymorth i’r aradwr i dorri ei gŵys yn union.⁶⁷

Cadarnheir hyn ymhellach gan Francis Payne:

Yr oedd yr hen wedd ychen yn nerthol, ond fe symudai’n araf iawn. Mor araf y symudai’r ychen fel y cerddai’r geilwad o’u blaenau yn wysg ei gefn, gan eu galw ymlaen ar gân.⁶⁸

Yn wyneb y dystiolaeth uchod mae’r alwad, sef cymal clo y mwyafrif o’r tribannau, yn arwyddocáu lleoliad y cathreiwyr wrth ei waith, ac nid y cathreiwyr yn unig ond hefyd yr odryddes wrth odro.⁶⁹ ‘Dere, dere, dere, dere, ho o ho’⁷⁰ yw’r alwad a geir yn ‘Cainc y Cathreiwyr’, a defnyddiwyd yr un math o arddull yn ‘Cainc yr odryddes’, sef ‘haw, haw, Brithi i’r buarth ... hai o haw, Brithi fach’.⁷¹

de Mamm...
swell *of their*

Haw, haw, Brithi i'r Buarth. Caine yr Dryddes.
neu gainc y Faerones.

haw, haw, Brithi i'r Buarth, Brithi i'r Buarth, haw, haw, haw, Brithi
f. of saf, saf o da forwyn. saf o da forwyn - saf o saf, saf o

Buarth - haw, haw, haw, Brithi, haw, haw, haw, Brithi fack, haw, haw,
forwyn - saf o da forwyn, saf o da forwyn fack, saf o da

Brithi, haw, haw, haw, Brithi fack, haw, haw, Brithi fack, haw o da
forwyn saf o da forwyn fack, saf da forwyn fack, saf o da

o haw, haw o haw, Brithi i'r Buarth. haw o haw, Brithi fack
f. of saf, saf o saf, saf o da forwyn, saf o da forwyn fack.

f. of saf, saf o saf, saf o da forwyn. || in quicker time, the same strain:
haw, haw, haw, Brithi i'r Buarth.

This also, and others, are often varied very much, and adapted, like Caine y Caerdydd, to penillion of various metres, these chants are often tuned with the words hau haw, by nurses, to lull infants asleep. The Gloucestershire farmers and dairy-women who are fond of the Glamorgan Cattle often use the Whitgorg and Whitmaids of Glamorgan, for Ogen with, frequently, neither word, nor hau heard to be with, without their Gloucestershire Whit. And there is but little music in the Gloucestershire Whit.

LIGC 13221E, t. 93, 'Haw, haw, Brithi i'r Buarth. Caine yr odryddes, neu gainc y Faerones'

Richard Thomas o 'Homri Farm' ger Caerdydd oedd 'y diweddaf o'r aredwyr a oedd wedi arfer canu tribannau wrth aredig gyda'r ychain'⁷² a hynny tua 1870au. Nodir ymhellach yng ngwaith Allan James bwysigrwydd y triban fel cyfrwng allweddol wrth aredig y tir gyda'r ychen, a'r ffaith nad oes modd datgysylltu'r naill oddi wrth y llall:

Dyma Richard Thomas yn siarad o brofiad am yr arfer o ganu i'r ychen 'nad oedd modd i'w cadw i weithio'n ddiddig heb ddal ati i ganu iddynt' gan gofio yr un pryd y cyngor a gawsai gan ei dad: Ambell

waith, pan fyddai ei lais bachgennaidd wedi crygu wrth ganu yn awel lem y gwanwyn, ac yntau wedi distewi am dipyn, fe ddeuai llais ei dad ar draws y cwysi: 'Gwed rwpeth wrthi nw, fachan!'.⁷³

Mae geiriau D. Roy Saer yn taflu mwy o oleuni ar bwysigrwydd y triban fel rhan annatod o fywyd gwerin sir Forgannwg:

Yno [y deheudir] – ac ym Morgannwg yn benodol – y parhaodd yr arfer o aredig ag ychen hwyaf yng Nghymru (hyd tuag 1880). Ar fesur triban y mae'r rhan fwyaf o'r caneuon ychen a gadwyd o Forgannwg.⁷⁴

Ymddengys disgrifiad manwl o ddull yr aradrwyr a'r cathreiwyr ill dau, a'u harferion a'u swyddogaethau wrth yrru'r ychen yn erthygl Phyllis Kinney a Dr Meredydd Evans ar ganu'r ychen. Yma nodir y gwahaniaeth a gafwyd rhwng y cathreiwyr, neu'r geilwad,⁷⁵ 'yn eu symbylu [yr anifail] i dynnu'r aradr ac fe wnâi hynny gyda chymorth dau beth: yr irad, neu'r swmbwl, neu'r gethren (gwialen hir â phigyn ar ei blaen); a'i lais, i godi eu calonau trwy ganu iddynt',⁷⁶ a'r aradrwr, sef hwnnw a oedd 'yn cyflawni un swyddogaeth ... torri'r gŵys'.⁷⁷ Dengys hyn nad yr aradrwr felly oedd yn canu i'r ychen, ond yn hytrach y cathreiwyr. Yr oedd angen i'r cathreiwyr feddu ar grebwyll cerddorol a llais canu yn ei waith yn ysgogi'r ychen.

Defnyddid y triban ym Mro Morgannwg fel mesur i ganu arno yn ystod gwyliu a chwaraeon yr ardal, ac wrth ddarlunio cefndir cymdeithasol ac amaethyddol y cyfnod. Cenedlaethau i gyfeiliant y delyn a'r crwth yn ystod gwyliu'r fro; byddid yn canu a dawnio i geinciau megis 'Llanbedr ar fynydd' a 'Triban Morgannwg',⁷⁸ sydd ill dwy ar fesur triban.⁷⁹ Un o geinciau enwocaf y sir oedd 'Triban Morgannwg' a cheir amrywiadau ar y gainc hon a weddai i benillion a geiriau gwahanol. Noda Lewis Morris, 'every county has its particular Tune, to which these verses were sung'⁸⁰ sy'n taflu goleuni pellach ar y cyfrwng. Cyfrwng busnes, ar lawer ystyr, oedd y gwyliu hyn i nifer o drigolion yr ardal, yn enwedig i'r cerddorion hynny a ddiddanai'r tyrfaoedd gyda'u datganiadau ar y delyn neu'r crwth gan fod 'ym Morgannwg lawer o delynion ac o ffidleriaid yn cael eu talu am ganu yn y gwyliu hyn'.⁸¹

*Llanbedr ar fynydd, cainc ar fesur Triban
(adance)*

*Fraethur gwledydd beunydd nàvela: Iddin llunyd
 nes y delwys lle mae'r gân yn llanbedr lân ar fynydd
 yn llanbedr lân ar fynydd, nes y delwys lle mae'r
 gân yn llanbedr lân ar fynydd.
 2
 yn llanbedr lân ar fynydd,
 lle mae'r cyffithon dedwydd,
 Meibion merched mwy'n di hys,
 ag yno trig llawnydd.*

LIGC 13146A, t. 173, 'Llanbedr ar fynydd, cainc ar fesur Triban (adance)'

Perthyn mesur y triban yn uniongyrchol i'r traddodiad barddol gan mai deillio o 'ffurf acennol ar hen 'englyn unodl cyrch' y canu caeth'⁸² a wnaeth yn wreiddiol. Yng ngeiriau Tegwyn Jones:

Nid term cerddorol yw 'triban' – nid tri churiad i'r mesur a olygir fel

y tybiodd Bardd Alaw, a chael ei geryddu gan olygydd *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* am hynny – oherwydd yr oedd y mesur yno cyn y ceinciau, a thrwy eu defnyddio i ganu'r mesur arbennig hwn arnynt yr enillasant hwy eu henwau.⁸³

Wrth gwrs, cafwyd bri ar y canu caeth yng ngogledd Cymru yn ogystal, ond yn ôl Tegwyn Jones:

Gwelwyd fod y glêr wedi parhau i ganu ar yr hen englyn cyrch neu'r triban, ac ymddengys fod hyn yn arbennig o wir am y Deau, lle tueddill i ddefnyddio'r mesurau rhyddion yn helaethach nag yng ngweddill Cymru.⁸⁴

Yr oedd y 'cathreiwyr', a defnyddio term Iolo ei hun, yn canu ar fesurau eraill yn ogystal â mesur y triban, ond mae'n amlwg mai'r triban oedd eu 'hoff fesur'⁸⁵ ac er mai mesur a briodolir i'r traddodiad barddol ydoedd ar lawer ystyr, 'yn hanes y triban ... bu'r berthynas rhyngddo a cherddoriaeth yn un agos a phwysig',⁸⁶ a hynny'n unol â thraddodiad llafar-gwlad bywyd amaethyddol Morgannwg y cyfnod. Wrth ddyfynnu ambell gerdd gan Taliesin yn ei lawysgrifau, yn hytrach na defnyddio'r term 'englyn unodl cyrch' defnyddia Iolo'r term 'Triban unodl cyrch'⁸⁷ sy'n ymgais ganddo i fathu term newydd a hynny er mwyn priodoli'r mesur yn arbennig i draddodiad gwerin Morgannwg, ac i godi statws y triban hefyd. Gellir honni felly fod y triban yn fesur unigryw i Fro Morgannwg, ac wedi gwreiddio'n ddyfnach yn y sir nag mewn unrhyw sir arall yng Nghymru am ei fod yn gysylltiedig â'r traddodiad o ganu wrth yrru'r ychen. Dywed Phyllis Kinney:

The *triban* is a four-line stanza in the metre 7.7.8.7., the 7-syllable lines having feminine endings and the 8-syllable line a masculine ending.⁸⁸

Serch hynny, nid dyma'r gwir bob tro, a diolch i Phyllis Kinney a Dr Rhiannon Ifans am esbonio bod eithriadau i'r rheol hon.

Canu bachgen y Felin

ym Morganwg

yddwyf yn myned tua'r felin haw, yddwyf yn myned tua'r felin haw,

yddwyf yn myned tua'r felin, a'r cwdyn bach ar ben yr elin

dyrimp dy ra ri, dy rimpdy ra ri dâ - ym da, m,m,m,m,m,m.

LIGC 13146A, tt. 422-3, 'Canu bachgen y Felin ym Morganwg' – copi union o nodiant Iolo, wedi'i osod ar Sibelius

Pery diffyg crebwyll cerddorol Iolo anhawster i'r sawl sy'n ceisio gosod amseriad penodol i'r alawon, ac nid eithriad yw'r caneuon gwaith yn ei gasgliad. Mae dau ddu!l gwahanol o ddatgan y triban, sef yr hyn a alwyd yn 'ddull y de' a 'dull y gogledd'. Er bod 'dull y de' yn fath o ganu penillion cynnar a oedd yn gyffredin yn ne Cymru, mae'r dull hwn hefyd wedi magu poblogrwydd yn y gogledd yn ogystal. Mae 'dull y de' yn cyfeirio at y patrwm o ganu'r penillion bob yn ail â'r cytgan, tra bod 'dull y gogledd' yn cyfeirio at lafarganu'r penillion mewn cyfalaw uwchben rhan y delyn,⁸⁹ sef y dull presennol. Meddai Phyllis Kinney:

The former term [Dull y de] has been taken to refer to the song-and-chorus pattern of singing which was assumed to be more prevalent in the south; the latter term [Dull y gogledd] was taken to refer to the chanting of *penillion* in a kind of descent to the harp which was supposed to be favoured in the north.⁹⁰

Yn ôl Daniel Huws, Iolo oedd y cyntaf i nodi ac i wahaniaethu rhwng gosodiad canu penillion o'r gogledd a chanu penillion o'r de. Daeth y termau 'Dull y de' a 'Dull y gogledd' i boblogrwydd yn sgil ei ddarganfyddiad.⁹¹

Yr enghraifft orau o blith yr holl alawon gwerin yng nghasgliad Iolo o'r dull hwn o ganu triban, lle y datgenir yr alaw gan y llais a'r offeryn bob yn ail, yw '[Triban Morganwg]',⁹² ond ceir cyfarwyddiadau tebyg hefyd yn fersiwn Iolo o 'Y Pannwr'. Diben y cyfarwyddiadau hyn yw dynodi'r dull perfformio disgwyledig.

[Triban Morganwg]

Part I

Air *Symphony* *Air*

[Tra fae-lu'r gwle-dydd beu-nydd Ni wela i ddim lla -

-we nydd Nes y del- wy' lle mae'r gân lle mae'r gân

Sym *Air* *Sym*

[Air] *Part II* *Symphony* *Air*

Yn Llan bedr lân ar Fy-nydd. Yn

Sym *Air* *Sym*

Llan bedr lân ar Fy-nydd Lle mae'r cy - feill ion ded wydd

Air

Meib -io - n mer - che - d mwyn di - ddig

Sym *Air*

LIGC 13174A, t. 91, '[Triban Morganwg]' a olygwyd gan Phyllis Kinney. (Gw. casgliad o ddogfennau personol o eiddo Phyllis Kinney a Meredydd Evans.)

Eglurir y term *symphony* fel a ganlyn:

Sinfonia: ... usually instrumental ensemble. It derives from the Greek *syn* ('together') and *phōnē* ('sounding'), and thence from the Latin *symphonia*.⁹³

Ceir defnydd o'r term *sym*, sy'n golygu '*symphony*', ar ddiwedd yr adran gyntaf o '[Triban Morganwg]',⁹⁴ ond ni ymddengys y term '*air*', sy'n golygu alaw, ac o ganlyniad fe gredir mai dim ond ar ddiwedd yr adran gyntaf y dylai'r offeryn fod yn chwarae.

Nid cofnodi'r alawon yn unig oedd bwriad Iolo, ond yn hytrach eu gwisgo â chig a gwaed a'u priodoli i ardal benodol yng Nghymru, a hynny er mwyn tynnu sylw at rinweddau'r ardal honno. Mae'n rhaid fod Iolo wedi cael ei ysbrydoli a'i gyfareddu wrth glywed yr alawon gwerin hyn, gymaint felly nes iddo roi cynnig ar lunio pennill ychwanegol ar gyfer ail bennill '[Triban Morganwg]', fel a ganlyn:

I have attempted a second stanza thus:

Caf gwrdd am hen gyfeillion
Caf rodio'r twynydd, tirion
Lle bu'm yn chwarae'n [llencyn] bach,
Caf fod yn iach fy nghalon.

But who can equal the old one? What would I not give to know the name and era of its author!⁹⁵


Cân waith oedd 'Triban Morgannwg' a ddefnyddid yn unswydd i annog a chymell yr ychen, ac yr oedd yn fesur mor boblogaidd yng nghylchoedd amaethyddol cathreiwyr y sir nes peri i haneswyr ac ysgolheigion yr ugeinfed ganrif deimlo rheidrwydd i alw'r cyfnod y cenid y tribannau hyn ynddo yn 'Gyfnod y Tribanau'.⁹⁶

Dylid nodi mai anifail deallus oedd yr ych, ac felly roedd boddhau ei fympwy a'i deimladau yn un o ddoniau angenrheidiol y cathreiwyr. Sonrir uchod am duedd ychen a gwartheg i ymwrthod â gweithio nes eu bod yn cael eu difyrru drwy gyfrwng cerddoriaeth o ryw fath. Ond nid ym Morgannwg yn unig y clywyd yr arfer hwn o ganu i'r ychen gan fod ffermwr o Langynnwr, sir Gaerfyrddin, hefyd wedi sylwi na 'weithiai'r ychen oni chenid iddynt yn barhaus',⁹⁷ a hynny pan oedd yn blentyn oddeutu 1840–50, ac yntau'n galw'r wedd. Yn ddiau, yn siroedd de Cymru y cynhaliwyd yr arfer o yrru'r ychen hwyaf wrth aredig, yn hytrach nag yn siroedd y

canolbarth neu'r gogledd. Siroedd megis 'Brycheiniog, Maesyfed, Morgannwg, ac i raddau llai yn sir Fynwy',⁹⁸ oedd yn cynnal y traddodiad hwn, gyda phedwar neu chwech o ychen wedi'u gosod o dan yr iau yn y rhan fwyaf o'r siroedd hynny. Serch hynny, ceid rhwng pedwar ac wyth o ychen o dan yr iau ym Morgannwg, yn ôl Gwallter Mechain.⁹⁹

Yr oedd dealltwriaeth neu gytundeb arbennig yn uno'r cathreiwyr a'r ych, math o gyfeillgarwch mynwesol fel petai, ac ar adegau byddai'r cathreiwyr yn medru taflu'i faich, er enghraifft ei bryderon bob dydd, ei boen meddwl ynghylch materion cymdeithasol y fro, a rhai materion llai trwm eu natur ond a roddai lawn cymaint o ofid i'r cathreiwyr druan, megis ei obeithion a'i ddyheadau carwriaethol. Gwnâi hyn drwy ganu i'r ychen am ei sefyllfa anffodus ar 'feysydd llydain y Fro',¹⁰⁰ ac o ganlyniad byddai'r cathreiwyr a'r ych ill dau yn hapusach eu byd. Dynoda'r enghraifft ganlynol gyfyng gyngor y cathreiwyr ynghylch gwrthrych ei serch.¹⁰¹ Enghraifft ydyw o'r math o driban a elwir yn 'dribannau serch':¹⁰²

Gwae fi na bawn i'n briod,
a'r ferch ag wy'n ei nabod,
trwy gennad Duw a byw'n gyttûn,
a marw yr un diwarnod,
a marw yr un diwarnod.¹⁰³



LIGC 13146A, t. 203, 'Triban' (Gwae fi na bawn i'n briod)

Gan mai portreadu helyntion a digwyddiadau'r ardal a wnâi'r triban yr oedd y gymdeithas gyfan yn uniaethu â'u cynnwys, yn cydymdeimlo â'r canwr pan oedd galw am hynny, ac o ganlyniad 'yr oedd y mesur yn un priodol i deimladau a chwaeth y bobl'.¹⁰⁴ Cadarnheir hyn ymhellach gan John Parry 'Bardd Alaw':

The Glamorganshire ploughboys' songs bear evident marks of their antiquity; for, as they appear on paper ... there is neither rhyme nor reason in them; but, like the Swiss *Ranz des Vaches*, when sung by the natives, there is a characteristic wildness, blended with sweetness and intensity of feeling that touch the heart.¹⁰⁵

Ymddengys mai hanu o draddodiad Ewropeaidd ehangach a wnâi'r caneuon galwedigaethol a gasglodd Iolo ar drothwy'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Nid traddodiad a berthynai i Gymru yn unig oedd yr arfer hwn o ganu i'r ychen. Yn ôl Tegwyn Jones roedd 'aredig gydag ychen yn weithgaredd hynafol ar sawl cyfandir'.¹⁰⁶

Mae Francis Payne, Phyllis Kinney a Dr Meredydd Evans o'r farn mai'r hyn oedd i gyfrif am dranc yr arfer o aredig ag ychen, a'r hyn a fu'n gyfrwng i ddwyn traddodiad y cathreiw'r i ben oedd:

(i) y cefnu graddol ymhlith amaethwyr Cymru ar yr hen drefn o gyfaru neu gyd-aredig; (ii) y galw cynyddol yn y ddeunawfed ganrif am aredig cyflym a rhad; a (iii) disodliad yr erydr pren gan erydr haearn ysgafnach.¹⁰⁷

Yn sgîl y newidiadau hyn, diflannodd yr ych ar ôl 1850 ac erbyn 1880, fel y cyfeiria D. Roy Saer, 'prin y gwelid gwedd ohonynt'.¹⁰⁸ Ymddengys mai ymateb synhwyrus i'r bobl a'r bywyd traddodiadol hwnnw a amgylchynai Iolo yn ei gynefin oedd yr alawon hyn, ac felly fel gweledydd a sylwedydd ei ddydd yr oedd eu gosod ar gof a chadw yn gymwynas i'r gymuned gyfan. Achubodd Iolo ar y cyfle, nid yn unig i gywain cyfoeth y diwylliant gwerin Cymreig, ond i fynd gam ymhellach i'w ddiogelu yn y modd mwyaf defnyddiol ar gyfer ei ddisgynyddion, drwy groniclo'r hanes a gyfrannodd gymaint at fodolaeth yr alawon. Er na chyhoeddodd Iolo y caneuon hyn, fe sylweddolodd cyn ei bod yn rhy hwyr werth a dylanwad y sefyllfa gymdeithasol a roes fod i'r canu llafar gwlad hwn, a sylweddolodd na fyddai casglu'r alawon yn unig wedi rhoi'r haeddiant dyladwy iddynt.

Atodiad

Rhestr o alawon gwerin Iolo Morganwg

...Morganwg, cyhydedd gyrch 8 a 7, chweban	LIGC IAW 145, f. 10
...tones pastoral metre. Morg	LIGC 21426E, t. 22
[blin yw caru]	LIGC 21423E, rhif 14
[darn dienw mewn pensil (1)]	LIGC IAW 145 (heb ei gatalogio)
[darn dienw mewn pensil (2)]	LIGC IAW 145 (heb ei gatalogio)
[darn dienw]	LIGC IAW 145, f. 13
[Lle bo cariad]	LIGC 21423E, rhif 14
[hen gywydd deuair]	LIGC 13131A, t. 463
[North American Indian Tune]	LIGC IAW 145, f. 17A
[Triban Morganwg]	LIGC 13174A, f. 91
[Triban Morganwg]	LIGC 21319A, t. 284
8 a 7 deublyg. Bwbach Darllain. al. Bwbach darlludd	LIGC 13146A, t. 204
8 a 7 Morganwg. Morris dance tune.	LIGC 13089E, t. 419
8 a 7 triphlyg Quaere ai cant	LIGC IAW 145, f. 10
8 a 7. Blaen Cannaid	LIGC 21282E, f. 345
Ar fesur Triban	LIGC 13146A, t. 436
Betawn in fachgen ieuanc llawen &c I. M.	LIGC IAW 145 (heb ei gatalogio)
Brigant, neu chware'r Brigant	LIGC 13146A, t. 451
Cainc ar y Clych ym Morganwg	LIGC 13146A, t. 413
Cainc y Cathreiw'r	LIGC 13221E, t. 92
Cainc y Cathreiw'r. Morganwg.	LIGC 13146A, t. 436
Cainc ym Morganwg	LIGC 13146A, t. 225
Cainc yr odryddes/arferedig ym Morganwg ynghyd ag amryw eraill o geinciau. Hai haw Brithi i'r buarth	LIGC 13146A, t. 435
Cân Crottyn y Gwartheg, neu – Y Fuwch wynebwen lwyd, cyffredin ym Morganwg.	LIGC 13146A, t. 421
Can y Maensaer, neu'r Maensaer Mwyn, cyffredin ym Morganwg	LIGC 13146A, t. 424–5
Canu bachgen y Felin ym Morganwg	LIGC 13146A, t. 422–3
Canu 'ddwyf a bod yn llawen	LIGC IAW 145, f. 10v
Canu Gwasaila Morganwg	LIGC IAW 145 (heb ei gatalogio)
Cdd deuair fyrron, Morganwg	LIGC 13089E, t. 253
Cdd Gch 3ban I. M.	LIGC 13141A, t. 52

Cdd Gch 4ban a deulan 8 I. M.	LIGC IAW 145, f. 10
Cdd Gch 8ban I. M.	LIGC IAW 145, f. 10v
Cdd Gch Symlen ben bys, as in Glamorgan - an old Welsh Tune	LIGC IAW 145, f. 17A
Coed y Glyn	LIGC IAW 145, f. 11
Côf Gwenllïan, fal ai cenir ym Morganwg (Mr. Dickson)	LIGC IAW 145, f. 19
Cornish May Song. 8 a 7	LIGC IAW 145, f. 16
Cy.dd Gch 8 ban	LIGC IAW 145, f. 11v
Cyhydedd ferr deublyg	LIGC 21410E, 29b
Cyhydedd Gyrc 8 a Saith I. M.	LIGC IAW 145, t. 12
Cywydd deuair 'Morganwg'	LIGC IAW 145 (heb ei gatalogio)
Dawns Triban deublyg	LIGC IAW 145, f. 10
Deuair fyrrion	LIGC IAW 145, t. 12
Dic ddiotal	LIGC 21423E, rhif 14
Dili Dwd	LIGC 13146A, t. 386
Fy Nhâd	LIGC 13146A, t. 229
Haw, haw, Brithi i'r buarth. Caine yr odryddes neu gainc y Faerones	LIGC 13221E, t. 93
Hen erddigan Morganwg	LIGC 21421E, rhif 4
Hen Gainc Gwashaella Morganwg	LIGC IAW 145, f. 10
Hengoed (neu Y Cobler coch o Hengoed) neu Dowlais	LIGC IAW 145, f. 8
hên gainc ym Morganwg	LIGC IAW 145 (heb ei gatalogio)
Hob y dyri dando/a Southwalian Tune	LIGC IAW 145, f. 6
Hun Gwenllïan danfoniad Twm o'r Nant (cyffelyppiaeth o Hûn Gwenllïan)	LIGC IAW 145, f. 1
hwn a glywais mewn Eglwys yn Sir Frycheiniog, 8 a 7	LIGC IAW 145, f. 14
Hwp y diri dando	LIGC IAW 145, f. 21
Hwp y diri dando, o South Wales	LIGC IAW 145, f. 12
Llanbedr ar fynydd. caine ar fesur Triban (a dance)	LIGC 13146A, t. 173
Mae gwallt fy mhen i'n gwynnu	LIGC IAW 145, t. 16
Mesur 12 sill sef y gyhydedd hir I. M.	LIGC 21375A, f. 36v
Mesur Carol Haf	LIGC IAW 145, f. 15v
Mesur Carol Haf I. M.	LIGC 21375A, f. 36v
Mesur Dyri I. M. Deublyg neu 8.8.	LIGC 21375A, f. 7

Nut brown maid (Etifeddes y Coety)	LIGC IAW 145, f. 17
Old Welsh Tune from the ancient [?stanza]	LIGC 213675A, f. 32
Pebyll Penon	LIGC IAW 145, f. 7
Pwyo pen y gofid. Triban (Pont Rhyd y Fenn 1796)	LIGC IAW 145, f. 10
Rhegoes 7 a 7 Cyhydedd Gyrch ddeublyg	LIGC IAW 145, f. 10
Rhuppynt hir	LIGC 13099B, t. 135
South Wales Glamorgan	LIGC IAW 145, t. 12
Ton deuair	LIGC IAW 145, t. 12
Torriad y Dydd	LIGC 21392F, t. 51
Triban	LIGC 13146A, t. 203
Triban	LIGC IAW 145, f. 18
Triban - Pont y Ty Pridd	LIGC IAW 145, f. 22
Triban Cyrch	LIGC IAW 145, f. 11v
Triban Gwŷr Morgannwg - <i>The war song, of the Men of Glamorgan</i>	LIGC IAW 145, f. 4
Triban I.M	LIGC IAW 145, f. 22
Twm Taro Tant - neu Twm o'r Coetty. Canu Wil Tabor	LIGC 21319A, t. 260–1
Welsh Tune (mesur y daear fochyn) I. M.	LIGC IAW 145, f. 15v
Y Fedwen	LIGC IAW 145, f. 13
Y feindwf fun	LIGC 21423E, rhif 13
Y Ferch o'r Scerr. Tho. ^S Evans Delynwr ai cant	LIGC IAW 145, f. 9
Y mwya' gar fy nghalon	LIGC IAW 145, f. 11
Y Pannwr	LIGC IAW 145, f. 18
Yr Hen Garol Nadolig Morganwg – Tri thrawiad	LIGC IAW 145, f. 10
Yr hen ŵr o'r coed	LIGC IAW 145, t. 12
Yr het helig	LIGC IAW 145, f. 25

NODIADAU

- 1 Mae fy nyled yn fawr i Dr Meredydd Evans, Phyllis Kinney, Daniel Huws ac aelodau o brosiect Iolo Morganwg yn y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Aberystwyth, am eu cymorth wrth lunio'r erthygl hon.
- 2 Gweler yr atodiad am restr gyflawn o alawon gwerin Iolo Morganwg.
- 3 LIGC IAW 145, f. 18.
- 4 LIGC 13146A, tt. 424–5.

- 5 LIGC 13221E, t. 92.
- 6 LIGC 13146A, t. 435.
- 7 Dywed erthygl Anhysbys, 'Pum Cân Werin o Forgannwg', *Canu Gwerin*, 1 (1978), 34, mai 'prin odiaeth yw caneuon gwerin Cymraeg sy'n adlewyrchu cefndir diwydiannol, er i ddigonedd o gyfansoddiadau perthnasol ymddangos ar daflenni baledi, wrth gwrs'.
- 8 Does dim ond rhaid taflu golwg ar y dosbarthiadau a geir yng nghyfrol Tegwyn Jones, *Tribannau Morgannwg* (Llandysul, 1976), megis tribannau serch, chwaraeon a difyrrwch, henaint ac angau, i enwi dim ond rhai, i sylweddoli hyblygrwydd y triban, a'r rhain oll yn cael eu datgan y tu allan i fyd gwaith.
- 9 G. J. Williams, *Iolo Morganwg – Y Gyfrol Gyntaf* (Caerdydd, 1956), t. 67. Ym Mro Morgannwg defnyddir y term 'poc' ar gyfer 'poced'.
- 10 Yn ôl Daniel Huws, 'Alawon Gwerin Iolo Morganwg', *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, v, Rhif 20, (1977), 178–185, llyfryn yw'r 'Casgledydd Penn Ffordd' a geir yn llawysgrif LIGC 13146B (Llanofer C 59 gynt), tt. 283–466, sydd ag wynebddalen yn llaw Iolo: 'CASGLEDYDD / Penn Ffordd / yn cynnwys amrafaelion o Goffadwriaethau, a sylwadau perthynol, gan mwyaf i Forganwg, sef Hynafiaethau, Prydyddiaeth sathredig, Diarhebion, Geiriau ac Ymadroddion Cymreig, Ceinciau ac Erddiganau, Hen ddefodau ag arferion, Enwogion a hynodion o wyr a phethau, Hen gestyll, Hen adeiladoedd eraill, Hen orseddau, Cromlechau, etc / ynghyd ag amrafaelion o frasnaddiadau Cerdd dafawd Iolo Morganwg ac at hynny mwy nag a welwyd felly mewn pryd o ffolinebau yr hwn au casglawdd, sef oedd hwnnw y rhagddywedig / Iolo / 1800'.
- 11 G. J. Williams, op. cit. t. 67.
- 12 Loc. cit.
- 13 'Llyfr alawon Iolo' yw'r term a rydd Dr Meredydd Evans a Phyllis Kinney ar y 'Casgledydd Penn Ffordd'.
- 14 Daniel Huws, 'Iolo Morganwg and Traditional Music' yn *A Rattleskull Genius: The Many Faces of Iolo Morganwg* (Cardiff, 2005), t. 333.
- 15 Id., *Caneuon Llafar Gwlad ac Iolo a'i Fath* (Penygroes, 1993), t. 3.
- 16 Cyfweiliad â Dr Meredydd Evans a Phyllis Kinney (Cwmystwyth, Aberystwyth), dyddiedig 30/10/2006.
- 17 Gwŷr megis William Owen Pughe, Owain Myfyr ac Edward Jones 'Bardd y Brenin'.
- 18 Geraint H. Jenkins, 'On the Trail of a 'Rattleskull Genius': Introduction' yn *A Rattleskull Genius: The Many Faces of Iolo Morganwg* (Cardiff, 2005), t. 12.
- 19 Y rheswm dros ei ail ymweliad â Llundain oedd ei fwriad i gyhoeddi ei gerddi Saesneg, *Poems, Lyric and Pastoral* (London, 1794), ond mae lle i gredu bod y gyfrol wedi ei llunio cyn 1794.
- 20 Daniel Huws, *Caneuon Llafar Gwlad ac Iolo a'i Fath* (Penygroes, 1993), t. 10.
- 21 Cyfweiliad â Dr Meredydd Evans a Phyllis Kinney (Cwmystwyth, Aberystwyth), dyddiedig 30/10/2006.

- 22 G. J. Williams, op. cit. t. 59.
- 23 Robert Burns (1759–96). Mab i dyddynnwr, ond yn wahanol i Iolo derbyniodd addysg bur dda. Dechreuodd gasglu alawon gwerin ym 1785 wedi iddo ddychwelyd o Gaeredin, lle daeth i adnabod James Johnson (cyhoeddwr cerddoriaeth) a enynnodd ei ddiddordeb ymhellach mewn casglu alawon. Yn ddiweddarach bu'n cynorthwyo cyhoeddwr arall, sef George Thomson (1757–1851), i lunio *A Select Collection of Original Scottish Airs for the Voice* (London, 1793–1841); cyfrannodd Burns dros gant o ganeuon i'r gyfrol. Gellir disgrifio Burns fel bardd, casglwr, cyfansoddwr a golygydd. Ymhellach gw. Catarina Ericson-Roos, *The Songs of Robert Burns: A Study of the Unity of Poetry and Music* (Uppsala, 1977).
- 24 Daniel Huws, op. cit. tt. 10–11.
- 25 Ibid. t. 11.
- 26 G. J. Williams, op. cit. t. 456.
- 27 Meic Stephens, *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1997), t. 151.
- 28 Cyfweliad â Dr Meredydd Evans a Phyllis Kinney (Cwmystwyth, Aberystwyth), dyddiedig 30/10/2006.
- 29 W. S. Gwynn Williams, *Welsh National Music and Dance* (Wrexham, 1975), t. 54.
- 30 Un enghraifft yw casgliad cyhoeddedig John Parry 'Ddall' (Rhiwabon) ac Evan Williams, *Antient British Music* (London, 1742).
- 31 Yr unig enghraifft o gasgliad y bobl gyffredin yw casgliad Maria Jane Williams, *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg* (Aberystwyth, 1994) a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 1844. Ni cheir casgliad cynharach na hyn.
- 32 W. S. Gwynn Williams, op. cit. t. 54.
- 33 Loc. cit.
- 34 Er mai 'casgliad' yw'r term a ddefnyddir, nid casgliad yng ngwir ystyr y gair yw'r toreth o alawon gwerin a gofnodwyd gan Iolo. Mae'r alawon ar wasgar mewn casgliadau llawysgrifol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.
- 35 R. T. Jenkins a John Edward Lloyd, *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953), t. 972.
- 36 LIGC 13221E, tt. 92–3; casgliad o ohebiaeth Iolo yn ymdrin â'r alawon gwerin a gasglodd.
- 37 Ibid. t. 93.
- 38 Allan James, 'Y Triban, y Cathreiw'r a'r Hynafiaethydd', *Y Traethodydd*, cli (Gorffennaf, 1996), 139.
- 39 Ibid. 137.
- 40 Cyfweliad â Dr Meredydd Evans a Phyllis Kinney (Cwmystwyth, Aberystwyth), dyddiedig 30/10/2006.
- 41 Allan James, art. cit. 138.

- 42 Cyfweliad â Dr Meredydd Evans a Phyllis Kinney (Cwmystwyth, Aberystwyth), dyddiedig 30/10/2006.
- 43 LIGC IAW 145, ff. 6, 12 a 21, casgliad Iolo Aneurin Williams o'r caneuon a gasglodd Iolo.
- 44 LIGC 13174A, f. 91.
- 45 LIGC IAW 145, f. 4; alaw yn unig yn llaw Iolo
- 46 LIGC 13146A, tt. 424–5; alaw a geiriau yn llaw Iolo.
- 47 Ibid. t. 421; alaw a geiriau yn llaw Iolo.
- 48 Ibid. t. 435; alaw a geiriau yn llaw Iolo, ac yn LIGC 13221E, t. 93; casgliad o ohebiaeth Iolo yn ymdrin â'r alawon gwerin a gasglodd.
- 49 Ibid. t. 436; alaw a geiriau yn llaw Iolo, ac yn LIGC 13221E, t. 92; casgliad o ohebiaeth Iolo yn ymdrin â'r alawon gwerin a gasglodd.
- 50 G. J. Williams, op. cit. t. 216.
- 51 Ibid. t. 216. Ymhyfrydai ei fam yn y *Vocal Miscellany*, a ddaeth maes o law yn gyfrwng diddanwch i Iolo pan oedd yng ngharchar Caerdydd o ganlyniad i fethdaliad. Cafodd ei garcharu ar 7 Awst 1786 a bu yno am dros flwyddyn.
- 52 G. J. Williams, op. cit. t. 216.
- 53 Daniel Huws, *Caneuon Llafar Gwlad ac Iolo a'i Fath* (Penygroes, 1993), t. 10.
- 54 G. J. Williams, op. cit. t. 237.
- 55 Ibid. tt. 237–8.
- 56 Darlith gan R. J. W. Evans, 'The Uniqueness of Iolo Morganwg: Some European Reflections' a gynhaliwyd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 30 Mehefin 2007, yn ystod cynhadledd undydd yn dwyn y teitl 'Y Bardd a'r Derwydd: Iolo Morganwg'.
- 57 LIGC 13174A, t. 91.
- 58 LIGC 13221E, tt. 92–3.
- 59 Dyma nodwedd amlwg ar waith beirdd megis Siôn Tudur (1560–1602), Richard Hughes, Cefnllanfair (1565–1618), Jac Glan-y-gors (1766–1821), sef bardd swyddogol Cymdeithas y Gwyneddigion, Goronwy Owen (1723–69), ac Evan Evans 'Ieuan Fardd' (1731–88) yn canu am y bywyd dinesig yn Llundain neu Gaint ochr yn ochr â'u hiraeth am gefn gwlad Cymru. Cyfansoddodd Ieuan Fardd gywyddau megis 'Teifi' a 'Hiraeth y Bardd am ei Wlad' yn ystod ei gyfnod yng Nghaint rhwng 1751 a 1756. Ymhellach gw. Enid Roberts, *Gwaith Siôn Tudur* (Caerdydd, 1980); Garfield H. Hughes, *Rhagymadroddion 1547–1659* (Caerdydd, 1976); A. Cynfael Lake, *Blodeugerdd Barddas o Ganu Caeth y Ddeunawfed Ganrif* (Llandybïe, 1993).
- 60 G. J. Williams, op. cit. t. 200.
- 61 Cyfweliad â Dr Meredydd Evans a Phyllis Kinney (Cwmystwyth, Aberystwyth), dyddiedig 30/10/2006.

- 62 Phyllis Kinney a Meredydd Evans (gol.), *Canu'r Cymry II* (Penygroes, 1987), t. 55.
- 63 Phyllis Kinney a Meredydd Evans, 'Canu'r Ychen', *Trafodion Anrhydeddus Gymeithas y Cymmrodorion* (1986), 100.
- 64 *Geiriadur Prifysgol Cymru*, t. 2026.
- 65 Benjamin Thomas, 'Canu gyda'r Ychen', *Cymru*, xxxii (Mehefin, 1907), 299.
- 66 Loc. cit.
- 67 Phyllis Kinney a Meredydd Evans, art. cit. 100.
- 68 Francis G. Payne, *Yr Aradr Gymreig* (Llandysul, 1954), t. 109.
- 69 Ar 'odryddes' = 'godroyddes', 'godryddes' gw. *Geiriadur Prifysgol Cymru*, t. 1423. 'Odryddes' neu'r 'Faerones' yw'r termau a ddefnyddid yn llawysgrif Iolo i ddisgrifio gwraig neu ferch sy'n godro.
- 70 LIGC 13221E, t. 92; casgliad o ohebiaeth Iolo yn ymdrin â'r alawon gwerin a gasglodd.
- 71 Ibid. t. 93.
- 72 Allan James, 'Tribannau Gwerin Morgannwg', *Canu Gwerin*, 19 (1996), 7.
- 73 Ibid. 8.
- 74 D. Roy Saer, *Caneuon Llafar Gwlad*, 1 (Caerdydd, 1974), t. 53.
- 75 G. J. Williams, op. cit. t. 60. 'Geilwad' oedd y term a ddefnyddid yng ngogledd Cymru i ddisgrifio'r sawl a ganai i'r ychen. Y term sy'n cyfateb i hwn yn ne Cymru yw 'cathreiw'r'.
- 76 Phyllis Kinney a Meredydd Evans, art. cit. 100.
- 77 Loc. cit.
- 78 Ceir amryw o wahanol fersiynau o'r gainc 'Triban Morgannwg'; mae lliaws ohonynt yn dwyn teitlau gwahanol, yn eu plith 'Triban Gwŷr Morgannwg', 'Dawns Triban Deublyg' a 'Triban Pont y Tŷ Pridd'; gw. LIGC 13146A tt. 203, 436 a 173; LIGC 13174A f. 91; LIGC 21319 t. 284; LIGC IAW 145, ff. 4, 10, 18, 22; LIGC 21426E.
- 79 G. J. Williams, op. cit. t. 44.
- 80 Ibid. t. 60.
- 81 Ibid. t. 42; un enghraifft yw'r modd y cytunwyd i dalu deg gini i'r ffdlwr ar achlysur o'r fath.
- 82 Ibid. t. 59.
- 83 Tegwyn Jones, *Tribannau Morgannwg* (Llandysul, 1976), t. 21.
- 84 Ibid. t. 25.
- 85 Ibid. t. 24.
- 86 Loc. cit.
- 87 LIGC 13146A, t. 64.
- 88 Phyllis Kinney, 'Vocal and Instrumental Interaction in Earlier "Canu Penillion"', *Canu Gwerin*, 7 (1984), 31.

- 89 Ibid. 34.
- 90 Loc. cit.
- 91 Daniel Huws, 'Iolo Morganwg and Traditional Music' yn *A Rattleskull Genius: The Many Faces of Iolo Morganwg* (Cardiff, 2005), t. 347.
- 92 LIGC 13174A, f. 91.
- 93 Jan Larue a Suzanne G. Cusick, 'Sinfonia', *The New Grove Dictionary of Music and Musicians*, 23 (gol. Stanley Sadie), (London and New York, 2001), t. 419.
- 94 LIGC 13174A, t. 91.
- 95 LIGC 13174A, f. 91.
- 96 Erbin Thomas ap Glanffrwd, *Plwyf Llanwyno: Yr Hen Amser, Yr Hen Bobl a'r Hen Droion* (Aberdâr, 1913), t. 140.
- 97 Francis G. Payne, op. cit. t. 190.
- 98 Ibid. t. 184.
- 99 Loc. cit.
- 100 G. J. Williams, op. cit. t. 63.
- 101 Mae'r pennill hwn wedi'i gofnodi ddwywaith gan Iolo, unwaith yn LIGC 13146A, t. 202, yn rhan o restr o benillion ar gyfer alawon gwerin ond heb y gerddoriaeth, ac eto yn LIGC 13146A, t. 203 gyda'r alaw yn ogystal y tro hwn. Noda Iolo ar ddiwedd y pennill, yn LIGC 13146A, t. 202, 'Traddodiadol ym Morg.'
- 102 D. Roy Saer (1974): op. cit., 53.
- 103 LIGC 13146A, t. 203; alaw a geiriau yn llaw Iolo.
- 104 Erbin Thomas ap Glanffrwd, op. cit. t. 140.
- 105 John Parry, *The Welsh Harper*, 1 (London, 1848), t. 3.
- 106 Tegwyn Jones, 'Tribanwyr, Rhigymwyr, Baledwyr, ac ati', *Nedd a Dulais* (Llandysul, 1994), t. 33.
- 107 Phyllis Kinney a Meredydd Evans (1986): op. cit. 101.
- 108 Francis G. Payne, op. cit. t. 185.

AMBELL I GÂN

Meredydd Evans

Trên Bach Port



Tua diwedd haf 2007 derbyniais lythyr, ynghyd â chân, oddi wrth gyfaill sy'n byw yn Rhewl, Rhuthun, ond sy'n dod yn wreiddiol o'r Manod, Blaenau Ffestiniog. Bu Elwyn Wilson Jones yn aelod selog dros flynyddoedd lawer o barti enwog Meibion Menlli ac addawodd beth amser yn ôl anfon imi gân yr arferai ei nain ei chanu iddo yn ystod tridegau cynnar y ganrif ddwaetha. Cadwodd at ei air.

Ganwyd ei nain o gwmpas 1860, yn Llanberis, a daeth i fyw i ardal Stiniog tua diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ni wŷr Elwyn pa bryd y dysgodd ei nain y gân na phwy a'i canodd iddi ond mae'n gwbl amlwg mai un o ganeuon Stiniog ydyw.

Gyda datblygiad y chwareli llechi yno ym mlynnyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg arferid cario'r llechi o'r gweithiau, yn wreiddiol, mewn cewyll ar gefnau mulod o'r Blaenau trwy'r Llan ac i lawr i ddyffryn Maentwrog hyd at Ben-



Meredydd Evans

trwyn-garnedd, eu llwytho yno i gychod, a'u dwyn yn y rheini hyd at Ynys Gyngar, islaw Porthmadog, lle trosglwyddid nhw wedyn i'r llongau. Ymhen amser aed ati i gario'r llechi o'r Blaenau mewn gwageni'n cael eu tynnu gan geffylau.

Ymhen amser cefnwyd ar y drefn hon ac agorwyd y lein bach gyntaf yn syth o'r Blaenau i Borthmadog yn 1836. Ar y cychwyn cludwyd y llechi ar hyd-ddi mewn gwageni a dynnid gan geffylau i lawr ac i fyny'r lein ond, a dyfynnu G. J. Williams yn ei gyfrol gampus *Hanes Plwyf Ffestiniog*:

Ym mhen ychydig flynyddoedd gwnaed y twnel ar y ffordd, unionwyd hi mewn manau, a chyfnewidiwyd hi i'r fath raddau fel yr oedd gogwyddiad o 1 mewn 92 ar gyfartaledd ynddi yng nghyfeiriad Porthmadog. O ganlyniad, yr oedd y gwagenau yn myned i lawr ohonynt eu hunain, a rhoddid y ceffylau mewn rhai ohonynt i gael eu cludo i lawr, er mwyn iddynt dynnu y gwagenau gweigion i fyny.

Yrŵan, o ystyried rhannau o'r rhigwm difyr hwn tybed nad oes adleisiau ynddo o'r moddion cludo llechi uchod mewn llinellau fel 'Trotian mynd fel trol a mul' a 'Mwni bach ar ben y van'? A beth am y cyfeiriad at y 'mwnci'? Nid anifail 'does bosib, ond y teclyn arbennig hwnnw a welir mewn coler ceffyl gwaith. Ac yn unol â rhesymeg wamal rhigymau, mae yma hefyd gyfeiriad tebygol at ddatblygiad diweddarach yn hanes y Lein Bach (dyna enw Stiniog ar y peth) sef y ffaith i drên gael ei ddefnyddio am y tro cyntaf i gario teithwyr yn 1863. Gyda'r peiriant hwnnw y daeth y Portar a'r 'Tickets please' i fod.

Sut bynnag am hynny, esboniad derbyniol ai peidio, diolch i Elwyn am godi'r rhigwm ar ei glust, ei gofio a'i roi inni ar ddechrau'r ganrif 'oleuedig' hon. Alaw syml a ailadroddir gyda mymryn o gyfnewidiad a chymysgedd diddorol o elfennau yn y geiriau.

Y cyn-taf dydd o'r gwyl-iau, An-fon-odd fy nghar-iad i mi Un bet-ri-sen ar y pren gell-yg.

Yr ail ddydd o'r gwyl-iau an-fon-odd fy nghar-iad i mi Dwy glo-men ddof a phet-ri-sen ar y pren gell-yg...

Y try-dydd dydd o'r gwyl-iau An-fon-odd fy nghar-iad i mi Tair iâr Ffrainc Dwy glo-men ddof A phe-tri-sen ar y pren gell-yg

Y ped-wed-ydd dydd o'r gwyl-iau An-fon-odd fy nghar-iad i mi..

Calennig derbyniod dros ben oedd y ffurf ar y gân hon a gofnodwyd gan fy nghyfaill Cledwyn Jones o ganu Dr Enid Pierce Roberts, Bangor, ond yn enedigol o Langadfan, Maldwyn. Yn y pentref hwnnw, ar yr aelwyd gartref, y clywodd ei mam yn ei chanu, a hynny o'r naill gwr i'r llall ohoni, ond tri phennill yn unig a lynodd wrth ei chof hi. Mewn llythyr ataf yn ddiweddar ychwanegodd sylw perthnasol i'r dull o ganu'r gân gynyddol hon: mae'r dôn-gyfrif bob tro, o'r rhif 3 ymlaen, yn cyfateb i dôn y geiriau 'Tair iâr Ffrainc' – yr unig far $\frac{3}{4}$ yn y gân, gyda llaw.

Digwyddaf fod yn gyfarwydd â naw fersiwn o'r gân (cryn chwech ohonynt yn rhai Seisnig) ond perthyn un nodwedd wahaniaethol amlwg i alaw'r gân sydd dan sylw yma, sef y naid ddiddorol o octef ar ddiwedd y bar llawn cyntaf. Gwefr i gantorion! Yn y cyd-destun hwn mae'n werth dyfynnu un o sylwadau Cled mewn llythyr ataf yn amgáu'r gân:

Hoffwn dynnu dy sylw at yr E^b uchaf yn y gair 'gwyliau'; yr oedd Enid yn rhoi ychydig o bwyslais ar y rhan gyntaf o'r gair, sef gwyl-iau, a'r 'iau' yn nodyn byr iawn; tebycach i led-hanner-cwafer'.

Dyma enghraifft ragorol o'r union fath ar nodweddion perfformiadol, fel

'tae, na ellir eu dal yn iawn ar bapur. Y gorau y gall cofnodydd ei wneud yw dod yn weddol agos at osod mewn nodiant yr hyn a glyw yn cael ei ganu gan gantores neu ganwr. Diolch, serch hynny, am nodiant cerdd. Beth a wnaem hebdo?

Dy - ma'r flwy - ddyn we - di dod, Y flwy - ddyn o - re fu er - io'd O
fo - re flwy - ddyn ne - wydd, O fo - re flwy - ddyn ne - wydd, O fo - re flwy - ddyn
ne - wydd, A blwy - ddyn ne - wydd dda i chi! Co - d'wch yn y bo - re a cin - nwech y tan
Cer - wch i'r ffyn - non i ôl dŵr glân Ar fo - re flwy - ddyn ne - wydd, Ar fo - re flwy - ddyn
ne - wydd Ar fo - re flwy - ddyn ne - wydd dda blwy - ddyn ne - wydd dda i chi!
Blwy - ddyn ne - wydd dda i chi oll yn llon Go - bith - o gewch chi ie - chyd y flwy - ddyn hon A
fin - nau'n llawn serch i gael y gin - og goch Rwy' lawr ar y llawr 'ddar deu - ddeg o'r gloch.

Arafach
Blwy - ddyn ne - wydd dda i Gym - ru Blwy - ddyn ne - wydd dda i chi
Duw ro fen - dith ar y teu - lu Blwy - ddyn ne - wydd dda i chi

Rai misoedd yn ôl derbyniais lythyr oddi wrth Trefor Jones, Pontcanna, Caerdydd, yn amgáu cân yr arferai ei chanu ar Galan Ionawr ym mhedwardegau'r ganrif ddwaetha, yntau ar y pryd yn ddisgybl yn Ysgol Gynradd Pontardawe. Fe'i anfonid gan ei rieni, ben bore, gyda rhestr o enwau teuluoedd, i'w cyfarch ar gân y tu allan i ddrws cefn eu tai.

Erbyn hanner dydd byddai'n gallu rhoi i'w fam rhwng £3 a £4 o arian – heb fod ymhell o swm cyflog wythnos ambell weithiwr yn y gweithiau dur y pryd hynny. Mantais arbennig iddo oedd fod ganddo lygaid glas a gwallt du.

Mae'n amlwg hefyd, oddi wrth y recordiad o'r gân ar y cryno-ddisg a anfonodd, ei fod yn ganwr medrus yn ei blentyndod. Haedda'r gân sylw neilltuol gan ei bod yn gyfuniad o gyfarchion, fel pe bai'r cantor bychan am wneud yn siŵr fod y bobl oddi mewn i'r tai yn deall yn ddigamsyniol beth oedd yn digwydd y tu allan!

[Fel sy'n digwydd yn ein tŷ ni cefais gymorth parod gan Phyllis gyda'r adysgrifiadau cerddorol lle'r oedd angen am hynny. Rwy'n ddiolchgar iddi.]

Am adolygiad ar y cryno-ddisg y cyfeirir ati uchod, gweler t. 136 - Gol.

CANLYN Y FARI

Arfon Hughes

Nos Sadwrn, 12 Ionawr 2008, daeth tyrfa dda o bobl ynghyd i ganlyn y Fari Lwyd yn ardal Mallwyd a Dinas Mawddwy. Dyma'r wythfed flwyddyn i'r Fari frawychu'r ardal hon, a hynny ar y nos Sadwrn yn union ar ôl plygain Mallwyd ac yn cyd-fynd mor agos ag y mae modd â'r Hen Galan.

Bob blwyddyn, yn ogystal â'r selogion lleol, gwahoddir parti gwerin neu unawdwr go harti i ymuno â ni i grwydro'r wlad ac i godi canu yn y tafarndai sydd ar ein taith. Byddwn yn cydymgynnull acw, ym Mronhaul, Dinas Mawddwy, am chwech o'r gloch a bydd miri mawr wrth inni i gyd baratoi. Mae digon o bwnsh, digon o fwyd, a digon o hwyl i bawb. Yr arfer yw fod pawb sy'n dymuno gwneud hynny yn gwisgo dillad traddodiadol, ac eleni llogwyd dillad traddodiadol o 'Gingers Theatre Shop Aberystwyth' ar gost o ryw £18 y pen i ddynion a thuag £20 y pen i'r merched. Paratowyd ambell wisg yn unswydd ar gyfer yr achlysur, ac wrth gwrs bu'n rhaid cael noson bwrpasol ar gyfer holi meintiau, ac ati. Mae plant yr ardal hefyd yn ymuno â'r criw i fynd o amgylch y fro i ddathlu'r flwyddyn newydd yn y modd hwn.

Os bydd amser, byddwn yn creu penillion newydd wrth ganlyn y Fari – dipyn yn dalcen slip ydyn nhw ac yn blwyfol iawn, ond maent yn benillion addas iawn ar gyfer ein hanghenion ni, ac yn mynd i lawr yn dda hefo'r gynulleidfa. Y rhigymwyr fel rheol yw Mair Tomos Ifans, Rhiain Bebb a finnau – am y cyntaf i gyfansoddi. Eleni hwyrach oedd y tro cyntaf i mi a Mair beidio gwneud geiriau penodol, ond mae Rhiain Bebb wedi bod yn gwneud rhai bob tro mae hi wedi bod hefo ni. Fel arfer byddwn yn tynnu cymeriadau lleol i mewn i'r penillion. Llynedd, ar 13 Ionawr 2007, daeth parti Cut Lloi i ymuno â thaith y Fari, ond er mai Parti Meibion Llywarch oedd ein gwesteion eleni, 12 Ionawr 2008, bu'n rhaid inni ailganu penillion y llynedd wrth rowndio, ac ailddifeni'r Lloi!

Mae'r daith yn dechrau yn y Brigand's Inn ym Mallwyd, ac ar ôl i'r dynion lwyddo i gael mynediad mae swper bys-a-bawd blasus yno ar gyfer pawb. Wedyn mae'r plant yn actio'r ymryson a welsant o boptu'r drysau yn y

Brigand's, ond wrth gwrs yng nghlydwch y parlwr y digwydd hynny, nid dan y bargod diferol fel y digwyddodd i gwmni'r Fari eleni. Yna fe gawsom wyllo Parti Dawns Llangadfan, ac wedyn wrando ar Feibion Llywarch yn ein difyrru. Yn dilyn hynny mae'r Fari yn cerdded ymlaen i'r Buckley Pines, Dinas Mawddwy, lle digwydd yr un golygfeydd eto. Daw'r noson i ben yn swnllyd iawn yn y Llew Coch, Dinas Mawddwy – ac yn fwy swnllyd nag arfer eleni gan i rai aelodau o Barti Cut Lloi alw i mewn ar eu ffordd adref ar ôl bod yn cadw cyngerdd yn Harlech. Mae pob tafarn yn cynnig pryd o fwyd a llymaid o ddiod i'r Fari a'i chriw, a diolch yn dalpiâu iddynt am eu croeso ac am eu haelioni.

Penillion y Fari Lwyd a ganwyd ym Mallwyd a Dinas Mawddwy

13 Ionawr 2007 a 12 Ionawr 2008

1. Wel dyma ni'n dwad
Gyfeillion diniwad,
I 'ofyn am gennad – i ganu.
2. Deg o griw hawddgar
Rhai gorau ar y ddaear,
I ganu yn deyrngar – am gwrw.
3. Mae ffasiwn ymsona
Ers mil o flynydda
A hynny y cara – i brofi.
4. Cenwch eich gorau
Cans felly gwnan ninnau
A'r sawl a fo orau – gaiff gwrw.
5. Mae'n dawn i'ch cynhyrfu
Wrth feddwl am ganu
Y nos yn y gwely – mi goeliaf.
6. Mi ganwn am wythnos
A hefyd bythefnos
A mis os bydd achos – baidd i chwi.

7. Tapiwch y faril
Gollyngwch yn rhugil,
Na fyddwch ry gynnil – i ganwyr.
8. Mae Mari Lwyd lawen
Yn dod heb genfigen
A chanu yw ei diben – mi dybiaf.
9. 'Dyw wiw i chwi'n ffalsio
Na thrio ein swcro
'Ry'm ni yn ddiguro – fel dysgwyr.
10. Mae criw Dinas Mawddwy
Yn feirdd sy'n ganadwy
O yma i Gonwy - 'n ddiguro.
11. Mi ganwn bob blwyddyn
Os cawn griw i'n dilyn
Heb ofni 'run gelyn – ond cymorth.
12. Mae Roland y 'ffeirad
Yn dyfod, ar f'enad,
Gwna fe i chwi fynad – i ddysgu.

Arfon Hughes (12.1.2008)

Roedd dysgwyr y Gymraeg ymysg criw'r Fari (gw. pennill 9), a chyfeirir yn y pennill olaf at Rowland Barnes, ficer Mallwyd, sydd wedi dysgu'r Gymraeg ac sydd bellach yn rhugil.

Cân y Merched

1. Waeth pa mor ddiniwad y byddwch chi'n dŵad
Waeth pa mor ddiniwad y byddwch chi'n dŵad
'Sdim croeso i'ch ciwad (x3)
Na'ch cennad.
2. Cer o'ma 'rhen Fari a thaw ar dy weiddi
Cer o'ma 'rhen Fari a thaw ar dy weiddi
Does dim croeso iti (x3)
Waeth tewi.

3. Chwi ddynion sy'n ubain am swper mewn plygain
Chwi ddynion sy'n ubain am swper mewn plygain
Cewch chwislo mewn unsain (x3)
Am frecwast.
4. Sawl bwthyn 'sgen Elwyn ysgweiar Nantnodyn?
Sawl bwthyn 'sgen Elwyn ysgweiar Nantnodyn?
Ewch yno i ofyn (x3)
Am lety.
5. Nid baswr mo Arfon ond bas ydi'r afon
Nid baswr mo Arfon ond bas ydi'r afon
Lle daliwyd eich briwsion (x3)
O dalent.
6. Rhyw denor go dila 'di Arwel Puw ynta'
Rhyw denor go dila 'di Arwel Puw ynta'
Prin iawn ydi donia (x3)
Chwi'r dynion.
7. Pyncio rhyw fymryn wna Robat o'r Boncyn
Pyncio rhyw fymryn wna Robat o'r Boncyn
Cyn drachtio ei wydryn (x3)
I'w waelod.
8. Ma'r Marc 'na'n cyboli a'r England sy'n porthi
Ma'r Marc 'na'n cyboli a'r England sy'n porthi
Mae 'migraine' ar Mari (x3)
O'r mawredd!
9. Hen fustych go salw o'r Cut Lloi yn fan'cw
Hen fustych go salw o'r Cut Lloi yn fan'cw
Rhowch daw ar eich twrw (x3)
Rhai truain.
10. Mae dawnswyr Llangadfan yn prancio'n go simsan
Mae dawnswyr Llangadfan yn prancio'n go simsan
'Rôl oriau o botian (x3)
O beintiau.

11. Wnawn ni ddim gwrthod os prynwch chi ddiod
Wnawn ni ddim gwrthod os prynwch chi ddiod
I bob un o'r genethod (x3)
A gana.
12. Os rhowch i bob lodes rhyw fymryn o anwes
Os rhowch i bob lodes rhyw fymryn o anwes
Bydd cig yn eich potes (x3)
O'r popty.
13. Ma'r gasgen 'di chrafu a chitha 'di sythu (neu glychu)
Ma'r gasgen 'di chrafu a chitha 'di sythu (neu glychu)
Dowch mewn a chynhesu (x3)
O'n cwmni.
14. Fe lusgwn y bolltia ac agor y drysa
Fe lusgwn y bolltia ac agor y drysa
Cewch aros tan bora (x3)
A brecwast.

Cyfeiriadau

- 4.1 "Elwyn ysgweiar Nantnodyn": Elwyn Jones sy'n ffermio Nant-y-nodyn, Dinas Mawddwy, ac sy'n gosod bythynnod gwyliau
- 5.1 Arfon: Arfon Hughes, cynullydd y daith
- 6.1 Arwel Pugh: Arweinydd parti plygain Mawddwy
- 7.1 Robat o'r Boncyn: Robert Edwards, Bryn Siôn
- 8.1 Marc ac England: Marc Lewis, Penegoes; Stuart England, dysgwr Cymraeg

Cân fuddugoliaethus y Fari

1. Y tylwyth teg o'r teulu
A ddewch chwi i'r golau heb gelu
I weld y Wasael yn ddi-aeth
Nid oes ei bath hi'n Nghymru.

2. Mae'n berllan o lydan flodau
O lwyrfryd hardd a lifrai
Rhubanau gwychion brithion braf
A luniwyd yn ddolennau.
 3. Mae'n gaseg lwysgedd wisgi
Mae miloedd yn ei moli,
Ei phen hi'n gnotog enwog iawn
O foddion llawn difaeddu.
 4. Daw'r *Sergeant* gwych a'i gwmni
Yn wrol i'n blaenori,
At y gwaith, mae eto i'w gael
Wych wastad Gorp'ral gwisgi.
 5. Daw'r Osler gyda'i gaseg
A ledia hon yn landeg
A'i ffrwyn a'i gyfrwy gydag e
I rodio'r lle dan redeg.
 6. Daw hefyd Bwnsh a Siwan
Ar unwaith o'r un anian,
Dau filain draw 'run lliw â'r drwg
Neu'r annedd fwg ei hunan.
 7. Yn awr 'rwy'n darfod canu
Rhowch i mi i ymborthi
Blwyddyn newydd dda i chwi i gyd
A phawb o'r byd, serch hynny.
- 'Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd!'

Cyn ymadael â'r tŷ
Dymunwn i'ch lawenydd
I gynnal blwyddyn newydd;
Tra paro'r gŵr i dincial cloch,
Well, well y boch chwi beunydd.

Yn ychwanegol at y penillion uchod canwyd y penillion a ganlyn 12.1.2008:

1. O'r Parc ger Y Bala
Daw'r Hen Lywarch hyna',
A'i feibion ysmala – i drïo canu.
2. 'Rhen Lywarch a'th deulu
Pa les i chwi frefu?
'Se'n well i chwi ddysgu – chwibanu.
3. Er clywed sibrydion
Eich bod yn brydyddion,
Eich cerddi sy'n gochion – 'rhen Wylïaid.

Rhiain Bebb

Yr Hen Lywarch yw Dan Puw, arweinydd Meibion Llywarch.

Y CANIEDYDD CYMREIG – RHAGOR AM IEUAN DDU A'I GANEUON

Nigel Ruddock

Parheir yma â'r ymdriniaeth ar waith Ieuan Ddu a ddechreuwyd yn *Canu Gwerin*, 30, tt. 63–78. Yn y rhifyn hwnnw trafodwyd dau ben, sef:

(I) awgrymu geiriau ar gyfer dwy gân arall yn *Y Caniedydd Cymreig*³¹

(II) trafod pum eitem yn *Y Caniedydd Cymreig* sydd o ffynonellau ansicr

Yn yr erthygl hon bwriedir trafod trydydd pwynt, sef *Y Caniedydd Cymreig* a chyhoeddiadau cynnar Ieuan Ddu.

(III) *Y Caniedydd Cymreig* yng nghyd-destun cyhoeddiadau cynnar Ieuan Ddu

(IIIa) Y Cyhoeddiadau Cynnar

Yn ei erthygl ar Ieuan Ddu yn *Taliesin*, 58 (1986) dywed Dr Meredydd Evans '... y mae'n dawedog ynglŷn â pha bryd yn union y dechreuodd gofnodi alawon a chaneuon traddodiadol'. Mae cyhoeddiadau cynnar Ieuan Ddu yn cynnig modd i ni ddechrau ffurfio barn am y cwestiwn uchod ac ynghylch ystyriaeth ehangach, sef, pa arwyddocâd yr oedd Ieuan ei hun yn ei roi ar gyhoeddi'r *Caniedydd Cymreig*.

(i) 'Fy Hoff Wlad' yn *Y Llinos*

Ymddengys mai'r cofnod cynharaf o waith Ieuan yw ei gerdd 'Fy Hoff Wlad' ar y mesur 'Sweet Home' gan J. Thomas, Caerfyrddin, yn *Y Llinos*.³² Dyddiad y rhagarweiniad gan y cyhoeddwr, Brychan, yw Chwefror 1827. Gwelir yr un gerdd dan y teitl 'Hiraeth Cymro am ei Wlad', gyda phennill ychwanegol o waith Brychan, yn *Telyn y Cantorion*; ... sef caniadau newyddion ... wedi eu cyfansoddi i gyfatteb rhai o'r tonau pereiddiaf ag a arferir yn mhlith y Cymry, y Saeson, yr Albaniaid, &c / gan John Thomas, gynt o Gaerfyrddin: ac yn gyhoeddedig gan J. Brychan 1828. Fe'i gwelir eto, heb bennill Brychan y tro hwn, yn *Y Caniedydd Cymreig* (t. 84). Mae'n amlwg fod y gerdd hon, ar yr alaw 'Sweet Home', yn gryn ffeifryn gan Ieuan! Mae tystiolaeth *Y Llinos* yn awgrymu bod Ieuan yn ardal Blaenau'r Cymoedd ddechrau 1827, sef rhyw dair blynedd cyn y dyddiad a

amcangyfrifir yn *Music and Musicians of Merthyr and District*.³ Yn y gyfrol honno sonnir bod Ieuan yn gweithio am gyfnod i Zephaniah Williams o'r Argoed. Dyma a ddywedodd Dr Meredydd Evans: 'Aeth i weithio fel clerc mewn pwl glo a berthynai i Zephaniah Williams, y Siartydd; gan fyw, mae'n debyg, ym Machen.' Ai cofnod o'r adeg honno yw cerdd Ieuan 'Farwell to Bedwas' ar yr alaw 'Pe Cawn i Hon'? Dedfrydwyd Zephaniah Williams i farwolaeth yn 1840 ac yna fe'i alltudiwyd i Tasmania.

(ii) *Telyn y Cantorion*

Yn ei ragarweiniad i *Telyn y Cantorion* dywed Brychan, 'Canfyddir fod yr Awdur wedi ymwrthod ... â gib geb y cynghaneddion ... y mae ef wedi dewis efelychu yr enwog fardd, Burn [*sic*]'. Ieuan Ddu ei hun sy'n gyfrifol am weddill y rhagymadrodd, a hynny yn Saesneg.

Let our Poets not scorn to hear their lines sung over the milking pail, or beside the labouring team. It is said that the airs of the great Mozart are heard from under the hawthorn ... it is no great condescension in Welshmen ... adopting and naturalizing the Airs of other nations. Sweet Home and Lang Syne, and many besides, are now pretty much familiarized to us ... We are obliged to speak two languages; let us sing in them as well ...

Ymddengys fod Ieuan â'i fryd ar ddisodli hen alawon yn hytrach na'u diogelu yn 1828!

Ieuan Ddu yw awdur 50 o'r 51 eitem a geir yn *Telyn y Cantorion*. Mae tair eitem sydd heb enw alaw, ynghyd â nifer o gerddi ar yr un alaw. Enwir 35 o alawon. Mae o leiaf un ar ddeg o'r alawon Cymreig yn deillio o'r casgliadau telyn. Ceir rhywfaint o amwysedd wrth adnabod enwau rhai ohonynt, er enghraifft ai 'Bwrw Gofal Ymaith' yw 'Begone Dull Care', ac ai 'Haste to the Wedding' yw 'Brysiwch i'r Neithior'?

Mae'n amlwg fod yr alawon Cymreig yn y lleiafrif, cyfanswm o tua phymtheg. Enwir 'Y Ferch o'r Scer', 'Fanny Blooming Fair' a'r 'Belisle March' – a'r rheini heb fod yn gyhoeddedig ar y pryd mewn casgliadau o gerddoriaeth Gymreig. Mae deg cerdd Saesneg, i gyd ar donau estron. Cerddi Cymraeg ar alawon estron yw crynswth cynnwys y llyfr felly.

Ceir dwy gerdd, un yn Gymraeg ac un yn Saesneg, sy'n ymwneud â'r Odyddion (Odd Fellows), a Brychan eto'n gyfrifol am dri phennill olaf y gerdd Gymraeg. Dywedir mai 'Brychan a fu'n bennaf gyfrifol am gyflwyno

Odyddiaeth i orllewin Sir Fynwy. Agorwyd y gyfrinfa gyntaf yn yr ardal ganddo yn Nhredegar yn haf 1829.³⁴ Mae tystiolaeth *Telyn y Cantorion* yn awgrymu y gallai hynny fod wedi digwydd flwyddyn ynghynt. Yn *Oes y Byd i'r Iaith Gymraeg* cawn gip ar Ieuan Ddu ychydig yn ddiweddarach yn areithio mewn cyfarfod Cymreigyddion Syrhywi yn 1836. 'Yr oedd nifer o aelodau Cymdeithas Ryddymofynwyr Merthyr Tudful yn bresennol yn y cyfarfod, ynghyd â'r telynor (a'r Siartydd), Llewellyn Williams a ddisgrifiwyd fel "mab y Cymro serchog a haelionus, Zephaniah Williams".³⁵

Mae *Telyn y Cantorion* yn awgrymu cysylltiadau Ieuan â mudiadau radical dosbarth gweithiol, ag â'r bardd Brychan a ddisgrifiodd Gymreigyddion Y Fenni fel 'Gwehilion Saeson sosi / A haeddant gael eu crogi'.³⁶

Ai teg y gymhariaeth rhwng Ieuan Ddu a Burns? Darparai Ieuan eiriau ar gyfer alawon cenedlaethol mewn ymdrech i'w poblogeiddio, ac arloesai mewn maes y byddai Ceiriog yn ei ddilyn ynddo gyda pheth mwy o lwyddiant. Cyflawnodd Burns waith tebyg. Yr oedd Ieuan hefyd yn dipyn o radical, a dyma agwedd arall a gysylltir â Burns. Ai teyrnged i Burns oedd cynnwys 'Auld Lang Syne' yn *Y Caniedydd Cymreig* gan honni mai dyma'r unig alaw estron yn y casgliad?

Diddorol yw sylw Bardd Alaw yn *Trafodion y Cymmrodorion* (1828): '... I have in my possession ... nearly four hundred tunes; among which there are many most beautiful; but, for want of a Moore, or a Burns, to wed them to poetry, they are not known ... '. Mae nifer o gerddi *Telyn y Cantorion* yn ailymddangos yn *Y Caniedydd Cymreig*, rhai ohonynt ar alawon telyn Cymreig, rhai eraill megis 'Pawb i mi yn frodyr' ar d. 123 (a gyfansoddwyd yn wreiddiol ar 'The passport of life') heb grybwyll alaw o gwbl, a'r gweddill, megis 'Tŷ Fy Nhaf' (a gyfansoddwyd eto ar 'Auld Lang Syne'), yn ymddangos ar alawon o waith Ieuan Ddu.

Ai'r ysfa i gynnwys nifer o'i hen gerddi a yrrodd Ieuan i gyfansoddi alawon o'i waith ei hun ar gyfer *Y Caniedydd Cymreig*? Soniwyd yn yr erthygl flaenorol mor anghydnaws yw rhai o ganeuon Ieuan o'u cymharu â'r geiriau sy'n ymddangos yn rhai traddodiadol. Ai priodi alawon traddodiadol â hen gerddi o'i waith ei hun sy'n gyfrifol am yr anghysondeb? Un peth sy'n sicr: ni chyfansoddwyd holl delynegion *Y Caniedydd Cymreig* yn unswydd ar gyfer y gyfrol honno.

Eitem arall a geir ym mhob un o'r tair cyfrol a grybwyllwyd uchod yw ffurf ar 'Nos Galan'. Ceir dwy gerdd gan Brychan ar fesur 'Nos Galan' yn *Y Llinos* gyda phenillion pedair llinell traddodiadol. Cynhwysa *Telyn y Cantorion* ddwy gerdd gan Ieuan Ddu ar fesur a ddisgrifir y tro hwn fel 'Nos Galan yn ei hyd'. Mae'n werth dyfynnu pennill o'i gerdd 'Llithriad Difai':

O ryfeddod! beth dâl siarad
Glywsoch chwi y newydd hyn?
D'wedir fod ein hanwyl 'ffeiriad,
Weithiau'n coglais Bett o'r Inn:
Wfft! O wfft! Yn enw'r anwyl,
Beth yw'r gwyniau sy'n y cnawd,
Bod fath ddŷn yn myn'd mor rhigyl,
At waith blŷs rhwng bŷs a bawd.

Dilynir yr un patrwm yn *Y Caniedydd Cymreig*, ond y tro hwn rhydd Ieuan eiriau Saesneg ar yr alaw. Mae'n bosibl fod y pennill a ddyfynnir uchod gyda'i thema wrtheglwysig eto'n adleisio Burns. Yn sicr, ni fyddai'n debygol o blesio'r eglwyswraig a'r ddirwestwraig honno, Arglwyddes Llanofer! Boed hynny fel y bo, mae'n werth sylwi ar rai pwyntiau eraill:

- a) Petai Ieuan Ddu yn cynrychioli ein hunig ffynhonnell ar gyfer 'Nos Galan', mae'n debyg y byddai'r cyflymder dipyn yn arafach na'r hyn sy'n arferol oherwydd baich geiriol y penillion.
- b) Mae patrwm y pennill pedair llinell arferol wedi ei golli'n llwyr gan Ieuan Ddu. Heblaw am ddyblu hyd y pennill, mae nifer y sillafau yn amrywio o linell i linell, a'r patrwm odli wedi ei drawsnewid hefyd.
- c) Collwyd pob achos o'r byrdrwn 'Ffa la la la la la la', pwnc y dychwelir ato yn y man.

Amheuir bod tuedd gyffredin yn y cyfnod i ddileu unrhyw elfen o ailadrodd. Cymharer geiriau Taliesin ab Iolo: 'Instead of repeating the last two lines, I have added two others in extension, to suit the tune, a course that, in my opinion, ought always to be adopted!'³⁷

(IIIb) Astudiaeth fanylach o dair cân o'r *Caniedydd Cymreig*

(1) *Y Fedwen Las (Y Caniedydd Cymreig, t. 195)*

Mae'r alaw hon ar y mesur 86868686, sef yr un mesur ag 'Auld Lang Syne' ac mae'n rhannu'r un rhythm â nodiant Ieuan o'r alaw honno. Mae pennill cyntaf Ieuan yn agor gyda'r geiriau: 'John Owen, it was happy time / When

'neath thy rolling eye ...'. Mae cân Ieuan yn awgrymu amrywiad ar 'John Anderson My Jo' a gyhoeddwyd gan Burns yn *The Merry Muses of Caledonia*. Ceir addasiad tri phennill o gerdd Burns gan Cuhelyn ar yr alaw Albanaidd yn *Y Cerddor Cymreig*,³⁸ a chyhoeddwyd amrywiad arnynt ar alaw arall yn y *Perl Cerddorol*.³⁹ 'Shôn Dafydd' yw teitl cerdd Cuhelyn. Llinellau seithsill a geir yn 'Shôn Dafydd' yn lle'r rhai wythsill sydd gan Ieuan, ond gellir gwneud iddynt orwedd yn ddigon cyfforddus ar yr alaw. Noder hefyd y brawddegau cerddorol sydd â therfyniad gwrywaidd, sydd eto'n awgrymu tarddiad estron. Ymddengys fod nodyn olaf 'Y Fedwen Las' ar goll yn nodiant Ieuan, ac mae lle i amau'r G# ym mar 9. Ceir gwallau amseriad ym marrau 11, 12 a 15. Dewiswyd cwafer gyda dot a hanner-cwafer fel hyd y ddau nodyn cyntaf ym marrau 3, 7, 11 a 15 gan fod hynny'n gweddu'n well ar gyfer geiriau Cymraeg. Mae Ieuan yn eu nodi i'r gwrthwyneb ar gyfer ei eiriau Saesneg. Ai dyma achos ei wallau amseriad?

Y Fedwen Las

Shôn Dafydd ufudd add-fwyn, Pan gyntaf gwela's chwi, Eich
gwallt oedd fel y frâ-n, Shôn, Aich talcen gwyn yn hy'; Ond
nawr mae'ch pen yn noe-th, Shôn, Aich gwallt fel sidan gwyn, A
guywodd rhos eich graddiau glân; Ond hardd gch chw-i er hyn-

Gellir disgwyl o deitl Ieuan ryw gyfeiriad at 'fedwen las' yn y geiriau a glywodd. Ai geiriau'n cymharu dyn ifanc unionsyth â'r fedwen las oedd y rheini? O ran ei cherddoriaeth (ac efallai o ran thema debygol y geiriau hefyd) mae'n bosibl fod 'Y Fedwen Las' yn adlewyrchu dylanwad yr Alban ar gerddoriaeth boblogaidd Cymru yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

(2) Y Gelynen (*Y Caniedydd Cymreig*, t. 22)

Yn CCAGC II (i) cymherir yr alaw a nododd Ieuan Ddu gydag un a nodwyd

gan J. Lloyd Williams yn Llandybïe. Dywed ymhellach, 'It is clearly the same melody.' Nid yw'r pennill a nodwyd yn Llandybïe yn gwneud defnydd o'r anacrwsis. Gwahaniaeth trawiadol arall yw fod alaw Llandybïe yn cynnwys byrdwn tebyg i 'Nos Galan' ac yn ailadrodd dwy linell olaf y pennill. Fel yn achos 'Nos Galan' penillion 8 llinell a geir gan Ieuan Ddu ar alaw 'Y Gelynen'. Ceir amrywiadau eraill ar bennill Llandybïe yn *Casgliad o Lân Gwerin Sir Gaerfyrddin*⁴⁰ ac yn *History of Llangynwyd*.⁴¹ Wrth ddileu dau anacrwsis o alaw Ieuan Ddu a gosod arni'r geiriau a geir yn *History of Llangynwyd*, ceir y ffurf a ganlyn:

Y Gelynen

Tipyn bach yn gwsr yr haf, Peth ffein a braf yw bedwens;
Ond pan ddelo'r gae-af dig, Mae'n well dan frig cel-yn-en
la la la, la la la la, Ffa la la la, la la la la la la,
Ond pan ddelo'r gae-af dig, Mae'n well dan frig cel-yn-en.

Nid Ieuan Ddu yw'r unig ffynhonnell ar gyfer penillion 8 llinell ar alaw debyg i'r uchod, fodd bynnag. Yn *CCAGC IV* (i) ceir naw pennill o waith Dafydd Nicolas, Aberpergwm. Dyma'r cyntaf ohonynt:

Hoff yw clywed clod gan fardd
I bopeth hardd dan wybren;
Hoffa' peth dan haul a sêr
Yw llafar pêr yr ywen.
Hoff yw gennyf yn y gwŷdd
Ddifyrnu'r dydd yn llawen
Lle cân 'deryn pêr ei big
Ar lunaidd frig celynen.

Yn wahanol i benillion Ieuan Ddu ar 'Nos Galan', mae modd cymryd pedair llinell olaf y pennill hwn a'u canu ar yr alaw uchod. Dim ond ychydig o addasu sydd ei angen er mwyn gwneud peth cyffelyb gyda phob un o

benillion Dafydd Nicolas. Oedd Dafydd Nicolas wedi llunio ei gerdd yntau ar gyfres o benillion pedair llinell traddodiadol? Posibilrwydd arall yw fod alaw Dafydd Nicolas rywfaint yn debycach i ‘Bugeila’r Gwenith Gwyn’ ac felly yn fwy hamddenol ei naws na’r alaw uchod.

Weithiau defnyddir ymadroddion megis ‘byrdwn o sillafau disynnwyr’, neu hyd yn oed ‘geiriau lol’ a ‘geiriau difeddwl’, i ddisgrifio byrdwn o’r math a geir yn ‘Nos Galan’. Efallai y gellir maddau cyfeirio at y cyfryw elfennau fel ‘elfennau o gerdd wefus’. Maent yn haeddu ystyriaeth, ac wedi’r cwbl nid yw’r disynnwyr bob amser yn ddiystyr!⁴² Cyfeiria Dr Ceinwen Thomas at ‘rablganu: to make mouth music’ ar dud. 674 o’i hastudiaeth *Tafodiaith Nantgarw*.

Gallai’r gân ‘Cerais Ferch’ fod yn enghraifft o geisio dileu’r cyfryw elfennau yn *Ancient National Airs*. Nid yw bob amser yn hawdd dehongli cyfarwyddiadau Maria Jane Williams ynghylch ailadrodd rhannau alaw. Serch hynny, sylwer ar y prinder geiriau wrth ailadrodd rhan A o’r alaw ‘Cerais Ferch’. Mae’n bosibl fod y geiriau i’w cysylltu â’r ddau far cyntaf yn unig, a bod dau far olaf rhan A i’w cysylltu’n wreiddiol ag elfen o gerdd wefus. (Maent yn edrych yn hynod o debyg i frawddeg ar gyfer y delyn.) Byddai dehongliad felly yn dod â’r alaw argraffedig yn llawer nes at nodiant Iolo Morgangwg fel y’i ceir yn nodiadau’r ailargraffiad ffacsimili.

Ceir tystiolaeth gyfamserol ynghylch trin elfennau o gerdd wefus wrth addasu geiriau i alawon traddodiadol yn y gyfrol *Orain na ’h-Albain*.⁴³ Gan fod geiriau Saesneg yn ymddangos ochr yn ochr â’r Gaeleg gwelir yn glir duedd i osgoi elfennau cerdd wefus yn yr addasiadau. Trwy wneud hynny ceir mwy o ofod i greu odl a chario’r ystyr ac osgoir problem cyfleu’r cyfryw elfennau mewn iaith arall. Beth yw arwyddocâd hynny yng nghydestun y drafodaeth bresennol? Gwelwyd eisoes fod Ieuan Ddu wedi cael ei ddylanwadu gan gynnyrch o’r fath. Faint o sylw a roddai Burns i sillafau disynnwyr? Efallai nad yw’n syndod gweld tuedd i osgoi’r cyfryw elfennau mewn cyhoeddiadau Cymreig – nid am reswm sydd o anghenraid yn ymwneud â chyfieithu, ond am fod cyfieithiadau / addasiadau i raddau’n pennu disgwyliadau’r cyfnod. Cymharer, er enghraifft, sylwadau D. Emllyn Evans ar yr alaw ‘Dacw Nghariad’ yn *CCAGC* I (i): ‘A good air, but largely spoilt by the Tw-rym-di-ro, &c.’

Enghraifft arall o addasu geiriau i alaw yn ei hyd yw geiriau Sir Walter Scott ar ‘Triban Gwŷr Morgannwg’.⁴⁴ Ailargraffwyd y rheini yn *Y Caniedydd*

Cymreig ynghyd â chyfieithiad Ieuan o'r geiriau Saesneg. Dyma enghraifft arall o bennill triban yn troi'n bennill wyth llinell!

(3) Y Gofid Glas 'nol dull Morganwg (*Y Caniedydd Cymreig*, t. 160)

O'r teitl gellid disgwyl amrywiad ar y gainc 6/8, 'Y Gofid Glas', a gyhoeddwyd gan Edward Jones yn *The Bardic Museum*,⁴⁵ ond nid felly.

Cynhwysodd Ifor Ceri fersiwn o'r un alaw â Ieuan Ddu ar f. 144 *Melus-Seiniau Cymru*, gan nodi 'J Howells, Morganwg' fel ei ffynhonnell, a'r amseriad yn *moderate*. Cyhoeddwyd yr alaw gyda mân wahaniaethau yn *Welsh Harper II*⁴⁶ dan y teitl 'Swydd Vorganwg', gyda'r cyfarwyddyd *with spirit*. Noda Ifor Ceri bennill o gân gan Siemsyn Turbil, 'Ffarwel Morganwg wiwlan olwg ...' ar gyfer yr alaw, gan roi'r geiriau *cetera desunt* i ddangos bod gweddill y penillion wedi'u hepgor. Rhestrir hon gan Daniel Huws yn y dosbarthiad 'y mae rheswm i dybied y geill y geiriau a gofnodir ar eu cyfer fod yn rhai dilys'.⁴⁷ Nid gwaith hawdd, fodd bynnag, yw gosod y geiriau hyn ar yr alaw. Yn ogystal â dyblu rhai nodau, i gael anacrwsis ar ddechrau rhan B byddai angen darparu sillaf ychwanegol yn nhrydedd linell y pennill. Noder nad yw'r geiriau'n awgrymu bod rhan B yr alaw i'w hailadrodd. Dyma ymgais i nodi'r gân sydd gan Ifor Ceri dan y teitl 'Gofid Glas Deheubarth':

Gofid Glas Deheubarth

Ffar-wel Morgannwg wiwlan olwg, rwyf fel dyn drwg o dre, Yn
gerfod cychwyn, f'achwyn i chwi, 'n y blaen nis gan i ble. [Er]
nid fy nwyllaw i na 'nyled, Duw gŵyr, a'm gyrrodd i ar gerdded,
Ond eisiau'n greulon, galon galed, Allu amharchu'n fwy y merched
O'n i'n wiwlan yn eu gweled mor lloned yn rhob lle.

Ac eithrio'r anacrwsis sylwer bod rhan gyntaf yr alaw yn osgoi'r nodyn F. Gallai'r raddfa hecsatonig awgrymu dylanwad Gwyddelig, o bosibl. Ceir yr un dilyniant â'r naw nodyn cyntaf ar ddechrau'r gân 'Never Despise an Old

Friend' yn *The Petrie Collection of the Ancient Music of Ireland*. Mae naws bruddaidd i'r alaw fel y'i cofnodwyd gan Ifor Ceri, sy'n cyd-fynd â'r amseriad *moderate*, y teitl 'Gofid Glas Deheubarth', ac â geiriau Siemсын Turbil sy'n disgrifio dyn yn ymadael â'i fro.

Cofnododd Ieuan Ddu yr alaw gan nodi'r cyweirnod F fwyaf, a dewis hwnnw yn ôl nodyn cyntaf yr alaw, mae'n debyg. Ond mae'r nodyn B yn naturiol ym mhob man ar wahân i farrau 14 a 16 – mae'n debyg iddo anghofio newid y rheini! Felly, gellir ystyried bod alaw Ieuan i bob pwrpas ymarferol, fel un Ifor Ceri yntau, yng nghywair C fwyaf. Ni nododd y rhythm, ond ceir 2/4 ar gyfer yr alaw yn *Davidson's*.⁴⁸

Un o'r pethau cyntaf sy'n hawlio sylw yn alaw Ieuan yw'r motiff esgynnol dau far o hyd sy'n ymddangos yn marrau 3 a 4, 7 ac 8, ac yn y ddau far olaf. Er bod motiff tebyg yn alaw Ifor Ceri, mae motiff Ieuan yn sefyll allan fel math o ddiweddeb a allai awgrymu brawddeg ar gyfer y delyn. Petai'r darn yn gainc ar gyfer penillion gellid meddwl am y diweddeb yn nhermau 'symffoni'. Awgrym Ieuan Ddu yw fod yr alaw wedi ei chasglu ar ffurf cân. Gallai'r motiff gyfateb i elfen o gerdd wefus felly, neu o bosibl i ymadrodd sy'n cael ei ailadrodd fel ffrâm i'r pennill.

Elfen ddiddorol arall yn nodiant Ieuan yw'r cipiad rhythmig sy'n digwydd ar ddiwedd bar 10, lle ceir hanner-cwafer ar E a C yn nodiant Ieuan. Nid yw hynny'n gwneud unrhyw synnwyr yng nghyd-destun ei linell Gymraeg wythsill. Daw'r esboniad yn ei linell Saesneg nawsill, 'Was labour's balm and warrior's solace'. Mae'n debyg i Ieuan newid ei nodiant er mwyn un llinell ym mhennill cyntaf ei gân Saesneg. Noder bod y dull hwn o ganu yn ategu'r cipiadau a wnaed uchod ar gyfer cân Siemсын Turbil.

Nodwedd arall sy'n drawiadol yn nodiant Ieuan yw'r defnydd a wneir o'r ffermata. Mae'r ffermata a'r diweddeb fel petaent yn atalnodi'r alaw. O ystyried yr alaw yn gainc ar gyfer penillion byddai'r pedwar bar olaf yn cyfateb i linell olaf y pennill ynghyd â'r diweddeb. Beth am y pedwar bar sy'n rhagflaenu'r rheini rhwng y ddau ffermata? Gallent gyfateb i ddwy linell arall o'r pennill, ond os felly bydd cyfanswm llinellau'r pennill yn odrif megis 5. Mae penillion pum llinell i'w cael,⁴⁹ ond maent yn gymharol brin ac yn tueddu i fod yn llenyddol eu naws. Y peth tebycaf yw fod llinell yn cael ei hailadrodd yn y pedwar bar dan sylw. Yng nghyd-destun pennill pedair llinell ceir y patrwm a ganlyn:

llynell 1, diweddeb; llynell 2, diweddeb;
 llynell 1, ffermata; llynell 2, ffermata;
 llynell 3, llynell 3, ffermata;
 llynell 4, diweddeb.

Mae naill ai ddiweddeb neu ffermata yn gwahanu pob llynell o'r pennill, a nodwedd amlwg yw'r holl ailadrodd. Mae angen ergyd yn llynell olaf y pennill a rhyw ddilyniant cryf o linell i linell os yw'r canu'n mynd i fod yn effeithiol. Dyma bennill o'r gyfrol *Dail y Gwanwyn*⁵⁰ yn enghraifft o'r patrwm uchod. Bydd yr ymadrodd 'Dyna i chi'r gwir' yn gwneud y tro fel byrdwn geiriol sy'n cyfateb i'r diweddeb.

Y Gofid Glas 'nôl dull Morganwg

Pan owa i'n croesi mynydd bychan, dyna i chi'r gwir,
 Cwrddyd wne's â theisen lechwan, dyna i chi'r gwir,
 Pan owa i'n croesi mynydd bychan cwrddyd wne's â theisen lechwan;
 Minne 'goras fy hen safan, minne 'goras fy hen safan,
 Braidd na wne's ei llyncu'n gyfan, dyna i chi'r gwir.

Trwy wneud defnydd o anacrwsis gellir gosod geiriau Siemsyn Turbil ar yr alaw hefyd. O arafu'r cyflymder mae'n syndod pa mor effeithiol yw'r un alaw ar eu cyfer. Efallai fod llawer o apêl yr alaw hon i'w briodoli i'r ffaith ei bod yn rhychwantu'r llon a'r lleddf: eitem ddefnyddiol i'r cerddor felly, ac o bosibl yn dipyn o her i'r canwr!

Mae'r amseriad *allegretto* a geir ar ei chyfer yn *Davidson's*, ynghyd â *with spirit* Bardd Alaw a defnydd Ieuan Ddu o'r ffermata, yn cefnogi'r defnydd o bennill ysgafn. Nid yw Ieuan yn rhoi cyfarwyddyd ynglŷn â'r cyflymder, ond nid yw ei eiriau'n rhai pruddaidd. Oni bai am fersiwn Ifor Ceri, felly, byddai'r teitl 'Y Gofid Glas' yn dipyn o ddirgelwch.

Cynhwysir ‘Y Gofid Glas’ Edward Jones yn *Y Caniedydd Cymreig* dan yr enw ‘Yr Hen Ofid Glas’. Yno nid oes ailadrodd yn rhan B ac mae newid dibwys i hyd y nodyn olaf. (Yr alaw hon a ailargraffwyd yn *Davidson’s* gan roi iddi’r enw ‘Y Gofid Glas – Blue Devils’, a chyda newid dibwys eto i hyd nodyn olaf rhan A.) Strwythur yr alaw yw AAB felly, gyda motiffau dau far sy’n cyfateb yn eu lleoliad i’r diweddeb a grybwyllwyd uchod, er nad yr un motiff a geir yn rhan A a rhan B. Gan fod yr un nifer o farrau yn y ddwy alaw gellir canu penillion ar y ddwy yn ôl y patrwm a amlinellir uchod, gan ddyblu’r nodyn ym mhob achos lle ceir crosiet gyda dot yn alaw Edward Jones. Gallai’r ailadrodd fod yn dra effeithiol yn achos pennill pruddglwyfus ei naws, gyda’r teimlad yn cynyddu o linell i linell. Os nad yw dehongliad Ifor Ceri yn ddigonol i gyfiawnhau’r teitl ‘Y Gofid Glas’ mae’n bosibl mai tebygrwydd o ran y dull o ganu pennill ar alawon Edward Jones a Ieuan Ddu sy’n gyfrifol am gysylltu’r teitl ‘Y Gofid Glas’ â’r olaf. Nid yw Edward Jones yn cynnig arweiniad ar sut i ganu ar yr alaw yn *The Bardic Museum*.

Diwedd glo

Cynigir yn betrus fraslun o’r ffordd yr aeth Ieuan Ddu ati i gynhyrchu’r *Caniedydd Cymreig*. Mae tystiolaeth *Telyn y Cantorion* Rhan III yn awgrymu nad oedd Ieuan yn ymddiddori rhyw lawer mewn caneuon traddodiadol yn 1828. Mae Rhan I yn awgrymu mai craidd y casgliad a gyflwynodd i Eisteddfod Cymreigyddion y Fenni 1837 oedd caneuon J. Price, caneuon a gasglodd yn ystod y cyfnod 1828–37, efallai yn unswydd ar gyfer y gystadleuaeth. Yn Rhan II gwelir ei bod hi’n debygol fod Ieuan Ddu wedi casglu caneuon Rhys Evans tua’r cyfnod 1840–5 ac mae tystiolaeth Rhan I yn awgrymu bod ‘Mae Dau Ddrws ar y Dafarn’ yn perthyn i’w gyfnod diweddarach o gasglu hefyd, cyfnod pan oedd am sicrhau ei fod wedi casglu’r un nifer o ganeuon ag a gasglodd Maria Jane Williams yn *Ancient National Airs*. Mae Rhan III yn dangos iddo gynnwys yn *Y Caniedydd Cymreig* gerddi a gyfansoddwyd ganddo cyn 1828 ar alawon telyn Cymreig ac ar donau estron. Weithiau cynhwysodd gerddi heb enwi’r alaw estron, dro arall enwodd dôn briodol, a thro arall cyfansoddodd alawon newydd ar eu cyfer. Ymdrinnir â ffynonellau’r alawon telyn yn Atodiad 3.

Yn Rhan II cynigiwyd dosraniad o gynnwys *Y Caniedydd Cymreig*, ynghyd â thrafodaeth ar alawon sydd o ffynonellau ansicr. Dadleuir y dylid ychwanegu ‘Y Deryn Glas sydd ar y Tŷ’, ‘Tri Thrawiad’ a ‘Dull o’r Triban’

at restr caneuon traddodiadol *Y Caniedydd Cymreig*. Ymddengys mai Ieuan Ddu yw ffynhonnell ‘Y Deryn Glas sydd ar y Tŷ’, ond mae’n anodd gwybod pa ganeuon eraill a gyfrannodd Ieuan i’w gasgliad. A gafodd ei demtio i gynnwys rhai gyda’r 43 a restrodd? Ai dyma’r rheswm pam nad yw yn enwi pob ffynhonnell? (Gweler ymhellach y nodyn ar ‘Pe Cawn i Hon’ yn Atodiad 3.)

Ychwanegir 3 atodiad:

1. Geiriau caneuon Ieuan Ddu yn y traddodiad llafar
2. Ffynonellau alawon telyn *Y Caniedydd Cymreig*
3. Mynegai i’r eitemau a geir gan Ieuan Ddu mewn nodiant

Atodiad 1: Caneuon Ieuan Ddu yn y traddodiad llafar

(i) Lisa Dal y Sarn ar ‘Y Garreg Lwyd’

Yn *CCAGC* II iv cymherir yr alaw fel y’i ceir yn *Y Caniedydd Cymreig* ag amrywiad a nodwyd yn Nhroed-y-rhiw, Merthyr Tudful, ynghyd â phennill anghyflawn ‘Y ’deryn du a’r gân / sy’n tiwnio yn y llwyn ...’. Cofnododd J. Ffos Davies y gân yng Ngheredigion ac fe’i hailargraffwyd yn *Forty Welsh Traditional Tunes*.⁵¹ Y tebygolrwydd yw fod teitl cân Ieuan Ddu yn cyfeirio at Dal-y-sarn yng Ngheredigion, ac mae Daniel Huws⁵² yn cynnig tystiolaeth iddi fod ymhlith y baledi a genid hefyd yng nghylch Aberdâr. Sonir am ‘Y Gareg Lwyd’ fel teitl cân hela yn *History of Llangynwyd*,⁵³ ac yn yr un gyfrol ceir geiriau’r faled ‘Cerdd Hela Craig y Bwllfa’ (t. 190), sy’n awgrymu bod y Garreg Lwyd wedi ei lleoli yng nghylch Aberdâr.

(ii) Tŷ Fy Nhad

Wrth drafod ‘Y Fedwen Las’ yn Rhan III cyfeiriwyd at alaw sy’n dwyn y teitl ‘Shôn Dafydd’ yng nghylchgrawn y *Perl Cerddorol*. Eitem arall a gyhoeddodd Alaw Brycheiniog yn y cylchgrawn hwnnw⁵⁴ yw cân ddienw sy’n dechrau â’r geiriau ‘Y galon galed oedd fel dur ...’. Mae’r pennill i’w weld yn *Y Caniedydd Cymreig*, sef ail bennill cân Ieuan Ddu ‘Tŷ Fy Nhad’, ynghyd ag alaw gan Ieuan ei hun sydd i’w gweld yn *Davidson’s*.⁵⁵ Roedd y geiriau wedi ymddangos eisoes yn *Telyn y Cantorion* yn 1828 ar y mesur ‘Auld Lang Syne’. Ganwyd Alaw Brycheiniog yn 1844 ym Mhlwyf y Faenor ar gyrion Merthyr Tudful, a dywed iddo ddysgu’r gân gan ei dad yn blentyn tua phedair oed. Ni nodwyd unrhyw gysylltiad â Ieuan Ddu ac ymddengys, felly, fod geiriau Ieuan yn rhan o’r traddodiad llafar erbyn hynny. Fel yn

achos ‘Y Fedwen Las’ mae’r alaw a geir yn y *Perl Cerddorol* yn adlewyrchu ‘Auld Lang Syne’ o ran ei mesur a’i therfyniadau gwrywaidd. Mae’n debyg mai’r gân hon, ynghyd â ‘Shôn Dafydd’, yw’r ddwy gân y cyfeiriodd W. S. Gwynn Williams atynt fel ‘two characteristic old songs’ wrth grybwyll y *Perl Cerddorol* yn *Welsh National Music and Dance*.⁵⁶ Yn *Y Caniedydd Cymreig* dyry Ieuan ddewis arall o ran alaw, sef ‘O no we never mention her’. Dyma’r gân fel y’i cyhoeddwyd yn y *Perl Cerddorol*:

Tŷ Fy Nhad

Y galon galed oedd fel dur a chryf ar faes y gâd A
gryna fel y ddal-en ir, Wth weled tŷ fy nhad. Mi
wel-a'r drws, Mi wel-a'r fainc, A'r stôl fawr bedair trodd, Ond
nid wy'n clywed tyn-er gainc, Fy mam wth droi y rhod.

Atodiad 2: Ffynonellau’r alawon telyn

Wrth drafod ‘Tri Thrawiad’ yn Rhan II manylir ar gysylltiad Ieuan Ddu â theulu’r bardd a’r telynor Edward Evan, ac wrth drafod *Telyn* y *Cantorion* yn Rhan III nodwyd bod Ieuan Ddu wedi dod i gysylltiad â’r telynor Llewellyn Williams ‘Pencerdd y De’.⁵⁷ Yn ei draethawd ‘The Harps and Harpers of Gwent and Morganwg’ mae Ieuan yn cyfrif ‘Y Fel Wefus’ ymhlith ‘many beautiful airs remembered throughout Dyved, which our harpers have never know’. Roedd alaw o’r enw ‘Mel-wefus’ wedi ymddangos yn *Cambrian Harmony*⁵⁸ yn 1829. Sonnir ymhellach fod lle i gredu ‘that the old harpers who were to be met with here and there throughout Morganwg and Dyved, had in their own possession but very poor things ... They had scarcely a tune but for the dance ...’. Nid yw bob amser yn hawdd gwahaniaethu rhwng yr alawon telyn a’r alawon lleisiol, a gellir ystyried ‘Y Gofid Glas’ nol dull Morganwg’ yn alaw delyn, o bosibl. Troi at gasgliadau alawon telyn printiedig a wnaeth Ieuan. Noda Dr Meredydd

Evans mai *Welsh Harper I a Welsh Melodies I, II a III*⁵⁹ oedd prif ffynonellau Ieuan Ddu.⁶⁰ Gan fod *Welsh Harper I* yn ailargraffu'r rhan fwyaf o alawon Edward Jones, mewn sawl achos mae'n anodd gwybod ai o *Welsh Harper I* neu o lyfrau Jones y cododd Ieuan yr alawon. Ym mynegai'r *Welsh Harper* mae Bardd Alaw yn trosi 'Triban Gwyr Morgannwg' yn 'March of the Men of Glamorgan'. Dengys y teitl a rydd Ieuan Ddu, sef 'Glamorganshire March', ddylanwad Bardd Alaw. Yn y mynegai i'r *Caniedydd Cymreig* a geir yn Atodiad 3 rhestrir ffynonellau'r ffurfiau agosaf at alawon Ieuan Ddu, ynghyd â theitlau gwahanol lle bo'r rheini'n berthnasol.

Mae'n drawiadol pa mor agos yw ffurfiau Ieuan at y ffynonellau cyhoeddedig. Ceir fersiwn o'r alaw 'Morfa Rhuddlan' yn *Y Caniedydd Cymreig* sy'n wahanol i'r rhai mwyaf cyfarwydd. Yn *Y Cerddor* 1893 ceir rhestr o alawon Cymreig gan Nicholas Bennett sy'n cynnwys y canlynol:

516 Morfa Rhuddlan – P. Dd. [sef Parry Ddall, John Parry o Riwabon]

517 Eto: gwahanol ddull. "Jones' History of Breconshire."

Un bur gyffelyb yn llyfr Ieuan Ddu.

Mae sylwadau Bennett yn awgrymu bod fersiwn Ieuan Ddu i'w ystyried ar wahân i alaw Parry Ddall, ond maent yn perthyn yn llawer agosach nag sy'n amlwg ar yr olwg gyntaf.

Morfa Rhuddlan

Yn 1761 cyhoeddodd Parry Ddall 'Rhydlan Marsh' yn *A Collection of Welsh, English & Scotch Airs*, fersiwn gwahanol iawn i'r fersiwn a gyhoeddwyd ganddo yn *Antient British Music* (1742). Ailargraffwyd 'Morfa Rhuddlan' fel y'i ceir yn *Jones' History of Breconshire* (1805) yn *Y Cerddor Cymreig* yn 1869. Yr unig wahaniaeth sylfaenol rhwng honno a 'Rhydlan Marsh' yw fod yr hapnodau G# ac F# wedi'u hepgor yn rhan gyntaf alaw Jones. Mae gwahaniaeth hefyd yn strwythur yr alaw: mae Parry Ddall yn ei rhoi yn y ffurf AAB yn hytrach na ffurf AB Jones.

Mae fersiwn Ieuan Ddu yn agosach at 'Rhydlan Marsh' o ran ailadrodd rhan A, a defnyddir G# i derfynu rhan A. Mae gwall yn hyd y nodau ym mar 1 (a gywirwyd isod), ac amrywiad ym mar 5. Mae bar 20 alaw Ieuan yn rhannu'r minim yn ddau grosiet, bar 26 yn rhannu crosiet yn ddau gwafer, ac ym mar 28 gellir ystyried bod G# ar goll. Hepgorwyd wyth bar ar ddiwedd yr alaw. Mae'r enghreifftiau o greu amrywiad trwy rannu nodyn yn



MORFA RHUDDLAN



nodweddiadol o'r hyn a geir yn aml pan fydd fersiynau Ieuan yn gwahaniaethu oddi wrth alawon cyhoeddedig.

Y defnydd o'r hapnodau yw'r gwahaniaeth pwysicaf rhwng yr alawon. O gymharu dim ond fersiynau Jones a Parry Ddall, gellid meddwl bod rhyw amryfusedd ar ran y cyhoeddwr wedi peri bod hapnodau'n cael eu colli yn alaw Jones. Mae fersiwn Ieuan Ddu, beth bynnag, yn cytuno â Jones trwy ollwng G# ac F# o far 4.

Gallai fod yn berthnasol ystyried sut y byddai telynorion unrhes y De yn dehongli trefniannau Parry Ddall ar gyfer y delyn deires. Mae modd codi traw'r tannau G ac F a chanu trefniant Parry Ddall ar ei hyd heb unrhyw broblem. Trwy ddefnyddio ambell G yn lle G#, fodd bynnag, mae'r telynor unrhes yn gorfod newid y traw sawl tro ar ganol ei berfformiad. Cyfeiria Ann Rosser at ddull o wneud hynny trwy ddefnyddio'r bawd yn erbyn crib y delyn yn *Telyn a Thelynor*.⁶¹ Byddai'r dull hwnnw'n debygol o gynhyrchu

nodyn eithaf ansicr ei draw – ai dyna sydd i gyfrif am y gwahaniaethau yn y defnydd o'r G# rhwng y gwahanol fersiynau uchod?

Mae'n debyg mai'r nodiant o'r alaw 'Morfa Rhuddlan' sy'n cynnig y dystiolaeth gryfaf fod Ieuan wedi dibynnu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd ar y traddodiad llafar. Serch hynny, gellir ystyried ei alaw yn llygriad o fersiwn cyhoeddedig Parry Ddall.

Ceir alawon megis 'Distyll y Don' sydd, nodyn am nodyn, fel y'i ceir yn *Relicks* Edward Jones yn 1794, neu 'Ar Hyd y Nos' sydd eto'r un un â *Relicks* 1784, ond er ei bod yn debygol fod alawon telyn Ieuan Ddu yn seiliedig ar alawon telyn oedd yn gyhoeddedig ar y pryd, tueddant i ddangos newidiadau cymharol ddibwys, megis rhannu nodyn yn y dull a welwyd uchod. Nodwedd arall i'w hystyried yw'r newid yn nifer y bariau, er enghraifft, mae ail hanner 'Croesaw'r Wenynen' Ieuan Ddu yn cynnwys 16 bar yn lle'r 14 bar sydd gan Edward Jones.

Atodiad 3: Mynegai i'r eitemau mewn nodiant yn *Y Caniedydd Cymreig*

Nid oes mynegai i'r *Caniedydd Cymreig* a buddiol fyddai diwallu'r angen hwnnw isod, gan fanylu ar y dosraniad a gynigir yn Rhan II a chynnig nodiadau ar eitemau unigol. Mae colofn A = ansicr yn golygu nad oes sicrwydd sut y daeth yr eitem i feddiant Ieuan Ddu. Golyga N fod Ieuan Ddu wedi casglu'r eitem a'i nodi. Dynoda C fod yr eitem wedi'i chyfansoddi gan Ieuan Ddu. Nid yw'r ffaith fod eitem yn gynwysedig mewn casgliad o alawon telyn yn golygu o anghenraid mai dyna natur y darn dan sylw, ond yn y golofn T = telyn cyfeirir at y cyfryw eitemau, gan fanylu ar y casgliadau lle cyhoeddwyd yr eitemau, neu'r amrywiadau agosaf arnynt. Defnyddir y byrfoddau canlynol.

ABM: John Parry & Evan Williams, *Antient British Music* (Llundain, 1742)

ANA: Maria Jane Williams, *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg*, ffacsimili o gynhyrchiad 1844 (Caerdydd, 1988)

BH: John Parry, *British Harmony* (Rhiwabon & Llundain, 1781)

Bingley: William Bingley, *A tour round North Wales*, cyf. 2 (Llundain, 1800)

BM: Edward Jones, *The Bardic Museum* (Llundain, 1802)

CG: *Canu Gwerin*

CM: Joseph Parry, *Cambrian Minstrelsie* (Caeredin, 1893)

- HI: Edward Jones, *Hen Ganiadau* (arg. cyntaf, Llundain, 1820)
- HII: Edward Jones, *Hen Ganiadau* (ail arg., Llundain, 1825)
- HA: Phyllis Kinney a Meredydd Evans (gol.), *Hen Alawon* (Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, 1993)
- MW: Alfred Moffat, *The Minstrelsy of Wales* (Llundain, 1906)
- RI: Edward Jones, *Musical and Poetical Relicks of the Welsh Bards* (Llundain, 1784)
- RII: Edward Jones, *Musical and Poetical Relicks of the Welsh Bards* (ail arg., Llundain, 1794)
- TTM: John Parry 'Bardd Alaw', *Two Thousand Melodies* (Llundain, 1841)
- WES: John Parry, *A Collection of Welsh, English & Scotch Airs* (Llundain, 1761)
- WHI: John Parry 'Bardd Alaw', *The Welsh Harper*, cyf. 1 (Llundain, 1839)
- WHII: John Parry 'Bardd Alaw', *The Welsh Harper*, cyf. 2 (Llundain, 1848)
- WM: John Parry 'Bardd Alaw', *A Selection of Welsh Melodies, with symphonies and accompaniments*, I II & III (Llundain, 1822, 1821, 1829)

Cyfeirir at amrywiadau ar y teitlau lle bo'r rheini'n berthnasol. Lle bo cyfrol gyfoes sy'n rhoi gwybodaeth am eitem arbennig nodir hynny, ynghyd ag enw unrhyw alawon eraill sy'n berthnasol yn y golofn nodiadau.

Dynoda D fod yr eitem, neu amrywiad agos arni, yn *Davidson's*.

t.	teitl	A	N	C	T	nodiadau	D
173	A mi yn dod adre		N				D
52	Yr Aber				C		
146	Air to the same metre (Mentra Gwen)				C		
193	Anhawdd Ymadael				T	teitl arall: 'Fy Nghalon', RI	D
82	Ar Foreu Teg		N			teitl arall: 'Caerphilly', gw. ANA D 'Gwen lliw'r lili'	D
95	Ar Hyd y Nos				T	RI	
35	Auld Lang Syne	A				teitl arall: 'Yr Hen Amser Gynt'	
153	Y Bachgen Tawel		N			cf. ANA 'Glyn Nedd'	D
86	Banks of Aeron				C		

43	Banks of Dasies	C		
17	Banks of Usk	C		
10	Bardd yn ei Awen	T	BM, WMIII, TTM t. 55	D
98	Y Berllan	N		D
203	Beth a wneir o'r llaes ei afael	N	Dau bennill triban ynghyd? MW t. 48	
152	Beth 'wedy di am fab i Ffarmwr?	N	MW t. 109	
73	Beth yw dy air?	N		D
64	Blodau'r Cwm	N		D
61	Blodau'r Gorllewin	T	BH, BM	D
1	Blodau'r Grug	T	RI	D
198	Blodeu'r Gwinwydd	T	RII	D
203	Boreu dydd Llun	N	gw. CG12, cf. 'Dydd Llun y boreu' 'Melus-Seiniau Cymru' ff. 106, WHI	D
55	The British Oak	C		
164	By Towy's Side	C		
15	Cader Idris	T	WMII, WHI	
201	Can Dafydd Broffwyd	T	BM	D
137	Captain Morgan's March	T	RII, 'Rhyvelgyrch Cădpen Morgan'	D
126	Cardigan Reapers	C	'A glee'	
180	Cerdinen	T	ABM, 'Gorddinam', RII 'Y Cerddinen'	D
190	Cil y Fwyalch, 'nol dull Dyfed	N	cf. ANA 'Gwegil y Fwyell'	D
	Clych Prestych		gw. 'Prestych Bells'	
41	Codiad yr Ehedydd	T	RI	D
87	Coed y Fynwent	C		
188	Croesaw'r Wenynen	T	RII – estynedig	D
148	Croesaw y Gog	C		
110	Cul y Drws	N	gw. Rhan II	
69	Cwmpiad y Dail	T	cf. HI	D
101	Cwynfan Prydain	N	gw. CG12 'Crimson Velvet', 'Melus-Seiniau Cymru' yn CG9	D

8	Cwynfan Serch	C		
103	Dafydd y Garreg Wen	T	RI	D
67	Dan ryw ofid	C	<i>Telyn y Cantorion</i> , ar alaw 'Saint Patrick's Day in the morning'	
200	Dechreuad y Byd	T	BM	
65	Deffro, fy Nansi	C	<i>Telyn y Cantorion</i> , heb enwi alaw	
200	Y Deryn Glas sydd ar y Tŷ A		gw. Rhan II	D
161	Dewis Meinwen	T	RI	D
38	Difyrwch Gruffydd ap Cynan	T	BH, RII	D
88	Difyrwch Gwyr Dyfi	T	WMIII, cf. BH	D
63	Difyrwch Gwyr Mawddwy	T	HII	D
62	Distyll y Don	T	RII	D
14	Dros yr Afon	N	gw. ANA 'Pan o'wn y Gwanwyn', CG11, 'Diniweidrwydd'; CM cyf. v t. 118	
105	Dros y Dwr	T	WMII 'Sweet Vale of the Tywi'	
2	Dull o'r Triban A		gw. Rhan II	D
46	Y Dyddiau ni ddont 'nol	N	teitl arall: 'Carmarthen Bells' cf. 'Llanover neu Begi Band' yn <i>Y Cerddor Cymreig</i> 1867, t. 33	D
145	Y Dymestl	C		
158	Y Ddafad Las a'i Hoenig	N	gw. CG28 ‡	D
120	Y Ddimau Goch	N	gw. CG28, HA	
90	Yr Eneth Lan	N	alaw sy'n cynnwys motiff ailadroddus – gw Rhan III	D
51	Eos Lais	T	BH, Dynwared yr Eos	D
36	Evening Dews	C	<i>Telyn y Cantorion</i> : y gerdd 'Cymelliad i'r Maesydd' ar yr alaw 'Jessie of Dunblaine'	
167	Far, far from thee, Cambria	C		
195	Y Fedwen Las	N	gw. Rhan III	D
112	The Footpath to my House	C		
107	Y Gadlys	T	cf. WMII – cynhwysa <i>Telyn y Cantorion</i> y gerdd 'Anerchiad i Delyn y Cymry'	
157	Y Galon Drom	N	gw. HA	D

172	Y Garreg Lwyd	N	gw. Atodiad I	D
22	Y Gelynen	N	gw. Rhan III	D
18	Glamorganshire March	T	RII Triban Gwŷr Morgannwg, teitl arall: 'The Norman Horseshoe'	D
31	Glan Ebw	C		
32	Glan Towy	C		
5	Glân Weddwod Mwyn	T	RI, 'Glân Feddwod Mwyn'	D
68	Glenydd y Taf	C	<i>Telyn y Cantorion</i> , ar yr alaw 'Banks of the Dee'	
160	Y Gofid Glas 'nol dull Morganwg	N	gw. Rhan III	D
151	Gofid Gwynau	N	gw. ANA, 'Dyddiau Gwynion Ionawr'	D
57	Gorfoledd Milwr Mwnc	T	RI, 'Ymdaith Mwng' – teitl Ieuan i'w briodoli i Bardd Alaw	
100	Gwel yr Adeilad	N	gw. CG11	D
76	Gwŷr Harlech	T	RII, 'Gorhoffedd Gwŷr Harlech'	D
178	Gyda'r Wawr	N	cf. BH, 'Mentra Gwen'; gw. CG11 ac ANA 'Y Gwŷdd'	D
16	Hafren	T	HI	D
152	Haste thou Home	C	enwir 'Y Ferch o'r Scer' yn alaw i'r un geiriau	
135	He Sang of the Sea	C		
174	Hela'r Ysgyfarnog	T	RI	
182	Yr Hen Dôn	T	RI gyda gwahaniaethau yn yr hapnodau	
189	Yr Hen Ofid Glas	T	gw. Rhan III	
44	Yr Hen Ŵr o'r Coed	T	RII	
140	Yr Hên Wr o'r Coed yn ol dull Dyfed	N	gw. <i>Canu'r Cymry I</i> , 'Blodau'r Flwyddyn'	
97	Hoffedd Howell ap Owen Gwynedd	T	cf. BM, WHII	D
188	Hud y Bibell	T	RII estynedig	D
121	Ieuenticd Cymru	T	WMII, 'All ye Cambrian youth'	D
159	The Leaves are falling fast	C		
155	Lord Thou hast heard	C	anthem	

21	Y Llwyn Iorwg		C		
33	Llwyn On		T	cf. Bingley*, WMI	D
74	Mae dau ddrws ar y Dafarn	N		Rhan I	
118	Mae gennyf fi Fwthyn a Gardd	N		CCAGC II ii, ANA, 'Mab Addfwyn'	D
162	Mae'n dda gan Scwarnog	N		CG28	D
45	Maid of Rymny		C		
183	Malldraeth		T	RII	D
111	The Mary Ann	A		Rhan II	D
	Meillionen			gw. 'Sir Watkin's Delight'	
7	Mentra Gwen		T	RI cwtogwyd; CG11; ANA 'Y Gwŷdd'	D
146	Mentra Gwen yn ol dull Dyfed	N		CG11; ANA, 'Y Gwŷdd'	D
59	Merch Megan		T	BH, WMII	D
149	Mi af tua Glan yr Afon	N			D
23	Morfa Rhuddlan		T	Atodiad 2	D
53	Morgan a'i wraig		T	BH	D
197	Mwynen Gwynedd		T	WMII, 'Strike! Strike! The Harp' trefniannau tri llais	D
191	Mwynen Meirionydd		T	HI	D
30	My Father's Elbow Chair		C		
84	My Native Home		C		
80	Y Nant wrth fy Nhy	N			D
154	Ni waeth i mi pa ffordd bo'r gwynt	N			
177	Nos Galan		T	cf. RI, TTM t. 43	D
171	Now arm in arm		C		
115	The Nurse's Song		C		
70	O Gylch y Mwdwl Gwair	N			D
199	The Oak Leaf		C		
20	Ofer Alar		C		
114	Our Mountain Fires		C		
28	Pa bryd y deui etto?	N		gw. ANA, 'Gwen lliw'r lili'	D
58	Pa les i mi?		C		

104	Pam y canaf?	N		
194	Paham yr oedi?	N		D
147	Pan o'wn i ar Frig Noswaith	N		D
141	Pant Corlan yr Wyn		T	BM, WMIII D
47	Pe cawn i hon	N		teitl arall: 'Farewell to Bedwas' † D
71	The Plough Share	C		
187	Plygiad y Bedol Fach		T	WMII D
192	Prestych Bells		T	BM, 'Prestwick Bells' D
169	Reged		T	WMII
106	Rhyban Morfydd		T	RI D
	Rhyfelgyrch Captain Morgan			gw. 'Captain Morgan's March'
93	Saith Nos Olau	N		CG28 D
119	Sawdl y Fuwch		T	cf. ABM, RII; Hen Alawon D
25	Serch Hudol		T	RII, WMIII
75	Seren Llanedi	N		D
165	Siluria	C		'Harvest Hymn' ar gyfer pedwar llais
181	Sir Watkin's Delight		T	WMII D
81	Song of the Owl	C		
185	Stwffwl		T	WMI D
3	Syr Harri Ddu		T	BH D
202	Ton y Ceiliog Du		T	RII; tôn garol gw. CG11
116	Toriad y Dydd		T	cf. WMI, II; TTM tud 150 – mae'r D geiriau yn <i>Telyn y Cantorion</i>
12	Trafaelais i Gymru	N		D
72	Tri Thrawiad	A		Rhan II D
	Triban Gwyr Morgannwg			gw. 'Glamorganshire March'
142	Tro i Dre	C		
4	Tŷ Fy Nhad	C		Atodiad I D
134	The Village Maid	C		
37	The Village Oak	C		
83	Where Britain's Ships are Sailing	C		
92	Wil a'i Fam	N		gw. <i>Canu'r Cymry II</i> D
39	Winifreda		T	RII – cymharer y pennill pedair D

78	Wyres Ned Pugh	T	WMII	D
----	----------------	---	------	---

- ‡ Ar Siôn Llewelyn gw. Tom Lewis, *The History of the Hen Dŷ Cwrdd, Cefn Coed y Cymmer* (Llandyssul, 1947). Ganwyd ef yn 1693, sy'n awgrymu efallai fod 'Y Ddafad Las' i'w dyddio hyd yn oed yn gynharach na 1766. Cyhoeddwyd 'Y Ddafad las a'i Hoenig' ynghyd â geiriau hen benillion megis 'Trwm yw'r plwm, a thrwm yw'r cerig...' yn *The People's Welsh Songs No 2* (Dundee a Llundain, c.1907). Yn 1950 cyhoeddwyd 'Y Ddafad Las' yn *Rhaglen Undeb Noddwyr Alawon Cenedlaethol Cymru*, a'r tro hwn 'Dod dy law, ond wyt yn coelio ...' oedd y pennill cychwynnol. Ymddangosodd yn CCAGC IV iii yn 1953 dan yr enw 'Dod Dy Law' gydag un pennill yn ychwanegol at y rhai a grybwyllwyd uchod.
- * Ymddengys mai cyfrol Bingley 1800 yw'r gyntaf lle gwelir yr alaw 'Llwyn Onn' dan y teitl hwnnw.
- † Mae'n bosibl fod 'Farewell to Bedwas' yn cyfeirio at y cyfnod a dreuliodd Ieuan Ddu yn gweithio i Zephaniah Williams. Er bod Ieuan yn rhestru 'Pe cawn i hon' ymhlith yr alawon a gasglwyd ganddo, dyfynna bennill o ganu ei fam, gan ychwanegu nodyn sy'n gwrthgyferbynnu 'The Songs of Dyfed ... destitute of alliteration' â chanu'r Gogledd. Dyma'r pennill a rydd Ieuan:

Pe cawn i hon 'r un g'ruaidd gron
Pe meddwl i ar filoedd,
Cymerwn hi yn wraig i mi –
Cymerwn heb un geiniog.
Dau lygad lon sydd gan 'r un gron
Dwy wefus fel y *cherries*,
A'i dannedd mân heb un ar wa'n,
A'i gruddiau fel y *roses*.

NODIADAU

- 31 John Thomas 'Ieuan Ddu' (gol.), *Y Caniedydd Cymreig: The Cambrian Minstrel, being a Collection of the Melodies of Cambria with original words in English and Welsh, together with several original Airs* (Merthyr Tudful, 1845).
- 32 J. Brychan (gol.), *Y Llinos* (Merthyr Tudful, 1827), t. 56.
- 33 David Morgans, *Music and Musicians of Merthyr and District* (Merthyr Tudful, 1922), t. 28.
- 34 Siân Rhiannon Williams, *Oes y Byd i'r Iaith Gymraeg* (Caerdydd, 1992), t. 32.
- 35 Ibid., t. 42.

- 36 Ibid., t. 41.
- 37 Fe'i dyfynnir yn rhagymadrodd Daniel Huws i ffacsimili o gyfrol Maria-Jane Williams, *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg* (Aberystwyth, 1988), t. xix.
- 38 *Y Cerddor Cymreig*, 42 (1864), Atodiad, t. 1.
- 39 *Y Perl Cerddorol*, Rhagfyr 1880, t. 99.
- 40 D. G. Williams, *Casgliad o Lân Gwerin Sir Gaerfyrddin* (Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol, 1895), t. 110.
- 41 T. C. Evans, *History of Llangynwyd Parish* (Llanelli, 1887); cyhoeddwyd ffacsimili gan Lyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr (Pen-y-bont ar Ogwr, 1992), t. 158.
- 42 Am drafodaeth bellach gw. Phyllis Kinney, 'The Tunes of "Yr Hen Benillion"', *Canu Gwerin*, 2 (1979), t. 39. (Fel yn achos yr englyn Cymraeg, yn hen farddoniaeth sillafog Gaeleg yr Alban gall acen ddisgyn ar unrhyw sillaf yn y llinell, a lleoliad yr acenion, wrth gwrs, yn amrywio o bennill i bennill. Effaith hyn yn aml yw cyfyngu ar amrediad yr alaw lle cenir llinellau'r pennill. Wrth gydbblethu sillafau diystyr i batrwm y gân fe greir mwy o gyfle i fynegiant y gerddoriaeth. Y rhain yn aml yw'r elfennau mwyaf cofiadwy, nes peri bod ambell gân a'i henw'n adleisio'r cyfryw sillafau. Weithiau defnyddir y gair 'fonn' i gyfeirio atynt yn benodol, ond dro arall defnyddir y gair hwn yn gyfystyr ag alaw. Dywed Donald Campbell ar dud. 153 o'r gyfrol A treatise on the Language, Poetry, and Music of the Highland Clans mai 'The object of the Gaelic chorus (which is ... untranslatable) was to make the audience realize the emotions the song was meant to excite ...'. Dywed Phyllis Kinney: 'it is possible that the "la" syllables came to be used instead of the harp accompaniments.' A oes modd hefyd ystyried eu tarddiad yng nghyswllt perfformio barddoniaeth gaeth?)
- 43 Finlay Dun (gol.), *Orain na 'h-Albain* (Caeredin, c. 1848), t. 34.
- 44 Gw. Phyllis Kinney, 'Vocal and Instrumental Interaction in Earlier "Canu Penillion"', *Canu Gwerin*, 7 (1984), t. 31.
- 45 Edward Jones, *The Bardic Museum* (Llundain, 1802), t. 62.
- 46 John Parry, *The Welsh Harper II* (Llundain, 1848), t. 77.
- 47 Daniel Huws, 'Melus-Seiniau Cymru', *Canu Gwerin*, 8 (1985), t. 46.
- 48 G. H. Davidson, *Davidson's Musical Miracles: Two Hundred and Fifty Welsh Airs for a shilling, adapted for the violin, flute, accordion, or any treble instrument* (Llundain, 1859); cyhoeddwyd ffacsimili gan wasg Llanerch (Felinfach, [?1999]), t. 33.
- 49 T. H. Parry-Williams, *Hen Benillion* (Llandysul, 1940), pennill 182.
- 50 T. Matthews (gol.), *Dail y Gwanwyn: Barddoniaeth, Llen-gwerin a Straeon gan Fechgyn Ysgol Lewis Pengam* (Caerdydd, 1916), t. 54.
- 51 David de Lloyd, *Forty Welsh Traditional Tunes* (Llundain, 1929), t. 18.
- 52 Daniel Huws, 'Baledwyr Aberdâr', *Canu Gwerin*, 13 (1990), t. 46.
- 53 T. C. Evans, *History of Llangynwyd Parish* (Llanelli, 1887); cyhoeddwyd ffacsimili gan Lyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr (Pen-y-bont ar Ogwr, 1992), t. 190.

- 54 *Y Perl Cerddorol*, Hydref 1880, t. 75.
- 55 G. H. Davidson, *Davidson's Musical Miracles: Two Hundred and Fifty Welsh Aïrs for a shilling, adapted for the violin, flute, accordion, or any treble instrument* (Llundain, 1859); cyhoeddwyd ffacsimili gan wasg Llanerch (Felinfach, [?1999]), t. 67.
- 56 W. S. Gwynn Williams, *Welsh National Music and Dance* (Llundain, 1932), t. 151.
- 57 Fel yr adroddir yn *Llyfr Cerdd Dannau*, fe ddiodeffodd Llewellyn Williams yn sgil Terfysg Casnewydd yn 1839. Ysgrifennodd Charlotte Guest yn ei dyddlyfr ar gyfer 12 Tachwedd 1848: 'We attended the Cymreigyddion at Abergavenny...In the contest of one of the harps the sympathies of most of the audience were enlisted on behalf of a young man who played most beautifully, and whom we all thought entitled to the prize. However the judge thought otherwise...So strong was the feeling however in his favour that we soon got up a subscription to present him with a harp also...How great was my surprise when I heard afterwards that he was the son of that Zephaniah Williams ...'. Yn 'The Harps and Harpers of Gwent and Morganwg' mae Ieuan Ddu yn dewis ei eiriau'n ofalus wrth ddweud 'The most noted harpers of the present day whom I shall mention are ...'. Cyfeirir at Llewellyn Williams yn *Cerddor y Cymry*, Ebrill 1887, t. 27 fel 'un o'r telynoriau gorau a fagodd Cymru', a fe oedd athro Pencerd Gwalia. Yn *History of Caerphilly* dengys Henry Lloyd fod llinach gerddorol Llewellyn i'w holrhain yn ôl at William Jones o Benpistyll ger Pont-y-pŵl a fu'n dysgu yng Nglanbrân gyda Sackville Gwynn c.1780 (gw. *Llyfr Cerdd Dannau*, t. 209). Gresyn fod hyd yn oed y cofnod amdano yn *Telyn a Thelynor* (Caerdydd, 1981) heb fod yn hollol gywir. Cadwai ei dad, Zephaniah Williams, dafarn y Royal Oak yn Nant-y-glo. Wedi helynt 1839 symudodd y teulu i'r Boar's Head yng Nghaerffili, lle buont tan o leiaf 1854. Wedi rhyddhau Zephaniah Williams yn Tasmania yn 1856 aeth y teulu i fyw ato. Dywed Robin Bowen fod telyn deires i'w chael mewn amgueddfa yn Tasmania o hyd. Erbyn 1860 roedd Llewellyn wedi dychwelyd i Gymru gan dderbyn telyn yn anrheg mewn cyngerdd yn Nhredegar; priododd â merch tafarn The Rolling Mill yn nhref y Blaenau, Sir Fynwy, a dyna lle y bu hyd ei farwolaeth yn 1872. Dywed Oliver Jones yn *The Early Days of Sirhowy and Tredegar* '... a harp presented to him by Queen Victoria was one of the chief attractions at the exhibition held in Tredegar in 1884'. Yn *The Chartist Movement in Monmouthshire* (Newport, 1939; ail arg. 1981) sonia James Davies amdano fel 'the last of the old family harpists maintained by the Kemeys-Tyntes of Cefn Mabley'. Ef yw cyfansoddwr 'Pibddawns Y Tant' a atgynhyrchwyd o lawysgrifau Llewellyn Alaw yn *Tro Tant* gan Robin Bowen.
- 58 Richard Roberts, *Cambrian Harmony* (Caernarfon a Dulyn, 1829), t. 35.
- 59 John Parry, *Welsh Melodies* I, II a III (Llundain, 1822, 1821 a 1829).
- 60 Meredydd Evans, 'Ieuan Ddu: Eisteddfodwr a Cherddor', *Taliesin*, 58 (1986), t. 67.
- 61 Ann Rosser, *Telyn a Thelynor* (Caerdydd, 1981), t. 3.

RHIGYMAU DOLGELLAU A'R CYLCH

Olwen Clough

Daeth i'm cof amryw o hen rigymau yr oeddwn yn gyfarwydd â hwy gartref
yn Nolgellau pan oeddwn yn blentyn. Rwy'n cofio fy Nain, Anne Meredyth
Thomas, yn canu'r rhigymau cyntaf hyn ar y dôn 'Ar ôl claddu'r mochyn du'
yn ei llais cryf, a hynny tua daudddegau'r ugeinfed ganrif.

Yr oedd unwaith
Yn y Brithdir
Iâr yn dodwy
Wiau ginger
Ac roedd hefyd
Yn y Tabor
Chwilen ddu
Yn gyrru motor.

Cytgan
Weloch chi'r fath beth?
Weloch chi'r fath beth?
Weloch chi'r fath beth
Yn yr amser llawen hwn?

Ar y ffordd
Wrth fynd am dro
Welais I wrth
Stesion lo *
Robin goch mewn
Tam a shantar
Yn llyncu pwys
O sticking plaster.

Cytgan
Weloch chi'r fath beth?
Weloch chi'r fath beth?

Weloch chi'r fath beth
Yn yr amser llawen hwn?

*Yn Nolgellau

Rhigymau eraill rwy'n eu cofio'n iawn yw'r geiriau hyn am yr Ianci.

Yankee doodle dyn i gyd
Yankee doodle dandy
Canu mae o hyd o hyd
Yankee doodle dandy.

Fe neidiodd dros y moroedd pell
I ganol wlad y Shankee
A brechdan driog yn ei law
I roi i Mister Yankee.

Yankee doodle dyn i gyd
Yankee doodle dandy,
Canu mae o ben draw'r byd
Yankee doodle dandy.

Tybed a oes rhywun yn cofio mwy o rigymau a oedd yn boblogaidd yn Nolgellau a'r cyffiniau? Byddwn yn falch o gael fy atgoffa ohonynt.



Mary Elizabeth Thomas (mam yr awdures) ac Anne Meredyth Thomas (nain yr awdures) yng ngardd eu cartref yn Nolgellau, sef Bank View, South Street, c. 1918.

‘MARCHNAD LLANGOLLEN’

Charles Parry

Doh B♭.

{ :l₁ | m₁ .l₁ :l₁ .t₁ | d .,d :t₁ .t₁ | l₁ .d :t₁ .l₁ | se₁ :m₁ .t₁ }



Un - to Llan-go-llen mar-ket-age One morning did I go, . . But

{ | d .t₁ :d .r | m :m .r | r .t₁ :l₁ .se₁ | l₁ :- . || }



how to strike a bar - gain In - deed I do not know.

{ .d | d,m,- :d m | r :t₁ .t₁ | d .,d:m .l₁ | se₁ : .l₁ }



My fa-ther chides the morn - ing, My mo - ther all the day, Oh,

{ | m₁ .f₁ :m₁ .r₁ | d₁ .,r₁:m₁ m₁ | l₁ .l₁ :se₁ .l₁,t₁ | l₁ :- .|| }



Ow - en why'st thou leave . . me : At home why did I.. stay.

Rwy'n dyfalu bod darllenwyr *Canu Gwerin* yn gyfarwydd â chlywed y gân 'Marchnad Llangollen' yn cael ei chanu. Ceir dau nodyn amdani yn *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, I (tt. 23–4, 180–1), lle y dywedir mai cân gyda geiriau Saesneg ydoedd, a'i bod wedi ei nodi yn sir Faesyfed wrth i'r Parchedig J. Emlyn Jones ei chanu yn null yr hen faledwr David Lewis, Pantysgawen. Un pennill a gyhoeddwyd yn y *Cylchgrawn*, tt. 23–4, ond cyhoeddwyd y geiriau'n llawn ar dudalennau 180–1, a chyn hynny yng nghyfrol Edward Jones, *Hen Ganiadau Cymru* (Llundain, 1820), t. 5. Olrheinir y geiriau Saesneg yn ôl, felly, i 1820. Fe'u cyfieithwyd i'r Gymraeg gan John Eilian a'u cyhoeddi yn *Un ar Ddeg o Ganeuon Gwerin Cymru*, gol. W. S. Gwynn Williams (Llangollen, 1958), rhif 10.

Tua phymtheng mlynedd yn ôl bûm yn edrych ar y gyfrol a ganlyn yn y Llyfrgell Brydeinig: *The modern songster; consisting of a collection of the most admired American and English songs, which have been sung with applause at the public theatres. Also, some of the best and most favorite Scotch, Irish, and Welsh songs, including a variety of scarce old songs not to be found in any other collection* (Second Baltimore edition. Baltimore: Printed by William Warner), 1816.¹ Ar dudalennau 94–5 o'r llyfr hwn ceir cân dan y teitl 'Owen'. Geiriau 'Llangollen Market' ydynt, ac mae'r teitl 'Owen' yn addas gan mai Owen yw enw'r llanc sy'n mynd i ryfel yn y gân. Ni chopiais y geiriau ac felly ni fedraf eu cymharu gyda'r rhai yn y *Cylchgrawn*. Mae *The modern songster* (1816) yn llyfr bach prin iawn, hyd yn oed yn America; felly hefyd yr argraffiad cyntaf ohono (Baltimore, 1805). Ni welais gopi o hwnnw ond cefais gadarnhad o lyfrgell Prifysgol Brown yn Providence, Rhode Island fod testun 'Owen' i'w weld ynddo.

Bydd darllenwyr *Canu Gwerin* yn gyfarwydd, rwy'n siwr, â *songsters*. Yr argraff a gefais yw mai llyfrau fformat bychan ydynt, eu bod yn gyffredin yn y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a'u bod yn cynnwys geiriau caneuon yn unig, heb gerddoriaeth. Y ffaith fod teitl cyfrol 1816 yn cyfeirio at Welsh songs a barodd i mi ei archebu yn y Llyfrgell Brydeinig: dyfalaf mai ychydig o'r *songsters* hyn o Loegr ac America sy'n cynnwys caneuon Cymreig.

Ar ôl dychwelyd o Lundain cefais gip ar gatalog cerdd y Llyfrgell Brydeinig. Cyfeirir y defnyddiwr oddi wrth 'Owen' at y pennawd 'Though'. Yno ceir y canlynol: Tho' far beyond the mountains. Owen. A much admired song, and Welch, air. J. Stevens: Glasgow, [1802?]. s. sh. fol. Methais ag olrhain argraffiad Prydeinig o 'Owen' o'r cyfnod cyn 1801 yn unman.

Anghofiais am fy nodiadau ar *The modern songster* a'r cofnod yng nghatalog cerdd y Llyfrgell Brydeinig am flynyddoedd nes dod ar eu traws yn ddiweddar wrth chwilio am rywbeth arall. Dechreuais ddilyn y trywydd hwn eto a chael fy hun yn edrych ar y llyfr canlynol: Oscar George Theodore Sonneck, *A bibliography of early secular American music (18th century)*. By ... Sonneck; revised and enlarged by William Treat Upton (New York: Da Capo Press, 1964).² Ar dudalennau 323–4 rhestrir (gyda lleoliadau) bedwar argraffiad o'r gân 'Owen', h.y. geiriau a cherddoriaeth. Deuant o weisg yn Efrog Newydd a Philadelphia. Mae'r cofnodion hyn yn fanylach na'r un sydd yng nghatalog cerdd y Llyfrgell Brydeinig. Ymddengys fod 'Owen', o

bosibl, yn gân y gellid ei chanu mewn cyngherddau: sonnir am drefniant i'r fflwiwt hefyd yn un o'r cofnodion hyn. Gyda llaw, ymddengys y pennawd 'Welsh music' ym mynegai llyfr Sonneck. Yn anffodus nid yw'r gwaith canlynol a allai fod yn berthnasol ar gael yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Richard J. Wolfe, *Secular music in America, 1801–1825: a bibliography* (New York: New York Public Library, 1964). 3 cyfrol.

Mae'r adnodd a ganlyn ar gael i ddarllenwyr yn y Llyfrgell Genedlaethol: Eighteenth Century Collections On-line (ECCO). Yma ceir yn ddigidiedig destun miloedd lawer o lyfrau print o'r ddeunawfed ganrif, gan gynnwys llyfrau Americanaidd. Ni chynhwysir cerddoriaeth ddalen yn ECCO. Sganiwyd cynnwys y cyfrolau hyn, sy'n caniatáu i ymchwilydd chwilio am eiriau ac ymadroddion yng nghorff y testun. Methais olrhain geiriau'r gân 'Owen' yn yr adnodd hwn. Efallai nad yw'r geiriau'n digwydd mewn llyfr print o'r ddeunawfed ganrif, neu efallai eu bod mewn llyfr sydd heb fod ar ECCO. Yn llyfr Sonneck (gweler uchod) ceir rhestr sylweddol o *songsters* Americanaidd a gyhoeddwyd yn y ddeunawfed ganrif; dyfalaf nad yw pob un o'r rhain ar ECCO. Bellach mae'r We yn ffynhonnell ddihysbydd o wybodaeth. Bûm yn chwilio ar Google a llwyddais i olrhain y gwaith canlynol: Helen Cripe, *Thomas Jefferson and music* (Charlottesville: University Press of Virginia, 1974, second printing 1979).³ Digwydd cyfeiriad at y gân 'Owen' ar frig t. 114.

Ni lwyddais i olrhain cofnod i'r gân 'Owen' yng nghatalog Llyfrgell Genedlaethol Cymru ond roedd un peth yn fy nharo: gallai'r gerddoriaeth yn yr argraffiadau y cyfeirir atynt uchod fod yn dra gwahanol i'r dôn sydd yng nghyrol gyntaf y *Cylchgrawn*. Yn sicr gellir olrhain y geiriau Saesneg ymhellach yn ôl nag a wneir yn *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, I (tt. 180–1), mor bell â 1799 yn ôl Sonneck. Ar droad y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg y teitl a roddid i'r geiriau Saesneg oedd 'Owen'. Ai'r *Cylchgrawn* a ddechreuodd alw'r gân yn 'Llangollen Market'? Os felly y bu, mae'n enw sydd wedi hen ennill ei blwyf, ac yn un sydd hefyd gryn dipyn yn fwy cofiadwy a swynol nag 'Owen'.

NODIADAU

- 1 Rhif silff copi'r Llyfrgell Brydeinig yw 11622. a. 39.
- 2 Rhif silff copi LIGC yw ML 120 U58 S69.
- 3 Rhif silff copi LIGC yw 98MB23051.

‘CYSURWCH, CYSURWCH FY MHOBL’

Maurice Loader a Caradog Williams

Cynhaliwyd cystadleuaeth cyfansoddi carol blygain yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir y Fflint a'r Cyffiniau 2007. Derbyniwyd 23 o garolau i'r gystadleuaeth, a phob un ohonynt o safon uchel iawn. Y Parchedig Maurice Loader a gipiodd y llawryf gyda'i garol 'Cysurwch, cysurwch fy mhobl'. Dyma'r feirniadaeth ar y garol honno:

Mae gorfoledd y garol hon yn wefreiddiol. Seiliwyd hi'n gadarn ar yr Ysgrythurau a hoffais ei chyfeirio cyson a deallus at adnodau allweddol i Iachawdwriaeth. Hoffais yn enwedig y mydryddiad o'r Magnificat, sy'n agos iawn at fy nghalon ac sy'n rhan mor bwysig o wasanaeth plygain. Dyma garol sy'n canu drwyddi ac y mae cynhesrwydd ei ffydd yn neilltuol o apelgar.

Ymhen dim o dro yr oedd Caradog Williams wedi llunio alaw ar ei chyfer, ar gyfer tri llais. Canwyd y garol droeon yn ystod tymor y plygain 2007–2008, a bu'n boblogaidd iawn gan gynulleidfaoedd y de a'r gogledd.



Maurice Loader

Cysurwch, cysurwch fy mhobl

Geiriau gan y Parch. Maurice Loader

Cerddoriaeth gan Caradog Williams

Os defnyddir lleisiau dynion yn unig,
caner y nodau bŷs a nodir gyda ()

(Doh = C)

Soprano

Tenor

Bŷs

1. Cy - su - rwch, cy - su - rwch fy mho - bol, a... bloe - ddiwch: Fe dor - rodd y wawr, we - di oe - di mor hir; I

Im Im : r . d ls . f : - m ll : s . ll d' . d' : - d' d' : d' d' lf : f . f ls : s . s ls : - .

5

S.

T.

B.

we - rin dan or - chudd y fag - ddu fe ro - ddwyd Ci - po - lwg ar le - wyrch o Fe - thle - hem dir:

ls : s : - f m : r . d lf : m . f m : r : - s ll d' : - t ll : s : - fe m . fe : l ls : - .

Im' . m' . m' : - . r' d' : t : - l ls : l : d' lt : - s

Ci - po - lwg ar le - wyrch o Fe - thle - hem dir: Y

lt d . lb : - . lb d . r : - r lr : r : r ls : - .

9

S.

T.

B.

I - ma - nwel a a - nwyd, mae Duw gy - da ni';


ls : f : m ll : l : l t : l : s ld' : d' : m' Im' : r' : m' d' : r' : m' lf : f : m' lr' : - s

Fo - rwyn fei - chio - godd, ar fa - ban es - go - rodd, I - ma - nwel a a - nwyd, mae Duw gy - da ni'; Cy -

lt d : d' ll : t : d' r' : r' d' lt : -

d d : d d lf : f : m lr : r : r m f ls : - s

13

S. 

T. 


B. 


Cy - ngho - rwr rhy - fe - ddol y'i

ng ho - rwr rhy - fe - ddol y'i ge - lwir, Tad by - thol, Cy - ngho - rwr rhy - fe - ddol y'i

16

S. 

T. 

B. 

ge - lwir, Tad by - thol, Ty - wy - sog he - ddy - chlon, Duw ca - darn o fri.

ge - lwir, Tad by - thol, Ty - wy - sog he - ddy - chlon, Duw ca - darn o fri.

l m : m : s l d' : d' : d' f : s : l l : s : f s : s : s l d' :- :-

2. "Mawrygaf yr Arglwydd", medd Mair wynfydedig,

"Am wneuthur ohono fawr bethau i mi,
Gwasgarodd wŷr talog a'r beilchion eu calon
A diosg t'wysogion o'u gorsedd a'u bri.
Grymuster ei freichiau sy'n cynnal ein beichiau,
Dyrchafodd Duw lŵr y rhai isel eu stad,
Gan yrru'r cyfoethog o'i wydd yn anghenog
A llwytho'r newynog â'i roddion yn rhad."

3. Ym Methlem cyflawnwyd addewid yr oesau:

Daeth Iesu i lwyfan helbulus ein byd;
Er gwaetha'r bygythiad gan Herod a'i giwed
Y Baban a orfu, er ised ei grud.
Daeth gwerin cymdogaeth i dalu gwrogaeth,
A doethion o hirbell â'u haur, thus a myrr;
Addewid Duw graslon sydd ddiogel a chyson,
Ei air nid yw wamal, ei amod ni thyr.

4. "Er cwypm a chyfodiad i lawer yn Israel"
Aeth Iesu â'i neges o bentref i dref;
Fe gwmpodd rhagrithwyr dan fflangell ei gerydd,
A chodwyd trueiniaid o'r ffos gan ei lef.
Ei air oedd angerddol, ei wyrthiau yn nerthol,
Ac ildiodd disgyblion i gri'r alwad fawr;
Roedd yntau'n synhwyro fod rhywrai'n cynllwynio,
Fod croes ar y gorwel, a dyfod ei awr.
5. Dwy deyrnas fu'n brwydro ar ben Bryn Calfaria:
Llu Cesar yn herio holl rym teyrnas nef;
Fe hoeliwyd y Gwas Dioddefus ar groesbren,
Ond un a orchfygodd, a Iesu oedd ef!
I'r Arglwydd rhown foliant, a seiniwn ei haeddiant,
Mewn carol o fawl i arloeswr ein ffydd;
Y gelyn a drechwyd, can's Iesu a godwyd
O'r bedd a'i dywyllwch i wawr Trydydd Dydd.


DR EIRWEN GWYNN (1916-2007)

Meredydd Evans

Yn fy nyddiadur am 26 Ionawr 2007 mae'r cofnod yn agor fel hyn: 'Newydd a'm trawodd yn arw – Iolo yn galw ar y ffôn ben bora i ddweud fod Eirwen wedi marw yn ystod y nos.' Prin ddeufis ynghynt roedd wedi dathlu ei phen blwydd yn ddeg a phedwar ugain, yn fregus ei chyflwr corfforol ond yn fywiog a miniog ei meddwl fel erioed. Ar 31 Ionawr, gyda'i theulu agos a nifer o'i chyfeillion o'i hamgylch, fe'i claddwyd ym mynwent Llanrug, nid nepell o Dyddyn Rhuddallt lle bu Harri a hithau'n byw o haf 1970 hyd 24 Ebrill 1985, pan fu Harri farw o glefyd Parkinson. Meddai Eirwen yn ddiweddarach: 'Hunllef fu'r pedair awr ddilynol. Nid wyf erioed wedi wylo fel yr wylais y bore hwnnw. Rhwygwyd fi gan ddolefain ysgytwol nes ymlâdd yn llwyr.'



Llun: Iolo ap Gwynn



Hunanbortread

Os bu dau yn agos at ei gilydd erioed, Eirwen a Harri oedd y rheini. Ddwy flynedd wedi'r gwahanu anorfod symudodd Eirwen i fyw wrth ymyl Iolo, Ellen a'r plant yn Nhal-y-bont, Ceredigion.

Cafodd ei geni yn Lerpwl ar aelwyd ddiamheuol Gymraeg ei hiaith, ei thad o Flaenau Ffestiniog a'i mam yn hanu o Fwlchtocyn yn Llŷn. Symudodd y teulu i Langefni pan oedd Eirwen tuag un mlwydd ar ddeg oed, ac wedi gyrfa ddisglair yn yr Ysgol Sir yno aeth i Goleg Bangor yn 1934, yn ferch ifanc hynod o landeg, yn aelod brwd o Blaid Cymru, a'i bryd ar raddio mewn Mathemateg.

'Dieneiniad' yn ei golwg hi oedd darlithwyr yr Adran honno a newidiodd ei chwrs i Ffiseg. Yn wyneb cryn lawer o ragfarn batriarchaidd, rhagfarn y bu'n rhaid iddi ei wynebu hefyd wedi iddi adael y coleg, graddiodd gydag anrhydedd mewn Ffiseg yn 1937, ac yna enillodd radd doethuriaeth yn 1940 am waith ar grisïaleg pelydrau-x, y ferch gyntaf i ennill gradd o'r fath yn Adran Ffiseg Bangor. 'Does ryfedd yn y byd iddi weddill ei hoes ddod yn amddiffynnydd mor ymroddedig dros hawliau merched mewn cymdeithas. Eithr mae mwy i'w wneud mewn coleg na llafurio mewn labordai, stafelloedd darlithio a llyfrgelloedd! Syrthiodd Eirwen a Harri mewn cariad â'i gilydd, dros eu pennau; safodd y ddau dros le'r iaith yng ngweithgareddau Cyngor y Myfyrwyr; dadleuasant dros fuddiannau gwleidyddol y Cymry mewn cyfarfodydd a chynadleddau tu mewn a thu allan i furiau'r coleg; cyfranasant yn helaeth i fywyd cymdeithasol y lle.

Wedi cyfnod gweddol fyr o hyfforddi mewn ysgolion priododd y ddau ar ddydd Calan Ionawr, 1942. O hynny ymlaen aeth bron yn amhosibl sôn am y naill heb sôn am y llall a chyn bo hir cawsant eu hunain yn gweithio yn Warwick, mewn gwahanol adrannau o'r Gwasanaeth Sifil. Symud wedyn i Lundain, lle ganwyd Iolo a lle cyfrannodd y ddau yn hael i fywyd Cymraeg y ddinas honno ond, gyda threigl amser, roedd y dynfa at Gymru yn dyfnhau ac erbyn 1950, er nad oedd odid ddim profiad ffermio gan y rhieni, roedd y teulu o dri wedi ymsefydlu yn Nhyddyn Cwcallt, Eifionydd – ac yn ffermio. Yn ôl Bob Owen, Croesor, 'doedd y ddau ddim chwarter call!

Bywyd go fain oedd bywyd ar fferm deulu fechan yn Eifionydd ac aeth y ddau ati i ategu'r enillion ffarmwrol trwy sgrifennu i'r wasg, darlledu a darlithio. Dyma pryd y dechreuodd Eirwen lenyddu o ddifrif a thros y blynnyddoedd cyhoeddodd gryn ddeg o lyfrau (yn nofelau, straeon byrion ac ysgrifau), rhai cannoedd o golofnau wythnosol ar faterion gwyddonol, iechyd a bwyd priodol, i'r *Cymro*, *Y Faner* a'r *Gwyddonydd*, a chyfrannodd yn helaeth hefyd i'r cyfryngau darlledu, yn arbennig radio.

Buont yn ffermio am ddeuddeg mlynedd ond tros y cyfnod hwnnw aethai darlledu a darlithio â mwy a mwy o'u hamser ac erbyn 1962 roeddynt wedi symud i fyw i Fangor, dinas a oedd bellach yn llawer mwy cyfleus iddyn nhw. Yno roedd Canolfan Gogledd Cymru y BBC, ac yno roedd swyddfeydd canolog Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, ac Adran Efyrdiau Allanol Coleg y Brifysgol.

Gymaint oedd y galwadau ar alluoedd darlithio graenus Eirwen fel y

cynigiwyd swydd amser llawn iddi yn 1970 fel Athro-Drefnydd hefo Cymdeithas Addysg y Gweithwyr ac yn haf y flwyddyn honno dyma symud unwaith yn rhagor i Dyddyn Rhuddallt, Llanrug. Cyflawnodd y swydd honno yn eithriadol o lwyddiannus hyd 1979 pan ymddeolodd Harri a hithau yn swyddogol o'u gwaith. Roedd y clefyd Parkinson ar fin taflu ei gysgod arswydus dros eu hynt. Dwysaodd yr angen o du Eirwen am ofalu cyson, diflino dros Harri yn ystod y chwe blynedd olaf. Disgrifiodd y cyfnod yn ddiweddarach fel 'Y Cafn Dwfn'.

Gydol ei bywyd ymgyrchodd yn gyndyn dros ddefnyddio'r Gymraeg ymhob gwedd ar fywyd ein cenedl ac roedd yn ffyrnig dros weld parch teilwng yn cael ei dalu iddi gan wŷr llên, gweinyddwyr cyhoeddus, darlledwyr wrth eu swydd, ac ati. Ymhyfrydai ym moddion difyrwrch ac arferion cymdeithasol ei hynafiaid ac ym mlynnyddoedd olaf ei hoes, yn arbennig wedi iddi symud i Geredigion, manteisiodd ar hamdden cynyddol i fynychu cynadleddau blynyddol Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, yn aml iawn yng nghwmni ei chyfeilles Mary Llywelfryn Davies. Carai'r hen ganeuon; canodd lawer arnynt pan oedd yn ifanc, weithiau mewn cyngerdd neu eisteddfod, ac yn ei henaint câi foddhad mawr yn ddieithriad o fod yng nghwmni rhai o gyffelyb fryd.

Bu fyw bywyd gwerth chweil: un annibynnol ei meddwl gydag adnoddau deallusol ac ysbrydol anghyffredin, cywir ei hamcan, dilys ei chymhellion, diofn wrth fynegi barn, a hael ei chyfeillgarwch. Roedd hi'n werth cael nabod Eirwen.

GWILYM MORUS, LLANEFYDD, 1942-2007

Dafydd Idris Edwards

Fe ddaeth cannoedd ohonom ynghyd i Eglwys y Plwyf, Llanefydd, i ffarwelio â Gwilym ar ddechrau Rhagfyr y llynedd. Yn ei deyrnged gofiadwy, fe ddisgrifiodd Bryn Williams, Plas Ucha, Llanefydd, ei gyfaill fel ‘arweinydd yn ei gymdeithas ac yn ddyn ei filltir sgwâr. Roedd hefyd yn fwy na hynny, gan ei fod yn chwarae rhan ar lwyfan cenedlaethol. Roedd ei ddiddordebau’n amrywiol, ei weledigaeth yn eang, a’i ddoniau’n ddigon mawr i wireddu ei freuddwyd.’ I ninnau oedd ddim ond yn adnabod Gwilym pan droediai tu allan i’w filltir sgwâr, mewn ‘steddfod, noson lawen, penwythnos a phwyllgor Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, mae’n werth crynhoi rhywfaint o’i gyfraniad i’w gymdeithas yn Llanefydd a’r cylch.



Gwilym Morus (chwith) yng nghwmni’r storïwyr.

Roedd Gwilym yn weithgar yn y Clwb Ffermwyr Ifanc a’r capel, ac yn llwyddiannus wrth gystadlu mewn eisteddfodau, yn adrodd, canu, sgrifennu

barddoniaeth a rhyddiaith. Fe dystiodd Bryn Williams i'w lwyddiant eisteddfodol cynnar wrth gofio gweld Gwilym mewn eisteddfod leol 'a rhes o rosettes ar ei siaced'. Fe ddatblygodd i fod yn wyneb cyfarwydd fel arweinydd a pherfformiwr mewn noson lawen, ac fe ddaeth yn feirniad ac yn hyfforddwr deialog ac adroddiad digri, ac yn gynhyrchydd sgetsys, dramâu a chyflwyniadau gwerin cofiadwy. Fel pe na bai hyn oll yn ddigon, bu'n gadeirydd ar fwrdd llywodraethol dwy ysgol, yn actio mewn amryw o raglenni teledu Cymraeg a hyd yn oed mewn opera sebon Seisnig, ac fe aeth i'r coleg yn ei bedwardegau a graddio yn 1991. Yn ei rôl fel arolygwr ysgolion lleyg, gellir tystio i'w garedigrwydd, ei radlondeb a'i barodrwydd i fod yn 'gymorth hawdd ei gael mewn cyfyngder'. Gartref yn Llechryd, dechreuodd fagu defaid Llŷn gan ddod yn llywydd Cymdeithas Defaid Llŷn Gogledd Cymru ac ennill pencampwriaeth y Gymdeithas yn 2006 a 2007.

Roedd caneuon gwerin yng ngwaed Gwilym ac yn rhan o'i waddol deuluol. Ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Y Rhyl, 1985, fe dynnodd ynghyd tua thrigain o drigolion y fro, yn blant ac oedolion, i gystadlu ar y Cyflwyniad Gwerin. Ar ôl ennill, cafodd Parti Bro Nefydd gyfle i berfformio yng Nghyngerdd Gŵyl Ddewi Cymry Llundain yn 1986, a'r Wyl Ban Geltaidd yn 1987. Cawsant lwyddiant pellach yn Eisteddfodau Cenedlaethol Cricieth, Casnewydd a Llanrwst. Hanfod y cyflwyniad oedd caneuon a cherddoriaeth werin, a diolch i Gwilym fe ddysgodd y criw doreth cyfoethog ac amhrisiadwy o'n caneuon traddodiadol. Yn Eisteddfod Genedlaethol Porthmadog y cynhaliwyd Cystadleuaeth y Faled am y tro cyntaf, gydag Elfed Lewis yn feirniad. Gwilym aeth â hi, ac fe aeth ymlaen i'w hennill am yr eildro.

Yn ystod yr wythdegau a'r nawdegau bu'n weithgar gyda Chymdeithas Alawon Gwerin Cymru: bu'n aelod o'r Pwyllgor Gwaith ac yn Gadeirydd arni am dair blynedd. Fe gynhaliwyd cynadleddau blynyddol y Gymdeithas bryd hynny ym Mhlas Gregynog. Un o'r uchafbwyntiau fyddai canu yn y seler hyd oriau mân y bore. Fe godwyd nifer o ganeuon yn ystod y cyfnodau hyn a chyfraniad arbennig Gwilym oedd 'Ddaw hi ddim'. Fe welir y gân a hanes ei chodi gan Gwilym, yn *Canu'r Cymru* 2 (gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans), cyfrol a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas yn 1987. I ni oedd wedi cael y fraint o adnabod Gwilym y tu allan i'w filltir sgwâr, yr hyn a gofiwn ni orau, yn anad dim, yw'r cawr o gymeriad hoffus yn perfformio 'Ddaw hi ddim'.

Pan gludwyd corff Gwilym i mewn i Eglwys Llanefydd at ei gyfeillion ar ddiwrnod oer o Ragfyr, nid cerddoriaeth Mozart na Mendelssohn a ganwyd ar yr organ ond rhai o'i hoff ganeuon gwerin. Yr oedd gan y gân olaf, sef 'Ambell i Gân', le arbennig yn ei galon gan ei fod wedi ei dysgu gan ei unig chwaer, Nest, a fu farw yn dri deg chwech oed. Roedd y geiriau'n gysur i Gwilym fel y byddan nhw, mae'n siwr, i Beryl a'r teulu. Yno yn yr eglwys, o wrando'n astud, fe fyddech wedi clywed sawl un ohonom yn canu'r pennill olaf yn dawel fach gyda'r organ:

Ambell i gân a gaf yn y byd,
Ond teithiaf i wlad fydd yn ganu i gyd,
Ac wedi im' adael yr anial yn lân
Gobeithiaf gael canu, nid ambell gân.

(Diolch i Bryn Williams, Llanefydd, am ei gydweithrediad wrth lunio'r deyrnged hon.)


Adolygiad

Seiriol Dafydd

Barbara Boock, *Kinderliederbücher 1770–2000: Eine annotierte, illustrierte Bibliografie der deutschsprachigen Kinderliederbücher im Deutschen Volksliedarchiv* (Münster, 2007)

Yn y gyfrol werthfawr hon cyflwynir llyfryddiaeth eang o lyfrau caneuon plant Almaeneg am y tro cyntaf. Rhoddir disgrifiad byr o gynnwys pob llyfr, yn ogystal â gwybodaeth am yr awdur a'r cyhoeddwr. Mae nifer o luniau yn bywiogi'r gyfrol, rhai ohonynt yn fy atgoffa i o'r lluniau mewn llyfrau plant Cymraeg yr oeddwn i'n eu darllen rai blynyddoedd yn ôl!

Yn ei chyflwyniad i'r gyfrol mae Barbara Boock yn trafod sut mae caneuon plant yn adlewyrchu newidiadau cymdeithasol. Mae'r caneuon hefyd yn ffordd dda o



Seiriol Dafydd

ddarganfod byd-olwg yr oes yr ysgrifennwyd hwy ynddi. Fel enghraifft eithaf o hyn mae'n ddiddorol edrych ar ganeuon plant o'r cyfnod pan oedd y Natsïaid mewn grym. Prin nad oedd unrhyw elfen o ddiwylliant yr Almaen heb ei dylanwadu gan syniadaeth Hitler. Dyma bwnc Günther Noll yn ei erthygl *Zwischen Kinderweltdidyle und Wehrerziehung: Anmerkungen zum Kinderlied in der NS-Zeit* (Rhwng plentyndod delfrydol a hyfforddiant milwrol: sylwadau ar ganeuon plant yng nghyfnod Natsïaeth), erthygl sydd wedi ei chynnwys yn y gyfrol ar derfyn y rhagymadrodd. Mae'n dadlau bod caneuon plant yn ffordd effeithiol iawn o drwytho ieuencid yr Almaen mewn syniadau, a bod y Natsïaid wedi defnyddio hyn i'w mantais. Yn un peth mae canu yn cynhyrfu'r corff a'r meddwl ac yn cyflyru'r emosiynau. Mae hyn yn ei gwneud yn hawdd cofio geiriau cân ac yn naddu unrhyw neges wleidyddol ar y meddwl. Mae Noll hefyd yn dadlau bod caneuon plant

yn gyfrwng oedd â llawer o ymddiriedaeth ynddi ac felly'n llai tebygol o gael ei hamau o fod â phwrpas gwleidyddol dadleuol. Yn olaf, does gan blant ifanc mo'r profiad i sylweddoli eu bod yn cael eu bwydo ar bolisi gwleidyddol neilltuol, fod plaid yn gwthio ei syniadau arnynt, ac o ganlyniad maent yn debygol o dderbyn y neges fel gwirionedd. Roedd caneuon plant, felly, yn un cyfrwng propaganda ymysg llawer a ddefnyddiwyd gan y Natsïaid i berswadio cenedl i'w cefnogi.

Mae'r llyfryddiaeth hon, fodd bynnag, yn ymestyn dros gyfnod llawer ehangach, gyda'r cofnod cyntaf o lyfr a gyhoeddwyd yn 1766 a'r diweddaraf yn 2000. I unrhyw un sy'n ymddiddori mewn caneuon plant neu mewn diwylliant Almaenig, bydd hon yn gyfrol ddefnyddiol a diddorol.



Adolygiad

Adolygiad: Trevor Jones, *Caneuon Mam – Mam's Songs*

Dyma CD sydd wedi ei gwreiddio yn y traddodiad eisteddfodol, lle dethlir cerddoriaeth, drama a barddoniaeth drwy gyfrwng cystadleuaeth a chyngerdd. Mae'r caneuon hyn yn rhan o'r traddodiad llafar, y traddodiad hwnnw lle mae llên gwerin yn cael ei drosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth. Yng Nghymru, y fam sy'n fwyaf tebygol o drosglwyddo deunydd llafar i'w phlant, ac ar y CD hon fe glywir y caneuon hynny a ddysgodd Trevor Jones ar lin ei fam.

Credir bod y caneuon hyn yn bwysig i gadw'n fyw yr etifeddiaeth Gymreig. Er bod Trevor Jones yn medru'r Gymraeg, yn Saesneg y cyflwynir y caneuon, gan ddisgrifio nid yn unig y straeon sy'n gefndir iddynt, ond hefyd pa fath o hwyl ac eneiniad sy'n gefnlen i'r gair. Cafodd Trevor Jones ei fagu yng Nghwm Tawe, ac mae'n pwysleisio'r ffaith fod y capel a'r diwydiant dur lleol yn ddylanwadau trwm arno ef a'i gymdogion yn y cwm. Cenir y caneuon gan mwyaf yn ddigyfeiliant, a hynny gyda chynhesrwydd ac afiaith. Wyth cân sydd ar y CD, sef 'Blwyddyn Newydd Dda', 'Dacw 'nghariad', 'Ar lan y môr', 'Ble rwyd ti'n myned?', 'Dafydd y Garreg Wen', 'Hiraeth', 'Gyrru'r Ychen', a 'Lisa Lân'. Gellir cael copïau drwy gysylltu â'r cyfeiriadau isod:

ann.jones-bs@ntlworld.com

neu: Trevor Jones, 3 Berthwin Street, Caerdydd, CF11 9JH

Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru
ac
Ysgol Cerddoriaeth, Prifysgol Bangor

CROESI FFINIAU

**Cerddoriaeth werin ieithoedd a diwylliannau
lleiafrifol Ewrob**

Mawrth 30ain - Ebrill 4ydd, 2009

ym

Mhrifysgol Bangor

Cynhadledd ryngwladol i ddathlu canmlwyddiant cyhoeddi
***Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru
(1909-2009)***

Darlithiau, cyngherddau, cyflwyniadau a chyfle
i rannu profiadau

www.bangor.ac.uk/cerddorddiaeth/cynhadledd



2330158

Dyblygion

Canu gwerin

Folk song.